

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 10/2010

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso Cynllun Hawlio Budd- dal y Dreth Gyngor a Budd-dal Tai yng Nghymru

Gwerthuso Cynllun Hawlio Budd-dal y Dreth Gyngor a Budd-dal Tai yng Nghymru

KPMG mewn cydweithrediad ag Oxford Economics

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhannu'r farn honno o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ceri Greenall

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 82 5872

Ebost: ceri.greenall@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

ISBN 978 0 7504 5870 2

© Hawlfraint y Goron 2010

Nodyn: Cefndir yr adroddiad hwn

Ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru'n unig y lluniwyd yr adroddiad hwn.

Ac eithrio o dan yr amgylchiadau prin a nodir yn yr adroddiad, nid ydym wedi dilysu dibynadwyedd na chywirdeb unrhyw wybodaeth a gafwyd wrth i ni wneud ein gwaith.

Nid yw'r adroddiad hwn yn addas i ddibynnu arno gan unrhyw barti sydd eisiau ennill hawliau yn erbyn KPMG at unrhyw ddiben neu mewn unrhyw gyd-destun.

Bydd unrhyw barti sy'n cael gafael ar yr adroddiad hwn neu gopi ohono (o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu fel arall) ac yn dewis dibynnu ar yr adroddiad hwn (neu unrhyw ran ohono) yn gwneud hynny o'i ben a'i bastwn ei hun. Hyd eithaf yr hyn a ganiateir gan y gyfraith, nid yw KPMG yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb ac ni fydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am yr Adroddiad hwn mewn perthynas ag unrhyw barti arall heblaw Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cynnwys

Rhestr Termau

I	Crynodeb Gweithredol	1
1	Cyflwyniad	11
2	Adolygu'r Dystiolaeth	17
3	Adolygu Ystadegau y Budd-dal Tai (HB) a Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB)	23
4	Mesur a Dadansoddi'r Defnydd o HB a CTB	33
5	Trosolwg o'r Cynllun	60
6	Gweithredu'r Cynllun	69
7	Ymgynghori â Rhanddeiliaid	73
8	Adborth gan Hawlwyr Budd-daliadau	91
9	Effaith ac Effeithiolrwydd	105
10	Casgliadau ac Argymhellion	118
	Atodiad 1 - Crynodeb o'r Adolygiad o'r Dystiolaeth	122
	Atodiad 2 - Manylion Ychwanegol ar Ddefnyddio	149
	Atodiad 3 - Dosbarthu Arian	153

Rhestr Termau

ALI	Awdurdod Lleol
ASHE	Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion
BTUO	Swyddog Defnyddio Budd-daliadau
CAB	Canolfan Cyngor ar Bopeth
CTB	Budd-dal y Dreth Gyngor
DCLG	Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
DWP	Adran Gwaith a Phensiynau
DSD	Adran Datblygiad Cymdeithasol
ENR	Pobl â hawl nad ydynt yn dderbynyddion
ESA	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
GVA	Gwerth Ychwanegol Crynswth
HB	Budd-dal Tai
IS	Cymhorthdal Incwm
JSA	Lwfans Ceisio Gwaith
LSOA	Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is
MIGs	Grwpiau Uchafu Cyflogau
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
PC	Credyd Pensiwn
SHBE	Rhan o Fudd-dal Tai Sengl
SSA	Asesiad o Wariant Safonol
VCS	Sector Gwrifoddol a Chymunedol
VFM	Gwerth am Arian

I. Crynodeb Gweithredol

I.1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo £4.5 miliwn i Awdurdodau Lleol (ALLau) ym mhedair o'r pum mlynedd diwethaf i'w helpu i gynyddu'r defnydd o'r Budd-dal Tai (HB) a Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB).

Comisiynwyd KPMG, mewn partneriaeth ag Oxford Economics, i werthuso effeithiolrwydd y Cynllun Defnyddio HB a CTB (y Cynllun). Amcanion y gwerthusiad hwn oedd amcangyfrif yr effaith y mae'r Cynllun wedi'i chael ar gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r budd-daliadau hyd yma, mesur effaith debygol y Cynllun yn y dyfodol a gwerthuso sut y gweithredir y Cynllun.

Ymgwymerwyd â'r dasg mewn pum prif gyfnod:

- Cyfnod A – Cychwyn y Prosiect
- Cyfnod B – Adolygiad bwrdd gwaith o amrywiaeth o lenyddiaeth ar ddefnyddio budd-daliadau, cynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd cysylltiedig ALLau yn ogystal ag ystadegau swyddogol a ryddhawyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- Cyfnod C – Ymchwil dadansoddi eilaidd a wnaed gan Oxford Economics i fesur effaith gymesur y cynllun trwy amcangyfrif faint o fudd-daliadau na fyddai'n cael eu hawlio o bosibl.
- Cyfnod D – Gwaith maes a oedd yn cynnwys ymgynghori â chynrychiolwyr o'r 22 ALI ac o Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol; arolwg o sampl o hawlwy'r budd-daliadau; ac ymgynghori â chynrychiolwyr o sefydliadau partner allweddol a grwpiau buddiant arbennig.
- Cyfnod E – Dadansoddi ac adrodd ar yr holl ganfyddiadau.

I.2. Adolygu'r Dystiolaeth

Mae llawer wedi cael ei gofnodi am yr amrywiaeth eang o rwysrau i ddefnyddio budd-daliadau lle y gwyddys eu bod yn effeithio ar y cyfraddau defnyddio. Mae hefyd yn glir bod y rhwysrau i ddefnyddio budd-daliadau wedi'u cofnodi ers dros ddegawd, sy'n awgrymu eu bod yn broblemau hirdymor ac felly'n broblemau anodd eu goresgyn. Mae'r ymchwil yn dangos hefyd fod grwpiau penodol yn llai tebygol o hawlio; caiff pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl hŷn dros 75 oed, pobl o ardaloedd gwledig, a pherchen-feddianwyr eu gorgynrychioli yn y nifer o bobl â hawl nad ydynt yn dderbynyddion (ENRs). Mae'r llenyddiaeth yn amlygu ffyrdd gwahanol o gynyddu'r defnydd, gan gynnwys targedu pobl ar adegau pwysig yn eu bywydau a defnyddio canolwyr dibynadwy fel meddygon teulu. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth hefyd yn cydnabod bod angen mwy o ymchwil a gwybodaeth, am y nifer nad ydynt yn defnyddio'r budd-daliadau yn ogystal â thystiolaeth o beth sy'n gweithio orau ac i bwy. Yn olaf, mae yna anhawster ychwanegol yn bodoli wrth asesu effaith gweithgareddau defnyddio a gwahaniaethu rhwng effaith y rhain ac effaith digwyddiadau neu weithgareddau eraill.

Golyga hyn fod yna heriau arbennig wrth gynllunio gweithgareddau wedi'u targedu ac wrth fonitro'r effaith, gan na fydd gweithgareddau o'r fath yn gwireddu'r canlyniadau disgwyledig o bosibl a hwyrach na fydd ganddynt sail ddigonol o dystiolaeth greiddiol i'w cyfiawnhau. Rhaid ystyried hyn mewn unrhyw werthusiad o weithgareddau defnyddio budd-dal ALLau hyd yma.

I.3. Adolygu Ystadegau'r HB a'r CTB

Ar sail ystadegau swyddogol yr Adran Gwaith a Phensiynau, rhwng Mai 2005 ac Ebrill 2010, cynyddodd nifer y bobl a oedd yn derbyn HB a CTB yng Nghymru o 18.2% ac 16.8% yn ôl eu trefn. Fodd bynnag, nodir fod y llwyth achosion wedi cynyddu hefyd yn 2007/2008 pan nad oedd unrhyw Gynllun swyddogol ar waith, ond

roedd yna weithgareddau eraill yn cael eu gwneud o 2006/2007 i hyrwyddo'r CTB yng Nghymru.

Wrth gymharu Cymru a Gogledd-ddwyrain Lloegr, mae awgrym bod y ddwy ardal wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl a dderbyniodd HB a CTB. Fodd bynnag, roedd yna fwy o gynnydd yng Nghymru nag yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Gallai hyn awgrymu bod Cynllun Defnyddio Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn effeithiol ac wedi cael effaith gadarnhaol ar gynyddu nifer y bobl a oedd yn hawlio HB a/neu CTB.

I.4. Mesur a dadansoddi'r defnydd o HB a CTB

Mae adroddiad swyddogol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ddefnyddio budd-daliadau'n awgrymu na wnaeth cyfran sylweddol o'r rheiny a oedd â'r hawl i gael HB a CTB eu derbyn yn 2008/09. Yn ogystal â hyn, mae dadansoddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau'n awgrymu ei bod hi'n debygol bod nifer o unigolion/cartrefi yn gymwys i gael HB a CTB ond nad ydynt yn hawlio'r naill na'r llall. O ran llwyth achosion, y CTB sydd â'r nifer fwyaf o ENRs o'r holl fudd-daliadau eraill a gofnodir, tra bod mwy o dderbyniadau heb eu hawlio o'r HB nag unrhyw fudd-dal arall. Mae hyn yn cyfiawnhau canolbwynt y Cynllun hwn, yn arbennig wrth ystyried y rhyng-ddibyniaeth rhwng HB a CTB.

Ni chynhyrchir amcangyfrifon o'r cyfraddau defnyddio HB a CTB o dan lefel Gwledydd Prydain (e.e. i Gymru) oherwydd cyfyngiadau o ran methodoleg ac adnoddau. Fodd bynnag, er mwyn darparu rhyw syniad o nifer posibl yr ENRs, cyfrifodd Oxford Economics amcangyfrifon answyddogol sy'n awgrymu bod nifer yr ENRs HB yng Nghymru yn Ebrill 2010 yn amrywio o 45,000 o unedau budd-dal i 80,000, a allai fod yn gyfwerth â ffigur rhwng £120 miliwn a £210 miliwn o hawliadau HB na chânt eu hawlio y flwyddyn. Mae nifer yr ENRs CTB yng Nghymru yn Ebrill 2010 yn amrywio o 138,000 o unedau budd-dal i 188,000, a allai fod yn gyfwerth â

ffigur rhwng £95 miliwn a £130 miliwn o hawliadau CTB na chânt eu hawlio y flwyddyn. Mae nifer yr ENRs a gwerth yr hawliadau'n awgrymu bod yna resymeg barhaus dros ganolbwyntio ar gynyddu'r cyfraddau defnyddio ar draws HB a CTB.

O ran asesu effaith y Cynllun, mae'n anodd gwneud hynny am sawl rheswm, fel y diffyg gwybodaeth sydd ar gael i werthuso effaith y Cynllun yn iawn heb gynnwys ffactorau eraill, fel y dirwasgiad a'r newidiadau yn rheolau cymhwysedd i hawlio budd-daliadau. Golyga hyn fod cwmphas yr hyn y gellid ei gyflawni gan y dadansoddiad hwn yn gyfyngedig.

Rhwng Awst 2007 ac Ebrill 2010, cynyddodd y niferoedd a dderbyniodd HB a CTB yng Ngwledydd Prydain 17% a 14% yn ôl eu trefn ac, er na ellir cadarnhau hyn, roedd awgrym o effaith y dirwasgiad ar lefel Gwledydd Prydain gan fod y rhan helaeth o'r derbynyddion ychwanegol yn dangos nodweddion pobl a oedd wedi cael eu diswyddo o bosibl (yn hytrach na phobl a oedd eisoes y tu allan i'r farchnad lafur).

Yng Nghymru, cynyddodd nifer y sawl a oedd yn derbyn HB i gyfradd a oedd ychydig yn uwch na chyfartaledd Prydain, tra cynyddodd nifer y sawl a oedd yn derbyn CTB yng Nghymru i gyfradd debyg i gyfartaledd Prydain. Gan ystyried mai Cymru yw un o'r ardaloedd a effeithiwyd fwyaf yn economaidd ym Mhrydain yn ystod y dirwasgiad, efallai na ddylid synnu i'r niferoedd a oedd yn derbyn budd-daliadau gynyddu mwy oherwydd y Cynllun a difrifoldeb cymharol y dirwasgiad. Fodd bynnag, gan fod nifer y rheiny sy'n derbyn HB a CTB ym Mhrydain wedi tueddu i gynyddu fwyaf mewn ALLau lle nad yw'r cyfraddau diweithdra wedi codi rhyw lawer, efallai yr oedd rhai o'r bobl ychwanegol hynny a gollodd eu gwaith yng Nghymru yn ystod y dirwasgiad yn byw mewn ardaloedd a oedd eisoes â lefelau uchel o ddiweithdra a'u bod eisoes yn derbyn HB (er enghraifft, am eu bod ar incwm isel o bosibl).

I.5. Trosolwg o'r Cynllun

Mae adolygiad o gynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd yn awgrymu bod yr arian a roddwyd i bob un o'r 22 ALI hyd yma wedi eu galluogi i gynnal ystod eang o weithgareddau defnyddio budd-daliadau, o gyflogi Swyddogion Defnyddio Budd-daliadau, targedu grwpiau arbennig o bobl, i hysbysebu'n gyffredinol ar draws cyfryngau amrywiol. Mae yna dystiolaeth glir bod ALLau wedi defnyddio dull mwy pwrpasol, wedi'i gynllunio o 2008 ymlaen, ac mae'n debygol bod yr ariannu tair blynedd arfaethedig sydd ar gael wedi eu helpu yn hyn o beth ac yn arbennig, i fuddsoddi mewn adnoddau staff.

Rhoddwyd hyblygrwydd llwyr i'r ALLau gynnal eu gweithgareddau defnyddio fel y gwelent yn dda, gan eu galluogi i ddefnyddio gwybodaeth leol ac i ddarparu gweithgareddau wedi'u teilwra at anghenion lleol. Galluogodd hyn ALLau i roi cynnig ar ddulliau gweithredu gwahanol a rhoddodd rywfaith o wybodaeth iddynt am beth, pam a sut y gweithiodd rhai dulliau gweithredu gwahanol yn well na'i gilydd. Roedd modd i ALLau hefyd weithio mewn partneriaeth/cydweithrediad â sefydliadau rhanddeiliaid eraill, a oedd yn cynnwys rhannu gwybodaeth yn ogystal ag adnoddau.

Mae'r Cynllun wedi caniatáu i ALLau gynnal ymgyrch ragweithiol a pharhaol i gynyddu'r nifer sy'n defnyddio HB a CTB. Mae'r Cynllun wedi rhoi cyfle i ALLau dreialu cyfres o ddulliau gweithredu a methodolegau ac i dargedu grwpiau arbennig er mwyn darganfod pa rai sy'n gweithio'n fwy effeithiol.

I.6. Gweithredu'r Cynllun

Cadarnhaodd ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol fod pob un ohonynt yn fodlon â gweinyddiaeth a gweithrediad cyfredol y Cynllun. Cefnogwyd gweithrediad 2008-2011 gan fentrau ymchwil a gwybodaeth a oedd yn ddatblygiadau cadarnhaol a

ddangosodd fod Llywodraeth y Cynulliad wedi dysgu yn sgil sut y gweithredwyd y Cynllun yn 2006/2007, a'i bod yn ymrwymo i gynorthwyo ALLau.

Fodd bynnag, mae prinder templedi adrodd cyffredin yn her i'r gwaith o fonitro effaith gyffredinol y Cynllun ac awgrymir bod rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i fonitro a chofnodi canlyniadau mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol.

I.7. Ymgynghori â Rhanddeiliaid

Mae ymgynghori â chynrychiolwyr o'r ALLau yn awgrymu bod pob un ohonynt fwy neu lai wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau er mwyn cynyddu'r defnydd o fudd-daliadau. Roedd hi'n amlwg o'r ymgynghoriad ag ALLau fod cyflwyno'r fenter defnyddio budd-daliadau tair blynedd wedi annog ALLau i roi mwy o ystyriaeth i sut y caiff eu grantiau eu defnyddio ac i'r math o weithgareddau sy'n annog y defnydd mwyaf o fudd-daliadau. Roedd dysgu, rhannu a chydweithio'n themâu allweddol yn nifer o weithgareddau'r ALLau. Roedd hi'n amlwg fod nifer wedi dysgu gwersi o'r flwyddyn gyntaf (2006/2007), wedi derbyn gwybodaeth gan ALLau eraill ac wedi gweithio mewn partneriaeth er mwyn defnyddio'u grantiau i gael yr effaith orau bosibl. Gallai sawl ALI nodi canlyniadau pendant yn sgil gweithio mewn partneriaeth, fel creu dull gweithredu ar y cyd â phartneriaid a oedd yn llai cystadleuol ac yn canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid.

Roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi cefnogi gweithrediad Cynllun 2008 gydag ymchwil i'r rhwystrau i ddefnyddio budd-daliadau yn ogystal â chyflwyniadau gan Abertawe a Bro Morgannwg ynghylch eu gweithgareddau defnyddio a'r gwersi a ddysgwyd. Roedd sawl ALI wedi defnyddio'r wybodaeth hon, sy'n dangos bod y ddau weithgaredd cefnogol hyn wedi cael effaith gadarnhaol. Er bod hysbysebu generig wedi parhau'n rhan o weithgareddau'r mwyafrif o ALLau, dechreuodd llawer ohonynt ystyried dulliau gweithredu wedi'u targedu, gan gydnabod cyfyngiadau dulliau gweithredu generig.

Mae gwybodaeth hanesyddol o'r ALLau yn awgrymu bod y rhwystrau wedi parhau a'i bod hi'n her go iawn cyrraedd grwpiau anodd eu cyrraedd. Buddsoddodd llawer mewn Swyddogion Defnyddio Budd-daliadau (BTUOs) i gyrraedd y rhai anoddaf i'w cyrraedd ac i'w cynorthwyo trwy'r broses ymgeisio. Llwyddodd y dull gweithredu hwn i oresgyn nifer o'r rhwystrau adnabyddus, fel stigma, diffyg ymwybyddiaeth o'r budd-dal a/neu gymhwysedd ac anawsterau neu ddiffyg awydd i gwblhau ffurflenni. Amlygodd rhai ALLau yr heriau o adnabod a thargeddu ENRs.

Roedd y rhan helaeth o ALLau yn credu bod eu gweithgareddau defnyddio wedi cael effaith gadarnhaol, er, mewn sawl achos, roedd y gred hon yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol neu gan y cynnydd mewn llwyth achosion. Fodd bynnag, cydnabu llawer yr anawsterau wrth geisio mesur yn fanwl yr effaith hon, gan gydnabod y gallai'r cynnydd mewn llwyth achosion a gwariant fod o ganlyniad i sawl ffactor. Un o'r pwyntiau dysgu allweddol oedd yr angen i fonitro'r canlyniadau yn well.

Cafodd mwy o weithio mewn partneriaeth a gwell darpariaeth o wasanaethau eu nodi fel effeithiau ychwanegol y Cynllun ac mae'n debygol y bydd y rhain yn parhau ymhell ar ôl i'r Cynllun ddod i ben.

Er bod asiantaethau eraill yn ymwneud â defnyddio budd-daliadau, credai ALLau fod y Cynllun wedi'u galluogi i ddefnyddio dull gweithredu rhagweithiol o gynyddu'r defnydd o HB a CTB a chredai bob un y byddai'r Cynllun yn arwain at ostyngiad mawr yng ngweithgareddau defnyddio ALLau.

I.8. Adborth gan Hawlwyr Budd-daliadau

Dangosodd arolwg o dderbynyddion budd-daliadau fod y mwyafrif o bobl yn nodi eu bod wedi gwneud cais am HB a CTB oherwydd newid mewn amgylchiadau ac, mewn bron i 40% o'r achosion, roedd yr ymatebwyr yn ymwybodol o'u hawliau wedi cysylltiad â Swyddog Defnyddio Budd-daliadau (BTUO). Roedd hyn yn arbennig o wir ymhlith y rheiny a oedd dros 64 oed ac ymhlith perchen-feddianwyr. Byddai hyn

yn awgrymu bod BTUOs yn llwyddo i gyrraedd grwpiau allweddol, gan gynnwys y rheiny lle gwyddys mai dim ond ychydig sy'n hawlio.

O'r rheiny a oedd wedi ymgeisio'n llwyddiannus am HB neu CTB, credai'r mwyafrif fod ganddynt fwy o arian, a oedd yn cael ei wario'n gyffredinol ar filiau tanwydd a bywyd bob dydd. Awgryma hyn fod yr incwm ychwanegol yn mynd i'r rheiny sydd ei angen a'i fod yn cael ei wario'n lleol, ac felly'n cyfrannu at yr economi lleol. Byddai hyn yn awgrymu bod yna resymeg glir dros gael y Cynllun a bod yna fuddion anuniongyrchol sylweddol i fusnesau lleol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos hefyd fod yna ddiffyg gwybodaeth ynghylch y broses ymgeisio a bod yna rai pryderon am y broses ymgeisio sy'n rhwystro pobl rhag ymgeisio. Mae hyn yn awgrymu y gallai ALLau wneud mwy i helpu i gynyddu'r wybodaeth am fudd-daliadau. Fodd bynnag, mae'n galonogol nodi nad oedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr, ac yn arbennig y rheiny dros 64 oed, yn credu bod yna stigma'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau.

I.9. Effaith ac Effeithiolrwydd

Mae adolygiad o gynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd, yn ogystal ag ymgynghoriadau â chynrychiolwyr o ALLau a grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn awgrymu bod cyflogi BTUOs – sy'n cysylltu â phobl yn bersonol i'w hannog i hawlio budd-daliadau a'u helpu i gwblhau ffurflenni cais – yn gallu cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol dros ben. Yn ogystal â hyn, gellir gwella'r canlyniadau ymhellach trwy ymgymryd â dull gweithredu wedi'i dargedu, yn aml trwy weithio mewn partneriaeth, fel defnyddio sganiau'r Gwasanaeth Pensiwn. Gellir gwella llwyddiant gweithgareddau eraill fel ymgyrchoedd postio a thaflenni trwy ddefnyddio dull gweithredu wedi'i dargedu, er enghraifft, trwy eu cyfeirio at grwpiau allweddol, ar adegau allweddol, fel amser bilio, neu wrth gyflwyno newidiadau i'r meini prawf cymhwyso.

Nodwyd canlyniadau cadarnhaol iawn gan nifer o ALLau a oedd wedi gwneud gwaith monitro go fanwl ac felly'n gallu mesur effaith y Cynllun. Roedd yr ALLau yn cynnwys Ynys Môn a oedd yn adrodd bod bron i £400,000 o fudd-daliadau ychwanegol yn cael eu dyrannu, gyda Phen-y-bont ar Ogwr yn adrodd bod £700,000 yn fwy o fudd-daliadau yn cael eu dyrannu a Chaerdydd yn adrodd bod £2.7 miliwn yn fwy o fudd-daliadau yn cael eu dyrannu (ar sail amcanestyniadau 18 mis). Adroddodd ALLau eraill ar eu llwyddiannau yn targedu grwpiau penodol fel pensiynwyr hŷn, derbynyddion mewn gwaith a derbynyddion heb basbort sydd heb unrhyw gysylltiadau i fudd-daliadau.

Byddai hyn yn awgrymu y dylai ALLau, mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol, ystyried buddsoddi mewn adnoddau staff penodol sy'n gallu gweithio gyda phartneriaid allweddol fel y Gwasanaeth Pensiwn i ganfod derbynyddion posibl a goresgyn rhai o'r rhwystrau adnabyddus trwy gynnig gwasanaeth personol a chymorth gyda'r holl waith papur. Yn ogystal â hyn, mae cyhoeddusrwydd a hysbysebu'n debygol o fod yn fwy effeithiol os ydynt yn targedu cynulleidfaoedd arbennig. Er y gall hysbysebu cyffredinol godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol, efallai yr hoffai ALLau ymatal rhag cynnal ymgyrchoedd drud iawn, fel hysbysebu ar y radio, mewn sinemâu ac ar fysiau.

I.10. Casgliadau ac Argymhellion

Rydym wedi dod i'r casgliadau canlynol ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac argymhellir y dylai unrhyw gynllun defnyddio budd-daliadau yn y dyfodol ganolbwyntio ar weithgareddau a grwpiau cleient ac y dylai fod yn seiliedig ar fonitro cadarn.

<i>Pam targedu</i>	• Mae nifer sylweddol o ENRs yn parhau • Mae gwerth posibl yr hawliadau cysylltiedig yn werth chweil • Mae'r mwyafrif o dderbynyddion yn gwario'u harian yn lleol ac felly'n cyfrannu at yr economi leol.
<i>Pa weithgareddau y dylid canolbwyntio arnynt</i>	• Cyflogi BTUOs penodedig • Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill • Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd wedi'u targedu/sy'n canolbwyntio ar grwpiau allweddol neu ar adegau allweddol • Ymweliadau cartref, yn arbennig i bobl hŷn, ac yn aml trwy ganolwyr dibynadwy • Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar grwpiau allweddol.
<i>Pwy i dargedu</i>	• Pobl hŷn (yn aml, y rheiny dros 75 oed) • Pobl hŷn o leiafrifoedd ethnig • Pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy cefnog, pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig • Poblogaeth heb basbort, fel perchen-feddianwyr.
<i>Sut i'w reoli</i>	• Monitro a chofnodi canlyniadau defnyddio budd-daliadau'n gyson.

1 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Yn 2006/2007, ymrwymodd Llywodraeth y Cynulliad £1.5 miliwn i ALLau i'w helpu i gynyddu'r defnydd o CTB, gan ganolbwyntio ar bobl hŷn. Wedi hyn, neilltuwyd £1 miliwn arall y flwyddyn ar eu cyfer ar gyfer y tair blynedd ariannol 2008/2009, 2009/2010 a 2010/2011. Yn ogystal â hyn, ehangwyd Cynllun 2008/2011 i gynnwys HB ac ehangwyd y cwmpas i gynnwys teuluoedd a phlant, yn ogystal â phobl hŷn.

Comisiynwyd KPMG, mewn partneriaeth ag Oxford Economics, i werthuso effeithiolrwydd y Cynllun. Nod y gwerthusiad hwn oedd:

- Amcangyfrif yr effaith y mae'r Cynllun wedi'i chael hyd yma ar annog mwy o bobl i ddefnyddio budd-daliadau.
- Mesur effaith debygol y Cynllun yn y dyfodol, o ran defnyddio mwy o fudd-daliadau a'r buddion cysylltiedig i ALLau a'u cwsmeriaid.
- Gwerthuso sut y gweithredir y Cynllun, o ran a yw'n cael ei weithredu'n effeithiol a'r costau i Lywodraeth y Cynulliad a'r ALLau o wneud hynny yn erbyn y cynnydd yn y defnydd o fudd-daliadau sydd wedi digwydd.

1.2 Yr angen am Werthusiad

Mae nifer o ffactorau wedi arwain at yr angen am werthusiad, gan gynnwys:

- Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod annog defnyddio budd-daliadau, fel ffordd o uchafu cyflog, yn hanfodol wrth weithio tuag at amcan tlodi plant 2020 a chyflawni'r amcanion yn 'Cymru'n Un' sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, anghydraddoldeb a chynhwysiant ariannol.

- Mae'r lefel ddiweithdra wedi codi'n aruthrol ers dechrau'r dirwasgiad yn 2008, gyda'r diwydiant gweithgynhyrchu wedi dioddef waethaf, ynghyd â'r bobl sy'n byw yng nghymunedau cymoedd y De-ddwyrain a dynion ifanc yn arbennig. Mae goblygiadau'r dirywiad economaidd hwn yn amlygu pwysigrwydd polisiau sy'n ceisio uchafu incwm unigolion a chartrefi. Mae'r dirwasgiad wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar y system les ledled Cymru, felly mae'n bwysig bod cynlluniau o'r fath yn gweithio'n effeithiol, a rhaid sicrhau bod y Cynllun yn darparu Gwerth am Arian (VFM).
- Mae'r lefelau diweithdra'n debygol o aros yn gymharol uchel am y dyfodol agos. Mae angen mesur effaith debygol y cynllun yn y dyfodol, o ran defnyddio budd-daliadau ac o ran y buddion cysylltiedig nad ydynt yn rhai ariannol, er mwyn sicrhau bod y Cynllun cyfredol yn cael ei redeg mor effeithiol â phosibl ac i ganiatáu bod unrhyw Gynllun yn y dyfodol yn cael ei gynllunio'n effeithiol.
- Ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i nodi unrhyw welliannau i gynlluniau a ariennir gan y llywodraeth, sicrhau'r effaith orau bosibl i bobl ar incwm isel a'r rhai mwyaf anghenus a VFM y gweithdrefnau gweinyddol.
- Ymrwymiad ehangach gan y llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi a diweithdra, cynyddu cynhwysiant cymdeithasol ac ariannol a datblygu a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion cwsmeriaid.

1.3 Cylch Gorchwyl

Dyma'r pwyntiau cyflenwi penodol yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer Gwerthuso Cynllun Defnyddio'r CTB a'r HB:

O ran effaith y Cynllun:

- Dadansoddi tueddiadau defnyddio budd-daliadau cyn ac ers gweithredu'r Cynllun (gan gynnwys cynllun 2006/2007), gan geisio penderfynu:
 - a. a welwyd unrhyw newidiadau sylweddol wedi iddo ddechrau; a
 - b. sut mae maint y newidiadau hyn yn cymharu â'r rhai blaenorol.
- Cymharu'r tueddiadau a welwyd yng Nghymru gydag ardal gymharu briodol er mwyn penderfynu sut mae'r tueddiadau yng Nghymru'n cymharu ag ardaloedd eraill lle na weithredwyd cynlluniau grant tebyg.
- Amcangyfrif, gan ddefnyddio ffynonellau data is-genedlaethol priodol, potensial y budd-daliadau nas defnyddiwyd, fel ffordd o ganfod effaith cymesuredd y cynllun o fewn pob un o ardaloedd yr ALLau.
- Dadansoddi i ryw raddau, trwy amrywiaeth o senarios, oblygiadau economaidd posibl y tuedd diweddar mewn defnyddio, gan ganolbwyntio'n bennaf ar sut y gallai unrhyw 'incwm newydd' posibl gael ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd gwahanol a gan fathau gwahanol o bobl.
- Sefydlu i ba raddau y mae'r Cynllun yn cael dylanwad sylweddol ar benderfyniadau pobl i ddefnyddio (neu i beidio â defnyddio) budd-daliadau.
- Darparu rhyw fath o gofnod o sut mae'r Cynllun yn effeithio ar wahanol grwpiau cymdeithasol a mathau o bobl.
- Dadansoddi i ryw raddau effaith y dirywiad economaidd ar gyfraddau defnyddio budd-daliadau a gwneud sylwadau ar y graddau y mae dylanwad y Cynllun i'w weld uwchlaw 'cynnwrf' y dirwasgiad.
- Adnabod ac archwilio effeithiau cysylltiedig y Cynllun ar ALLau a'u cwsmeriaid, ar wahân i gynyddu'r defnydd (er enghraifft, gweithio'n well gyda phartneriaid, amrywiaeth well o wasanaethau, neu wella cysylltiadau â grwpiau lleiafrifol penodol).
- Gan ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn y dadansoddiad uchod ac o ffynonellau eraill (fel yr Adroddiad ar y Rhwystrau i Ddefnyddio), cynnig rhai argymhellion ar sut i wella'r defnydd yn ardaloedd yr ALLau.

O ran gweithredu'r Cynllun:

- Trefnu amcangyfrif o gostau gweinyddu/gweithredu'r Cynllun i Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Pwyso a mesur hyn yn erbyn y cynnydd yn y defnydd o fudd-daliadau a ddaeth yn sgil y Cynllun.
- Casglu gwybodaeth fanwl am sut y gweithredir y Cynllun a, thrwy'r wybodaeth hon, nodi pa elfennau o'r prosesau y gellid eu gwella a sut byddai hyn yn cyfrannu at y nod o gynyddu'r defnydd ymhellach.

1.4 Methodoleg

Ymgwymerwyd â'r gwaith mewn pum prif gyfnod:

- Cyfnod A – Cychwyn y Prosiect
Diben Cyfnod A oedd rhoi'r prosiect ar waith. Cyfarfu KPMG â Llywodraeth y Cynulliad ar ddechrau'r aseiniad i drafod y cwmpas a'r materion allweddol a oedd yn gysylltiedig â'r gwerthusiad.
- Cyfnod B – Adolygiad Bwrdd Gwaith
Gwnaeth KPMG adolygiad bwrdd gwaith o'r dogfennau allweddol a oedd yn ymwneud â'r Cynllun. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad lefel uchel o'r holl gynlluniau gweithredu gan ALLau oedd ar gael ac adroddiadau cynnydd cysylltiedig ar gostau ac effeithiau'r holl weithgareddau.

Dadansoddodd KPMG hefyd y defnydd o fudd-daliadau cyn ac ers gweithredu'r Cynllun, gan ddefnyddio ystadegau swyddogol a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn ogystal â hyn, defnyddiodd KPMG Ogledd-ddwyrain Lloegr i gymharu'r tueddiadau defnyddio budd-daliadau â Chymru.

- Cyfnod C – Dadansoddiad Eilaidd

Gwnaeth Oxford Economics waith ymchwil i fesur effaith gymesurol y cynllun o fewn pob ALI trwy amcangyfrif faint o fudd-daliadau na fyddai'n cael eu hawlio o bosibl.

Archwiliodd Oxford Economics amcangyfrifon swyddogol Gwledydd Prydain o ran cyfraddau defnyddio HB a CTB a, gan nad oes unrhyw amcangyfrifon o gyfraddau defnyddio HB a CTB islaw lefel Gwledydd Prydain, edrychodd ar amcangyfrif nifer y bobl yng Nghymru nad oeddynt yn eu derbyn ond a oedd â hawl iddynt er mwyn sicrhau nad oedd lefel y rheiny nad oedd yn eu derbyn yn parhau 'heb eu hamcangyfrif'.

- Cyfnod D – Gwaith Maes

Ymgynghorodd KPMG â'r 22 ALI a oedd yn ymwneud â rheoli a gweithredu'r Cynllun, trwy gyfuniad o gyfweiliadau un-i-un ac ymgynghoriadau dros y ffôn. Cynhaliwyd ymgynghoriadau hefyd gyda chynrychiolwyr o Adran Gyllid Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn penderfynu sut y dylid gweithredu'r Cynllun yn gyffredinol.

Ymgynghorodd KPMG â sampl o hawlwyd budd-daliadau ar draws 11 ALI hefyd trwy arolwg post er mwyn gweld beth ysgogodd nhw i wneud cais am HB a/neu CTB, effeithiau'r budd-daliadau a dderbyniwyd a'u barn gyffredinol ar hawlio'r budd-daliadau HB a/neu CTB.

Yn olaf, ymgynghorwyd â chynrychiolwyr o sefydliadau partner allweddol a grwpiau buddiant penodol gan gynnwys Age Concern, Cyngor ar Bopeth a'r Gwasanaeth Pensiwn.

- Cyfnod E – Dadansoddi ac Adrodd

Mae holl ganfyddiadau'r ymchwil uchod wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

O ran y canfyddiadau a geir yn yr adroddiad hwn, dylid ystyried y canlynol:

- Efallai na fydd y canrannau'n dod i gyfanswm o 100 o ganlyniad i dalgrynnu.
- Fel arfer, nodir cyfrannau llai na 0.5% fel 0%.
- Bydd y cyfrannau'n dod i fwy na 100 mewn cwestiynau gyda sawl ateb.
- Dylid pwysleisio mai sylwadau a safbwyntiau goddrychol ymgynghorwyr yw canfyddiadau'r ymgynghoriad ac ni all KPMG wirio eu cywirdeb ffeithiol.

1.5 Trefn yr Adroddiad

Adran	Cynnwys
Adran 2	Adolygu'r Dystiolaeth
Adran 3	Adolygu'r Ystadegau Defnyddio Budd-daliadau HB a CTB
Adran 4	Mesur a Dadansoddi'r defnydd o HB a CTB
Adran 5	Trosolwg o'r Cynllun
Adran 6	Gweithredu'r Cynllun
Adran 7	Ymgynghori â Rhanddeiliaid
Adran 8	Adborth gan Hawlwyr Budd-daliadau
Adran 9	Effaith ac Effeithiolrwydd
Adran 10	Casgliadau ac Argymhellion

1.6 Cydnabyddiaethau

Hoffai KPMG ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r adroddiad gwerthuso hwn, yn arbennig cynrychiolwyr o'r ALLau, staff Cyllid Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru a budd-randdeiliaid eraill, yn ogystal â phawb sy'n derbyn budd-daliadau a ymatebodd i'n harolwg.

2 Adolygu'r Dystiolaeth

2.1 Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ers peth amser fod annog pobl i ddefnyddio budd-daliadau nawdd cymdeithasol, fel modd o uchafu incwm, yn hanfodol er mwyn gweithio tuag at amcan tlodi plant 2020 a chyflawni amcanion “Cymru’n Un” sy’n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, anghydraddoldeb a chynhwysiant ariannol. Hyd yma, mae wedi ymrwymo £4.5 miliwn i ALLau i’w helpu i gynyddu’r niferoedd sy’n defnyddio CTB ac, yn fwy diweddar, yr HB.

Fodd bynnag, cydnabyddir bod defnyddio budd-daliadau’n fater cymhleth ac amlochrog a cheir consensws eang bod yna nifer o rwystrau cyffredin i ddefnyddio budd-daliadau sy’n effeithio ar y cyfraddau defnyddio ac ar lwyddiant neu fethiant ymgyrchoedd defnyddio cysylltiedig. Gwelir hyn yng nghanfyddiadau ystod eang o lenyddiaeth sy’n ymwneud â defnyddio budd-daliadau yng Ngwledydd Prydain a Gogledd Iwerddon. Mae llawer o’r llenyddiaeth hon yn ymwneud â gwaith ymchwil i bobl hŷn a phensiynwyr a Chymhorthdal Incwm (IS) a Chredydau Pensiwn (PC), ond mae’r prif ganfyddiadau’n berthnasol i grwpiau eraill fel teuluoedd a phlant a gellir eu cymhwyso i fudd-daliadau eraill sy’n dibynnu ar bawf modd, fel y CTB a’r HB. Mae ymdrechion y llywodraeth i gynyddu’r defnydd wedi bod dan y chwyddwydr hefyd; gan amlygu pwysigrwydd defnyddio budd-daliadau wrth fynd i’r afael â thlodi a chyfrannu at gynhwysiant a lles cymdeithasol.

2.2 Rhwystrau

Mae adolygiad o’r ymchwil i’r rhwystrau sy’n atal pobl rhag defnyddio budd-daliadau’n nodi bod y prif rwystrau’n cynnwys barn agweddol y darpar hawlwyd i’w cymhwysedd, stigma ac ofni cael eu gwrthod neu wneud camgymeriadau, a rhwystrau gweinyddol neu o ran systemau, fel llenwi ffurflenni cymhleth neu ddiffyg gwybodaeth a manylion.

Mae llawer o'r ymchwil hefyd wedi nodi neu wneud argymhellion ar sut i oresgyn rhwystrau a, gan hynny, i gynyddu'r defnydd, ac mae ymgynghori â derbynyddion budd-daliadau wedi nodi sbardunau penodol i hawlio ac enghreifftiau o welliannau a fyddai'n annog mwy o bobl i hawlio'r hyn sydd ganddynt yr hawl i'w dderbyn. Gweler crynodeb o'r adroddiadau a adolygwyd yn Atodiad 1.

2.3 Rhesymau dros beidio â hawlio

Mae'r llenyddiaeth yn amlygu amrywiaeth eang o resymau pam nad yw pobl cymwys nad ydynt yn derbyn yn hawlio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diffyg ymwybyddiaeth neu wybodaeth am y budd-daliadau penodol sydd ar gael.
- Diffyg ymwybyddiaeth o'r cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau penodol.
- Camddealltwriaeth ynghylch sut mae budd-daliadau'n gweithio a chymhlethdod y system.
- Stigma a chysylltiadau negyddol hawlio budd-daliadau, yn arbennig budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.
- Pryderon ynglŷn â chanlyniad hawliadau, ofni cael eu gwrthod neu sut y gallai'r canlyniad effeithio ar fudd-daliadau eraill neu ofn gwneud camgymeriad ac unrhyw effeithiau dilynol.
- Anawsterau wrth gwblhau ffurflenni swyddogol, gan gynnwys cael anhawster deall cyfarwyddiadau a nodiadau esboniadol.
- Dim awydd i gwblhau ffurflenni/ymdrin â phrosesau biwrocraidd.
- Amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth bersonol ac awydd i ddiogelu preifatrwydd.
- Yr her o fedru cyrraedd swyddfeydd budd-daliadau a'r amserau aros cysylltiedig.
- Cred nad yw'r swm a dderbynnir yn werth yr ymdrech sydd ei hangen i ymgeisio.
- Cred rhai bod ganddynt ddigon o incwm i fyw arno.

2.4 Mathau o bobl nad ydynt yn hawlio

Mae adroddiadau amrywiol wedi amlygu bod y mathau canlynol o bobl yn llai tebygol o hawlio budd-daliadau penodol sy'n dibynnu ar brawf modd:

- Pobl hŷn (yn aml, y rhai dros 75 oed)
- Pobl hŷn o leiafrifoedd ethnig
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy cefnog
- Pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig
- Caiff perchen-feddianwyr eu gorgynrychioli'n sylweddol yn nifer y bobl â hawl nad ydynt yn derbyn (ENRs) y CTB.

Byddai hyn yn awgrymu y byddai targedu'r categorïau hyn o bobl yn cael mwy o effaith ar gynyddu'r defnydd.

2.5 Cynyddu'r Defnydd

Mae'r llenyddiaeth a adolygwyd wedi amlygu amrywiaeth eang o ffyrdd i gynyddu defnydd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r llenyddiaeth yn amlygu y gallai dull rhagweithiol o weithredu fod yn fwy llwyddiannus na chyhoeddusrwydd cyffredinol. Amlygwyd ymweliadau cartref fel modd o gynyddu'r defnydd, yn arbennig ymhlith pobl hŷn.
- Un thema allweddol yw'r syniad o gysylltiad personol, yn aml gyda chanolwr dibynadwy a allai fod yn ffrind neu'n gyswilt proffesiynol. Byddai hyn yn awgrymu y dylai sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgareddau defnyddio budd-daliadau fynd ati'n rhagweithiol.
- Yn aml, gall newidiadau yn amgylchiadau personol fod yn sbardun i annog pobl i holi ynghylch cymhwysedd, a fyddai'n awgrymu y dylid targedu pobl ar adegau arbennig o'u bywydau fel genedigaeth neu farwolaeth, cyrraedd oed pensiwn neu golli gwaith.

- Nid yw llawer o bobl yn ymwybodol o'u cymhwysedd a rhaid codi ymwybyddiaeth.
- Gall biliau cartref uchel fod yn sbardun, yn arbennig os oes rhywun yn cael anhawster i ymdopi ar ei incwm cyfredol.
- Roedd y thema gweithio mewn partneriaeth yn gyffredin a chydabuwyd, er y gallai'r llywodraeth wneud mwy i annog defnyddio, ni allai oresgyn pob rhwystr ar ei phen ei hun. Roedd gweithio mewn partneriaeth yn amrywio o bartneriaethau anffurfiol gydag adrannau o'r llywodraeth ac ALLau, er enghraifft, i bartneriaethau ffurfiol â'r sectorau gwirfoddol a chymunedol (VCS), a gweithio gyda chanolwyr dibynadwy fel meddygon teulu. Roedd peth o'r dystiolaeth yn awgrymu bod partneriaethau sefydledig hirdymor yn fwy effeithiol na phartneriaethau newydd mewn mentrau a ariennir.
- Cydnabuwyd y gellid gwella'r gwaith o dargedu ar lefel leol trwy gyfuno'r ffynonellau data a rhannu data (lle y caniateir hyn yn gyfreithlon).

2.6 Gwerthuso

Roedd pwysigrwydd gwerthuso'n thema gref ar draws yr adroddiadau amrywiol a thema gysylltiedig oedd yr angen am benderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ba ddulliau gweithredu i'w mabwysiadu. Cydnabyddir y gall gweithgareddau defnyddio budd-daliadau fod yn gymharol rhad ac, er y gallant gael effaith sylweddol, yn aml mae diffyg dystiolaeth gadarn yn aml o'u heffeithiolrwydd cyffredinol. Golyga hyn ei bod hi'n anoddach i sefydliadau bennu lle a sut i ganolbwyntio eu hymdrechion. Cydnabuwyd fod angen gwneud mwy o ymchwil ar beth sy'n gweithio, i bwy ac o dan ba amgylchiadau.

Yn ogystal â hyn, cydnabuwyd fod yna heriau wrth geisio asesu effaith gweithgareddau penodol a gwahaniaethu rhwng canlyniadau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hynny'n unig a chanlyniadau a allai fod wedi dod yn sgil cysylltiadau eraill. Fodd bynnag, nid yw hyn yn negyddu'r angen i asesu effeithiolrwydd gweithgareddau defnyddio.

O ran adolygu effeithiolrwydd, cydnabuwyd nad oes digon o wybodaeth ar hyn o bryd am y rhai nad ydynt yn defnyddio budd-daliadau, sy'n golygu ei bod hi'n anodd i sefydliadau bennu'r lle gorau i ganolbwyntio eu hadnoddau. Mae hyn yn effeithio hefyd ar y gwaith o osod targedau realistig ond uchelgeisiol ar gyfer mentrau defnyddio budd-daliadau.

2.7 Crynodeb a Chasgliadau

Mae'r amrywiaeth eang o rwystrau i ddefnyddio budd-daliadau sy'n effeithio ar y cyfraddau defnyddio wedi eu cofnodi'n helaeth. Mae'r rhwystrau'n cynnwys diffyg gwybodaeth am y budd-daliadau sydd ar gael neu'r cymhwysedd i'w derbyn, y stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau sy'n dibynnu ar bawf modd, amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth bersonol, anawsterau wrth gwblhau ffurflenni swyddogol, a phryderon ynglŷn â chanlyniad hawliadau.

Mae'n amlwg hefyd fod y rhwystrau i ddefnyddio budd-daliadau wedi cael eu cofnodi ers dros ddegawd, sy'n dangos eu bod yn broblemau hirdymor ac felly, yn awgrymu eu bod yn rhai sy'n anodd eu goresgyn. Mae'r ymchwil yn dangos hefyd fod grwpiau penodol yn llai tebygol o hawlio, gan gynnwys pobl o leiafrifoedd ethnig, pobl hŷn dros 75 oed, pobl o ardaloedd gwledig, a pherchen-feddianwyr a bod llawer mwy o'r rhain yn ENRs.

Mae'r llenyddiaeth yn amlygu ffyrdd gwahanol o gynyddu'r defnydd, gan gynnwys targedu pobl ar adegau penodol o'u bywydau a defnyddio canolwyr dibynadwy fel meddygon teulu. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth yn cydnabod hefyd fod angen mwy o ymchwil a gwybodaeth, ar y nifer nad ydynt yn derbyn budd-daliadau ac ar beth sy'n gweithio orau ac i bwy. Yn olaf, mae yna anhawster arall yn bodoli wrth asesu effaith gweithgareddau defnyddio a cheisio gwahaniaethu rhwng effeithiau'r rhain a digwyddiadau neu weithgareddau eraill.

Golyga hyn fod yna heriau arbennig wrth lunio gweithgareddau wedi'u targedu ac wrth fonitro effaith, ac efallai nad yw gweithgareddau o'r fath yn arwain at y canlyniadau a ddisgwylir ac nad oes ganddynt y sylfaen dystiolaeth i'w cyfiawnhau. Rhaid ystyried hyn wrth adolygu unrhyw weithgareddau i annog defnyddio budd-daliadau gan ALI hyd yma.

3 Adolygu Ystadegau y Budd-dal Tai (HB) a Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB)

3.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn archwilio'r ystadegau ar nifer y bobl sy'n derbyn HB a CTB (h.y. y llwyth achosion) yng Nghymru. Mae hefyd yn edrych ar sut mae tueddiadau yng Nghymru'n cymharu â Gogledd-ddwyrain Lloegr.

3.2 Ystadegau ar y Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor

Edrychodd KPMG ar yr Ystadegau Gwladol a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau¹ er mwyn dadansoddi'r tueddiadau diweddar mewn llwyth achosion yng Nghymru a mannau eraill. Yn arbennig, ceisiodd KPMG gymharu'r llwyth achosion budd-daliadau² cyn ac ers gweithredu'r Cynllun (gan gynnwys Cynllun 2006/2007), er mwyn sefydlu a oedd yna unrhyw gynnydd sylweddol ar ôl i'r Cynllun ddechrau.

¹ Rhaid tynnu sylw at y ffaith fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi ystadegau chwarterol ar dderbynyddion HB a CTB i bob ALI tan Awst 2007. Roedd yr ystadegau hyn yn seiliedig ar adroddiadau clerigol a wnaed gan ALLau unigol ar gyfanswm y bobl a oedd yn hawlio HB a CTB ar gyfnod arbennig. Fodd bynnag, ers Awst 2009, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi darparu gwybodaeth fisol yn seiliedig ar ffynhonnell ddata'r Rhan o Fudd-dal Tai Sengl (SHBE)¹ (sef sgan electronig misol o ddata ar lefel y derbynyddion a ddaw'n syth o systemau cyfrifiadurol yr ALLau). Roedd y newid hwn yn sut cesglir y data yn golygu proses datblygu hirfaith ac mae wedi arwain at fylchau mewn data ar gyfer 2007, 2008 a 2009. Mae hyn yn rhoi rhai cyfyngiadau ar ddadansoddi data, yn arbennig wrth edrych ar lwyth achosion a newidiadau mewn gwariant dros gyfnod Cynllun 2008/2009 a 2009/2010.

² Nid yw ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar dderbynyddion CTB yn cynnwys achosion Ad-daliadau Ail Oedolyn.

3.3 Ystadegau'r Budd-dal Tai

3.3.1 *Llwyth achosion*

Rhwng Mai 2005 ac Ebrill 2010³, cynyddodd nifer y sawl a oedd yn derbyn HB yng Nghymru 18.2% (n=36,360 o dderbynyddion). Roedd y ffigur hwn yn amrywio'n fawr, o 7.0% ym Merthyr Tudful (lle awgrymir bod nifer uchel wedi bod yn defnyddio budd-daliadau'n gyson, ac felly, lle na fyddai disgwyl cynnydd sylweddol) i 29.8% yn Sir Ddinbych.

Er na chafodd HB ei gynnwys yng Nghynllun 2006/2007, mae'n werth nodi'r newidiadau yn y llwyth achosion dros y cyfnod hwn gan ei bod hi'n rhesymol tybio y gallai gweithgareddau defnyddio CTB fod wedi effeithio i raddau ar y defnydd o HB.

Mae'n ddiddorol nodi bod nifer y sawl a oedd yn derbyn HB rhwng Mai 2006 a Mai 2007 wedi gostwng rhyw fymryn (502 o dderbynyddion, gostyngiad o 0.2%) er gwaethaf Cynllun Defnyddio CTB 2006/2007 a gwelwyd cynnydd bychan yn y llwyth gwaith yn y flwyddyn flaenorol.

Yn fwy pwysig, efallai, yw'r ffaith bod nifer y sawl a oedd yn derbyn HB yng Nghymru wedi cynyddu 17.6% (35,280) rhwng Awst 2007⁴ ac Ebrill 2010.

Mae Tabl 1 yn dangos nifer y derbynyddion ar gyfnodau allweddol cyn ac ar ôl gweithredu'r Cynllun a chanran y newid yn gyffredinol ac mae Siart 1 yn dangos y duedd gynyddol dros y cyfnod hwn.

³ Y data diweddaraf sydd ar gael.


⁴ Dechreuodd Cynllun 2008/2009 a 2009/2010 ar ôl Ebrill 2008. Fodd bynnag, gan ystyried y bylchau mewn data o ganlyniad i'r newidiadau yn y ffordd mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu data, y cymharydd gorau i'w ddefnyddio yw'r data o Awst 2007.

Tabl 1: Derbynyddion HB yng Nghymru yn ôl ALI

Awdurdod Lleol	Mai-05	Mai-06	Mai-07	Awst-07	Awst-09	Eb-10	% Gwahaniaeth Mai-05-Eb-10
Ynys Môn	4,300	4,245	4,000	4,100	4,600	4,820	12.1%
Blaenau Gwent	6,900	6,897	6,800	6,800	7,330	7,710	11.7%
Pen-y-bont ar Ogwr	8,500	8,532	8,700	8,700	10,120	10,690	25.8%
Caerffili	13,100	12,897	12,800	12,800	14,430	14,860	13.4%
Caerdydd	23,000	23,403	23,700	23,500	27,420	28,840	25.4%
Sir Gaerfyrddin	10,715	10,901	10,900	10,800	12,270	13,020	21.5%
Ceredigion	3,600	3,621	3,600	3,600	4,020	4,160	15.6%
Conwy	6,600	6,804	6,900	6,900	7,940	8,370	26.8%
Sir Ddinbych	5,700	5,806	6,000	6,000	7,020	7,400	29.8%
Sir y Fflint	7,500	7,665	7,400	7,700	8,800	9,190	22.5%
Gwynedd	6,950	6,947	7,000	6,900	7,490	7,800	12.2%
Merthyr Tudful	5,300	5,309	5,200	5,300	5,490	5,670	7.0%
Sir Fynwy	3,800	3,957	4,000	4,000	4,560	4,790	26.1%
Castell-nedd Port Talbot	11,150	11,262	11,400	11,400	12,690	12,910	15.8%
Casnewydd	10,800	10,822	10,900	10,900	12,100	12,810	18.6%
Sir Benfro	7,490	7,298	7,100	7,100	7,810	8,270	10.4%
Powys	6,400	6,420	6,400	6,300	7,030	7,420	15.9%
Rhondda Cynon Taf	16,900	17,211	16,400	16,600	18,360	19,260	14.0%
Abertawe	18,000	17,889	17,900	17,800	19,930	20,620	14.6%
Bro Morgannwg	6,600	6,629	6,800	6,700	7,820	8,120	23.0%
Torfaen	7,415	7,377	7,400	7,400	8,150	8,500	14.6%
Wrecsam	8,700	9,010	9,100	9,200	10,110	10,550	21.3%
Cyfanswm	199,420	200,902	200,400	200,500	225,490	235,780	18.2%

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Siart 1: Derbynyddion HB yng Nghymru yn ôl ALI



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

3.4 Ystadegau Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB)

3.4.1 Llwyth achosion

Rhwng Mai 2005 ac Ebrill 2010, cynyddodd nifer y sawl a oedd yn derbyn CTB yng Nghymru 16.8% (46,180 o dderbynyddion). Roedd y ffigur hwn yn amrywio o 8.5% yn Sir Benfro i 27.9% yn Sir Fynwy.

Yn yr un modd â'r HB, ychydig iawn o newid a welwyd yn nifer y sawl a oedd yn derbyn CTB rhwng Mai 2006 a Mai 2007, er gwaethaf Cynllun Defnyddio CTB 2006/2007.

Fodd bynnag, rhwng Awst 2007 ac Ebrill 2010 (pan oedd Cynllun 2008/2009 a 2009/2010 ar waith) cynyddodd nifer y sawl a oedd yn derbyn CTB 13.8% (38,880) yng Nghymru. Roedd y cynnydd hwn yn amrywio o 7.1% ym Merthyr Tudful i 18.7% ym Mro Morgannwg.


Mae Tabl 2 yn dangos nifer y sawl a oedd yn derbyn CTB ar gyfnodau allweddol cyn ac ar ôl i'r Cynllun gael ei weithredu a chanran y newid yn gyffredinol ac mae Siart 2 yn dangos y duedd gynyddol dros y cyfnod hwn.

Tabl 2: Derbynyddion CTB yng Nghymru yn ôl ALI

Awdurdod Lleol	Mai-05	Mai-06	Mai-07	Awst-07	Awst-09	Eb-10	% Gwahaniaeth Mai-05-Eb-10
Ynys Môn	6,100	6,200	5,900	6,100	6,660	6,850	12.3%
Blaenau Gwent	9,300	9,400	9,300	9,400	10,000	10,500	12.9%
Pen-y-bont ar Ogwr	12,500	12,700	12,900	12,900	14,490	15,180	21.4%
Caerffili	18,400	18,300	18,400	18,400	20,390	20,870	13.4%
Caerdydd	28,600	29,300	29,500	29,400	33,040	34,490	20.6%
Sir Gaerfyrddin	15,900	16,200	16,600	16,500	17,960	18,920	19.0%
Ceredigion	5,200	5,400	5,400	5,400	5,790	5,910	13.7%
Conwy	9,500	9,900	10,100	10,100	11,270	11,800	24.2%
Sir Ddinbych	8,500	8,800	9,000	9,100	10,120	10,570	24.4%
Sir y Fflint	10,900	11,200	11,300	11,300	12,400	12,750	17.0%
Gwynedd	10,100	10,400	10,300	10,300	10,660	11,260	11.5%
Merthyr Tudful	7,200	7,500	7,500	7,500	7,580	8,030	11.5%
Sir Fynwy	5,200	5,600	5,700	5,700	6,420	6,650	27.9%
Castell-nedd Port Talbot	16,400	17,100	17,200	17,200	18,610	19,000	15.9%
Casnewydd	13,200	13,400	13,500	13,500	14,570	15,440	17.0%
Sir Benfro	10,400	10,500	10,200	10,000	10,960	11,280	8.5%
Powys	8,600	8,900	8,900	8,900	9,730	10,140	17.9%
Rhondda Cynon Taf	26,200	27,500	25,900	26,100	28,020	29,190	11.4%
Abertawe	23,200	23,500	23,800	23,700	26,130	26,950	16.2%
Bro Morgannwg	8,600	9,100	9,300	9,100	10,290	10,800	25.6%
Tor-faen	9,700	9,800	9,700	9,700	10,480	10,990	13.3%
Wrecsam	11,100	11,600	11,700	11,800	12,670	13,410	20.8%
Cyfanswm	274,800	282,300	282,100	282,100	308,240	320,980	16.8%

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Siart 2: Derbynyddion CTB yng Nghymru yn ôl ALI



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

3.5 Cymharu â'r Gogledd-ddwyrain


Er mwyn gweld sut yr oedd y tueddiadau yng Nghymru'n cymharu ag ardaloedd eraill lle na fu cynlluniau grant tebyg ar waith, cymharwyd Cymru â Gogledd-ddwyrain Lloegr⁵. Dewiswyd Gogledd-ddwyrain Lloegr am mai'r ardal hon yw'r un debycaf i Gymru o holl ranbarthau Lloegr, o ran dangosyddion economaidd-gymdeithasol yn cynnwys cyfraddau cyflogaeth, enillion, canlyniadau iechyd, derbynyddion lles ac etifeddiaeth ddiwydiannol.

3.5.1 *Llwyth achosion y Budd-dal Tai*

Gwelwyd cynnydd yn llwyth achosion y Budd-dal Tai (HB) yn y ddwy ardal. Fodd bynnag, roedd canran y cynnydd cyffredinol rhwng Mai 2005 ac Ebrill 2010 yn uwch yng Nghymru (18.2%) nag yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr (13.2%). Gallai hyn awgrymu bod Cynllun Defnyddio Llywodraeth y Cynulliad wedi cael effaith gadarnhaol ar gynyddu'r derbynyddion HB yng Nghymru.

⁵ Trwy ymgynghori ag ALLau yn y Gogledd-ddwyrain awgrymwyd nad oedd yna gynllun defnyddio rhanbarthol tebyg i Gynllun Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn, ond nodir bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cynnal ymgyrch hysbysebu genedlaethol yn 2006.

Siart 3: Derbynyddion HB yng Nghymru a'r gogledd-ddwyrain




Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

3.5.2 Llwyth achosion Budd-dal y Dreth Gyngor

Yn yr un modd â'r HB, roedd y cynnydd yn nifer y derbynyddion CTB rhwng Mai 2005 ac Ebrill 2010 yn uwch yng Nghymru (16.8%) o gymharu â Gogledd-ddwyrain Lloegr (11.3%). Eto, gallai hyn awgrymu bod Cynllun Defnyddio Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn effeithiol ac wedi cael effaith gadarnhaol ar gynyddu nifer y derbynyddion CTB yng Nghymru.

Siart 4: Derbynyddion CTB yng Nghymru a Gogledd-ddwyrain Lloegr



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

3.6 Crynodeb a Chasgliadau

- Rhwng Mai 2005 ac Ebrill 2010, cynyddodd llwyth achosion HB a CTB yng Nghymru 18.2% ac 16.8% yn ôl eu trefn. Nodir bod yna ostyngiad bach iawn yn nifer y derbynyddion HB a CTB rhwng Mai 2006 a Mai 2007. Ni chynhyrchodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ystadegau swyddogol rhwng Awst 2007 ac Awst 2009 sy'n ei gwneud hi'n anodd rhoi sylwadau ar y cynnydd o Ebrill 2008 hyd heddiw.
- Mae'r gymhariaeth rhwng Cymru a Gogledd-ddwyrain Lloegr yn awgrymu bod y ddwy ardal wedi gweld cynnydd yn nifer y derbynyddion HB a CTB, ond bod y cynnydd yn fwy yng Nghymru nag yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, lle na weithredwyd unrhyw gynllun defnyddio penodol. Gallai hyn awgrymu bod Cynllun Defnyddio Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn effeithiol ac wedi cael effaith gadarnhaol ar gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn HB a/neu CTB.

Mae Pennod 4 yn archwilio'r defnydd o HB a CTB yn fwy manwl, gan archwilio effaith gymesurol y Cynllun trwy ystyried y defnydd na wneir o fudd-daliadau o bosibl ac effaith ffactorau economaidd-gymdeithasol fel y dirwasgiad.

4 Mesur a Dadansoddi'r Defnydd o HB a CTB

4.1 Cyflwyniad

Mae Oxford Economics wedi gwneud gwaith ymchwil i fesur i ba raddau y caiff budd-daliadau eu defnyddio ac effaith gymesurol y Cynllun ledled Cymru gyfan trwy amcangyfrif faint o bosibl nad ydynt yn defnyddio budd-daliadau. Roedd yr ymchwil hwn hefyd yn ceisio dadansoddi'r newidiadau yn y nifer sy'n derbyn HB a CTB dros gyfnod, gan ystyried ffactorau economaidd lle'r oedd hynny'n bosibl, er mwyn asesu effaith bosibl y Cynllun o'r cychwyn cyntaf hyd heddiw.

4.2 Amcangyfrifon Swyddogol Prydain o Gyfraddau Defnyddwyr HB a CTB⁶

Mae'r adroddiad 'Income Related Benefits Estimates of Take-up in 2008-09' a luniwyd gan Adran Gwaith a Phensiynau yn gyhoeddiad allweddol sy'n cynnwys yr amcangyfrifon diweddaraf (cyfres amser blynyddol) o ddefnyddwyr budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd ym Mhrydain - gan gynnwys Cymhorthdal Incwm (IS), Credyd Pensiwn (PC), HB, CTB a Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) (yn Seiliedig ar Incwm) (<http://research.dwp.gov.uk/asd/irb.asp>).

4.2.1 Amcangyfrifon Cyfraddau Defnyddwyr Budd-daliadau Diweddaraf Prydain

Mae Tabl 3 yn grynodeb o brif amcangyfrifon defnyddwyr HB a CTB⁷ ym Mhrydain Fawr yn 2007/08 a 2008/09.

⁶ Mae defnyddio budd-daliadau yn cyfeirio at unigolyn 'cymwys' yn derbyn budd-dal penodol, er enghraifft HB neu CTB. Mae derbynnydd 'cymwys' yn unigolyn y mae ei amgylchiadau yn bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer budd-daliadau, gan ei gwneud yn 'gymwys' felly i hawlio'r budd-dal.

⁷ Mae'r hunan-gyflogedig yn cael eu heithrio o'r amcangyfrifon hyn oherwydd diffyg gwybodaeth ar incymau hunan-gyflogedig, er na fydd gan mwyafrif yr hunan-gyflogedig o bosibl yr hawl i dderbyn budd-dal tai neu fudd-dal y dreth yngor beth bynnag.

Tabl 3: Amcangyfrifon o'r Defnydd o HB a CTB ym Mhrydain (2008/09)

	Budd-dal Tai		Budd-dal y Dreth Gyngor	
	2007/08	2008/09	2007/08	2008/09
Llwyth Achosion				
Nifer y derbynyddion (miloedd)	3,940	4,030	4,950	5,010
Ystod yr ENRs (miloedd)	600 : 990	680 : 1,180	2,330 : 3,060	2,130 : 2,930
Ystod Cyfraddau Defnydd	80 : 87	77 : 86	62 : 68	63 : 70
Gwariant				
Cyfanswm a hawliwyd (£miliynau)	14,080	15,770	3,760	3,960
Ystod y bobl â hawl nad ydynt yn dderbynyddion ac nad ydynt yn hawlio (£miliynau)	1,350 : 2,470	1,780 : 3,410	1,570 : 2,160	1,490 : 2,150
Ystod Cyfraddau Defnydd	85 : 91	82 : 90	63 : 70	65 : 73

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae prif negeseuon Tabl 3 fel a ganlyn⁸.

- *Budd-dal Tai*: Nid yw rhwng un rhan o bump ac un rhan o chwech o bobl sydd â hawl i HB ym Mhrydain yn ei dderbyn. Yn 2008/09, roedd hyn yn gyfystyr â rhwng 0.7 miliwn ac 1.2 miliwn o unedau o fudd-dal⁹ a rhwng £1.8 biliwn a £3.4 biliwn yn ychwanegol mewn HB y gellid fod wedi ei hawlio (cyfartaledd o £2,600 yr achos) pe bai cyfraddau defnydd yn 100%.
- *Budd-dal y Dreth Gyngor*: Nid yw tua un rhan o dair o bobl sydd â hawl i CTB ym Mhrydain yn ei dderbyn, ac yn 2008/09 roedd hyn yn gyfwerth â rhwng 2.1 miliwn a 2.9 miliwn o bobl a rhwng £1.5 biliwn a £2.2 biliwn mewn hawliadau na chawsant eu hawlio (cyfartaledd o £700 yr achos). Efallai bod y swm cymwys is y gellid ei hawlio ar gyfartaledd (h.y. £2,600 ar gyfer HB o gymharu â £700 ar gyfer

⁸ Cynghorir darllenwyr i gyfeirio at adroddiad yr Adran Gwaith a Phensiynau am gafeatau manwl sy'n ymwneud â'r amcangyfrifon hyn.

⁹ Cynghorir darllenwyr i gyfeirio at y diffiniadau technegol am eglurhad o'r term 'uned budd-dal'. Nodwch fod ystod yr ENRs yn ymddangos yn llawer mwy nag ystod amcangyfrifon y defnydd gan fod yr enwadur wrth gyfrifo'r defnydd yn ffigur llawer mwy na'r ENRs (swm y derbynyddion a'r ENRs ydyw).

CTB yr achos) yn un rheswm pam fod llai'n hawlio'r CTB.

Mae adroddiad amcangyfrifon yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn dangos y canlynol:

- Mae'n debygol nad yw nifer o unigolion/cartrefi sy'n gymwys i dderbyn HB a CTB yn ei hawlio (er i rai o'r bobl hyn, gallai cyfanswm y budd-dal nad yw'n cael ei hawlio, fod yn swm bychan iawn yn ariannol).
- O ran niferoedd y llwyth achosion yn unig, mae gan CTB y nifer mwyaf o ENRs o gymharu â'r holl fudd-daliadau lles eraill a gofnodwyd, gyda derbyniadau HB nad ydynt wedi eu hawlio yn uwch na budd-daliadau eraill a gofnodwyd.

O ran goblygiadau'r gwerthusiad hwn, mae hyn yn rhoi peth cyfiawnhad dros ganolbwyntio ar dargedu defnyddwyr HB (lle mae nifer uchaf y derbyniadau nad ydynt wedi eu hawlio) a CTB (lle mae nifer uchaf yr ENRs), ac yn fwy byth o ystyried pa mor ddibynnol yw'r ddau fudd-dal hyn ar ei gilydd.

4.2.2 Amcangyfrifon Swyddogol Cymru o Gyfraddau Defnyddio HB a CTB

Nid yw amcangyfrifon o gyfraddau defnyddio HB a CTB (a budd-daliadau eraill sy'n dibynnu ar brawf modd), fel y rhai sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer Prydain ar gael ar lefel is na Phrydain er bod rhai dadansoddiadau rhanbarthol sylfaenol ar gael yn adroddiad amcangyfrifon yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r dadansoddiad rhanbarthol hwn yn edrych ar gyfran Prydain o dderbynyddion â hawl ac ENRs pob rhanbarth. Lle mae cyfradd yr ENRs yn ôl rhanbarth yn fwy na chyfradd y

derbynyddion â hawl, mae hyn yn awgrymu bod gan y rhanbarth gyfradd defnyddwyr sy'n is na chyfartaledd Prydain¹⁰.

Mae Tabl 4 yn nodi'r dadansoddiad rhanbarthol hwn. Fel y nodir, y brif neges i Gymru yw bod cyfradd Prydain o ENRs a derbynyddion â hawl yr un fath ar gyfer HB a CTB, (o leiaf wrth dalgrynnu i ganrannau cyfan), gan awgrymu bod gan Gymru gyfraddau defnyddio budd-daliadau tebyg i Brydain yn ei chyfanrwydd.

Yn ddiddorol, yn ôl y dadansoddiad hwn, ymddengys bod gan y Ogledd-ddwyrain Lloegr a'r Alban gyfraddau defnyddio budd-daliadau sy'n uwch na chyfartaledd Prydain (gan fod cyfran eu ENRs ym Mhrydain yn is na chyfran eu derbynyddion â hawl ym Mhrydain). Mewn cyferbyniad, ymddengys fod gan y rhanbarthau sy'n fwy llewyrchus yn economaidd

(Dwyrain, De-ddwyrain a De-orllewin Lloegr) gyfraddau defnyddio HB a CTB sy'n is na chyfartaledd Prydain, canlyniad sydd i'w ddisgwyl o bosibl.

¹⁰ Mae angen ymdrin â'r math hwn o ddadansoddi gor-symml yn ofalus. Yn ôl Adran Gwaith a Phensiynau, nid yw'r data sylfaenol yn cael ei gywiro ar gyfer gogwyddiadau a allai fod yn gynhenid mewn amcangyfrifon o hawliau budd-daliadau yn seiliedig ar incwm, ac mae'r ffigurau o'r cyfraddau yn cael eu talgrynnu i ganrannau cyfan (sy'n gwneud gwahaniaeth mawr i ranbarthau llai fel Cymru).

Tabl 4: Derbynyddion â hawl i HB a CTB ac ENRs yn Rhanbarthau Prydain (2008/09)

	Budd-dal Tai			Budd-dal y Dreth Gyngor		
	% ENRs Prydain	% ENRs Prydain	Gwahaniaeth	% ENRs Prydain	% ENRs Prydain	Gwahaniaeth
Gogledd-ddwyrain Lloegr	4.0%	6.0%	2.0	4.0%	7.0%	3.0
Gogledd-orllewin Lloegr	12.0%	14.0%	2.0	13.0%	14.0%	1.0
Swydd Efrog a'r Humber	9.0%	9.0%	0.0	9.0%	9.0%	0.0
Dwyrain Canolbarth Lloegr	8.0%	7.0%	-1.0	9.0%	7.0%	-2.0
Gorllewin Canolbarth Lloegr	7.0%	9.0%	2.0	9.0%	10.0%	1.0
Dwyrain Lloegr	9.0%	7.0%	-2.0	10.0%	7.0%	-3.0
Llundain	21.0%	15.0%	-6.0	12.0%	13.0%	1.0
De-ddwyrain Lloegr	11.0%	10.0%	-1.0	11.0%	10.0%	-1.0
De-orllewin Lloegr	8.0%	6.0%	-2.0	9.0%	7.0%	-2.0
Cymru	5.0%	5.0%	0.0	6.0%	6.0%	0.0
Yr Alban	7.0%	11.0%	4.0	8.0%	10.0%	2.0
Prydain Fawr	101.0%	99.0%	-	100.0%	100.0%	-

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

4.2.3 Amcangyfrifon Answyddogol Cymru o Gyfraddau Defnyddio HB a CTB

O gofio nad yw amcangyfrifon cyfraddau defnyddio HB a CTB ar gael ar lefel is na Phrydain, mae Oxford Economics wedi amcangyfrif nifer yr ENRs ar gyfer HB a CTB yng Nghymru er mwyn sicrhau nad yw lefel yr angen nad yw'n cael ei ddiwallu yn parhau 'heb ei amcangyfrif', er hynny mae'n rhaid i'r amcangyfrifon fod yn gysylltiedig â nifer o gafeatau eraill. Nod hynny yw rhoi syniad o hyd a lled yr 'angen nad yw'n cael ei ddiwallu', yn hytrach na gweithredu mewn 'gwactod' o wybodaeth ar raddfa bosibl y bobl sydd i'w targedu mewn cynlluniau defnyddio.

Defnyddiwyd dau ddull o amcangyfrif, ac roedd y ddau yn cynnwys defnyddio cyfraddau defnyddio budd-daliadau diweddaraf Prydain yn erbyn y data sylfaenol

cyfanredol i Gymru. Roedd un dull yn syml ac roedd y dull arall ychydig yn fwy soffistigedig lle'r oedd y grŵp o dderbynyddion cyffredinol cyfanredol yn cael ei rannu i gategoriâu penodol ar gyfer y gwahanol gyfraddau defnyddio ym Mhrydain. Gyda'r dull hwn, gallai cyfradd y defnydd cyfanredol neu gyffredinol ar gyfer Cymru fod yn wahanol i gyfartaledd cyffredinol Prydain yn seiliedig ar nodweddion demograffig ac economaidd sylfaenol Cymru¹¹.

- Ar sail y dull syml, roedd nifer yr ENRs HB ym mis Ebrill 2010 yn amrywio o 38,000 o unedau tai (h.y. cartrefi / unigolion) i 70,000; ac roedd nifer yr ENRs CTB yn amrywio o 138,000 i 188,000 o unedau o fudd-daliadau. Mae hyn i'w weld yn Nhabl 5.

Tabl 5: Amcangyfrif o'r ENRs HB a CTB yng Nghymru (Ebrill 2010) - Y dull syml

	Budd-dal Tai		Budd-dal y Dreth Gyngor	
	Graddfa is	Graddfa uwch	Graddfa is	Graddfa uwch
Llwyth achosion				
Nifer y derbynyddion (miloedd) - ar Ebrill 2010	236	236	321	321
Ystod yr ENRs (miloedd)	38	70	138	188
Ystod cyfraddau defnyddio	77	86	63	70

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Oxford Economics

- Yn seiliedig ar ddull ychydig yn fwy soffistigedig, roedd yr amcangyfrif o nifer yr ENRs HB ym mis Ebrill 2010 yn amrywio o 45,000 o unedau o fudd-daliadau i 80,000 (o gymharu â 38,000-70,000 yn ôl y dull syml) ac mae'r gyfradd ddefnyddio gyfanredol wedi'i hamcangyfrif fel 75%-84% (o gymharu â chyfradd

¹¹ Fodd bynnag, mae cyfyngiad oherwydd mae angen sicrhau bod data derbynyddion ar gael i'r lefel hwn o fanylder ar gyfer y math o gategori a ddewisir, ac yn ddelfrydol i Gymru ac ALLau Cymru (os yw'r un fethodoleg i'w defnyddio ar gyfer y ddwy lefel ofodol). Ar gyfer HB, mae data derbynyddion ar gael yn ôl daliadaeth.

defnyddio Prydain o 77%-86% yn 2008/09 - Gweler Tabl 3). Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Nhabl 6. Yn anffodus, nid oes dadansoddiad o'r CTB mewn ffurf addas fel y gellir defnyddio'r dull hwn.

Tabl 6: Amcangyfrif o'r ENRs HB yng Nghymru (Ebrill 2010) - Y Dull Mwy Soffistigedig

	Budd-dal Tai	
	Graddfa is	Graddfa uwch
Llwyth achosion		
Nifer y derbynyddion (miloedd) - fel ar Ebrill '10	236	236
Cymdeithasol ar rent	162	162
Rhentu preifat	74	74
Ystod yr ENRs (miloedd)	45	80
Cymdeithasol ar rent	12	24
Rhentu preifat	33	56
Ystod cyfraddau defnyddwyr (%)	75	84
Cymdeithasol ar rent	87	93
Rhentu preifat	57	69

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Oxford Economics

Yn ogystal, mae'n werth pwysleisio gwerth ariannol posibl yr hawliau nad ydynt yn cael eu hawlio:

- Gan dybio gwerth ariannol tebyg o hawliau nad ydynt wedi eu hawlio fesul achos yn unol â Phrydain (£2,600), byddai hyn yn gyfwerth â hawliau HB nad ydynt wedi eu hawlio o rhwng £120 miliwn a £210 miliwn y flwyddyn i Gymru.
- Gan dybio gwerth ariannol tebyg o hawliau nad ydynt wedi eu hawlio fesul achos yn unol â Phrydain (£700), byddai hyn yn gyfwerth â hawliau CTB nad ydynt wedi eu hawlio o rhwng £95 miliwn a £130 miliwn y flwyddyn i Gymru.

O ran goblygiadau'r gwerthusiad hwn, mae hyn yn awgrymu bod nifer sylweddol o ENRs ar gyfer HB a CTB, a byddai hyn, ynghyd â'r gwerth ariannol cysylltiedig, yn

rhoi cyfiawnhad a sail resymegol i Lywodraeth y Cynulliad ystyried ariannu Cynllun Defnyddio HB a CTB yn y dyfodol.

4.3 Y berthynas rhwng Derbynyddion HB a CTB a Ffactorau Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r adran hon yn archwilio'r berthynas rhwng nifer y derbynyddion a ffactorau economaidd-gymdeithasol fel, er enghraifft, diweithdra, er mwyn nodi pa ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n sbarduno lefelau budd-daliadau. Bydd dealltwriaeth o'u perthynas â'i gilydd yn helpu ni i ddeall perthnasau dros amser o ran tueddiadau derbynyddion budd-daliadau. Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei wneud ar lefel rhanbarthol ym Mhrydain ac ar lefel Awdurdod Lleol yng Nghymru¹².

4.3.1 Budd-dal Tai

Mae crynodiad cymharol derbynyddion HB yng Nghymru, yn ôl y boblogaeth sydd dros 15 oed ac yn ôl cyfran y cartrefi, yn debyg i gyfartaledd Prydain, ond mae'n is na rhanbarthau sy'n debyg yn economaidd fel Gogledd-ddwyrain Lloegr.


Yn ogystal, mae crynodiad cymharol derbynyddion HB ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, yn ôl y boblogaeth dros 15 oed ac yn ôl cyfran y cartrefi, yn amrywio'n sylweddol. Mae'r crynodiad isaf mewn awdurdodau lleol fel Powys, Sir Fynwy a Cheredigion, ac mae ar ei uchaf ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent.

Mae dadansoddiadau ystadegol yn dangos bod cydberthyniad cryf rhwng cyfraddau diweithdra a'r crynodiad cymharol o dderbynyddion HB ar lefel rhanbarthol ac ar lefel Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae hyn i'w weld yn Siart 5 sy'n dangos bod

¹² Mae manylion ychwanegol wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

rhanbarthau sydd â lefelau uwch o ddiweithdra yn tueddu i gael crynodiadau uwch o dderbynyddion HB.

Siart 5: Y berthynas rhwng Cyfradd Diweithdra Hawlwyr a Derbynyddion HB (Ebrill 2010) - Rhanbarthau Prydain




Ffynhonnell: NOMIS, Oxford Economics, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Siart 6 yn dangos bod y cydberthyniad cryf hwn hefyd yn berthnasol i ALLau. Mae hyn yn dangos bod gan Flaenau Gwent a Merthyr Tudful, sydd â lefelau uchel o ddiweithdra, hefyd grynodiadau uchel o bobl sy'n derbyn HB tra bod gan Bowys, Sir Fynwy a Cheredigion lefelau isel o ddiweithdra a chrynodiadau isel o bobl sy'n derbyn HB.

Mae hyn yn golygu pan fo diweithdra yn codi, bod nifer y derbynyddion HB hefyd yn codi. Fodd bynnag, o gofio'r crynodiad uchel o dderbynyddion HB sydd eisoes mewn ardaloedd penodol fel Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, mae'n bosibl bod gan yr ardaloedd hyn lai o botensial i weld twf sylweddol mewn hawl wyr newydd. Byddai hyn yn helpu i egluro'r lefelau is o gynnydd yn y sawl sy'n derbyn HB yn yr Awdurdodau Lleol hyn dros gyfnod y Cynllun (Gweler Tabl 1, Pennod 3).

**Siart 6: Y berthynas rhwng Cyfradd Diweithdra Hawlwyr a Derbynyddion HB
(Ebrill 2010) – Allau Cymru**



Ffynhonnell: NOMIS, Oxford Economics, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Gwnaethpwyd archwiliad o'r berthynas rhwng y crynodiad o dderbynyddion HB ac amrywiaeth ehangach o ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill; roedd y ffactorau

economaidd-gymdeithasol eraill hyn yn cynnwys Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) y gweithlu, cyflogau preswyl, prisiau tai, Deg Uchaf a Phumdeg Uchaf Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) ac etifeddiaeth ddiwydiannol (a ddirprwywyd gan gyfran y gwneuthurwr o gyfanswm cyflogaeth, 1991).

Mae dadansoddiad ystadegol yn dangos bod:

- Cydberthyniad negyddol cryf rhwng y crynodiad cymharol o dderbynyddion HB a phrisiau tai h.y. mae Awdurdodau Lleol sydd â chyfran uwch o dai band treth uwch yn tueddu i gael crynodiadau is o dderbynyddion HB.
- Mae cydberthyniad cryf rhwng y crynodiad cymharol o dderbynyddion HB ac amddifadedd h.y. mae Awdurdodau Lleol sydd â chyfran uwch o ardaloedd cynnyrch ehangach mwy difreintiedig yn tueddu i gael crynodiadau uwch o dderbynyddion budd-daliadau.

Mae dadansoddiadau ystadegol manylach o'r newidynnau economaidd-gymdeithasol hyn yn dangos mai'r hyn sy'n rhagfynegi orau y crynodiadau o dderbynyddion HB yw cyfran y boblogaeth sy'n ddi-waith, yn ddifreintiedig ac sydd wedi ymddeol. Mae hyn yn helpu i egluro pam mae'r crynodiad o bobl sy'n derbyn HB ar ei isaf mewn awdurdodau lleol fel Powys, Sir Fynwy a Cheredigion ac ar ei uchaf ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent.


4.3.2 *Budd-dal y Dreth Gyngor*

Mae crynodiad cymharol derbynyddion CTB yng Nghymru, yn ôl y boblogaeth sydd dros 18 oed ac yn ôl cyfran y cartrefi, yn uwch na chyfartaledd Prydain Fawr ond, fel HB, mae'r crynodiad yn is na rhanbarthau sy'n debyg yn economaidd fel Gogledd-ddwyrain Lloegr.

Mae'r crynodiad cymharol o dderbynyddion CTB ar draws ALLau Lleol yng Nghymru, yn ôl y boblogaeth sydd dros 18 oed ac yn ôl cyfran y cartrefi, eto'n amrywio'n sylweddol, gyda'r un set o ALLau tua'r gwaelod ac ar y brig fel gyda HB.

Eto, fel gyda HB, mae cydberthyniad cryf tebyg yn bodoli rhwng cyfraddau diweithdra a chrynodiad cymharol derbynyddion CTB ar lefel rhanbarthol ac ar lefel ALLau Cymru. Mae hyn i'w weld yn Siart 7 sy'n dangos bod rhanbarthau sydd â lefel uwch o ddiweithdra yn tueddu i gael crynodiadau uwch o dderbynyddion CTB.


Siart 7: Y Berthynas rhwng Cyfradd Diweithdra Hawlwyr a Derbynyddion CTB (Ebrill 2010) - Rhanbarthau Prydain



Ffynhonnell: NOMIS, Oxford Economics, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Siart 8 yn dangos y cydberthyniad cryf mewn ALLau. Fel gyda HB, mae hyn yn dangos bod gan Flaenau Gwent a Merthyr Tudful, sydd â'r lefelau uchaf o ddiweithdra, grynodiadau uwch hefyd o bobl sy'n derbyn CTB tra bod gan Bowys, Sir Fynwy a Cheredigion lefelau isel o ddiweithdra a chrynodiadau isel o bobl sy'n derbyn HB.

Siart 8: Y berthynas rhwng Cyfradd Diweithdra Hawlwyr a Derbynyddion CTB (Ebrill 2010) – Awdurdodau Lleol Cymru



Ffynhonnell: NOMIS, Oxford Economics, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Unwaith eto, mae hyn yn golygu wrth i ddiweithdra gynyddu, fod cynnydd tebyg yn nifer y sawl sy'n derbyn CTB. Fodd bynnag, o gofio'r crynodiad uchel o

dderbynyddion CTB sydd eisoes yn bodoli mewn ardaloedd penodol fel Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, mae'n bosibl bod gan yr ardaloedd hyn lai o botensial i weld twf sylweddol mewn derbynyddion CTB. Byddai hyn yn helpu i egluro lefelau is y cynnydd mewn derbynyddion CTB yn yr ALLau hyn dros gyfnod y Cynllun (Gweler Tabl 2, Pennod 3).

Unwaith eto, fel gyda HB, archwiliwyd y berthynas rhwng crynodiad y derbynyddion CTB ac amrywiaeth o ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill. Mae'r dadansoddiad ystadegol hwn yn dangos:

- Bod cydberthyniad negyddol cryf rhwng crynodiad derbynyddion CTB a phrisiau tai h.y. mae ALLau sydd â chyfran uwch o dai band uchel yn tueddu i gael crynodiadau is o dderbynyddion CTB.
- Bod cydberthyniad cryf rhwng crynodiad cymharol derbynyddion CTB ac amddifadedd h.y. mae ALLau sydd â chyfran uwch o ardaloedd cynnyrch ehangach mwy difreintiedig yn tueddu i gael crynodiadau uwch o dderbynyddion budd-daliadau.

Mae dadansoddiad ystadegol manylach o'r newidynnau economaidd-gymdeithasol hyn yn dangos mai'r hyn sy'n rhagfynegi orau y crynodiadau o dderbynyddion CTB yw diweithdra, prisiau tai ac amddifadedd. Mae hyn eto yn helpu i egluro pam mae'r crynodiad o bobl sy'n derbyn CTB ar ei isaf mewn awdurdodau lleol fel Powys, Sir Fynwy a Cheredigion ac ar ei uchaf ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent.

4.3.3 Amcangyfrifon Awdurdodau Lleol o Gyfraddau Defnyddio HB a CTB

Un ffordd ddefnyddiol o ddefnyddio'r wybodaeth economaidd-gymdeithasol a ddisgrifir uchod yw er mwyn rhagfynegi lefelau y sawl y disgwylir iddynt dderbyn budd-daliadau a'u cymharu â lefelau gwirioneddol. Er enghraifft, o gofio'r ddemograffeg, y diweithdra a'r amddifadedd mewn ALLau, beth fyddai'r gyfradd

ddisgwyliedig o dderbynyddion budd-daliadau (procsi bras ar gyfer derbynyddion cymwys) o gymharu â'r lefel wirioneddol?

Mae lefelau derbynyddion gwirioneddol HB a CTB sy'n is na'r disgwyl, yn awgrymu bod cyfraddau defnyddwyr budd-daliadau yn is na'r cyfartaledd. Gellir cyfuno'r dadansoddiad hwn wedyn gydag amcangyfrifon cynharach o gyfraddau defnyddio cyfanredol Cymru ac ENRs er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon o'r "galw na chafodd ei ddiwallu" ar gyfer ALLau. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiad hwn yn fanwl gywir o bell ffordd ac nid yw ond yn arwydd o'r gwahaniaethau posibl mewn cyfraddau defnyddwyr ar draws ALLau. Felly, dylid ymdrin â'r canlyniadau'n ofalus.

Mae canlyniadau'r dadansoddiad gwirioneddol o gymharu â'r hyn sy'n ddisgwyliedig wedi'u cyflwyno yn Nhabl 7. Mae hyn yn dangos bod crynodiadau gwirioneddol derbynyddion budd-daliadau HB a CTB yn is nag a ragfynegwyd mewn rhai ALLau. Mae Ynys Môn, Sir y Fflint a Chaerffili yn enghreifftiau o ALLau o'r fath. Mae'r gwrthwyneb yn wir am Gonwy, Sir Benfro, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot lle mae derbynyddion gwirioneddol yn uwch na'r disgwyl. Fodd bynnag, ymddengys nad oes patrymau yn y gwahaniaethau rhwng derbynyddion gwirioneddol a disgwyliedig ar draws ALLau e.e. nid oes patrwm penodol o gyfraddau defnyddwyr is mewn awdurdodau lleol llai difreintiedig/cyfoethocach.

Tabl 7: Derbynyddion HB a CTB o'r boblogaeth sydd dros 15 oed a dros 18 oed Gwirioneddol yn erbyn Disgwyliedig (Ebrill 2010) Miloedd ¹³

	Budd-dal Tai			Budd-dal y Dreth Gyngor		
	Derbynyddion Gwirioneddol (miloedd)	Derbynyddion Disgwyliedig (miloedd)	Gwahaniaeth	Derbynyddion Gwirioneddol (miloedd)	Derbynyddion Disgwyliedig (miloedd)	Gwahaniaeth
Ynys Môn	84	99	-15%	125	144	-13%
Blaenau Gwent	136	133	2%	196	190	3%
Pen-y-bont ar Ogwr	96	98	-2%	143	144	-1%
Caerffili	105	114	-8%	155	164	-5%
Caerdydd	102	100	3%	130	130	0%
Sir Gaerfyrddin	86	89	-3%	132	138	-5%
Ceredigion	63	67	-5%	95	98	-4%
Conwy	89	84	6%	132	126	5%
Sir Ddinbych	91	88	4%	137	132	3%
Sir y Fflint	74	82	-10%	108	115	-6%
Gwynedd	79	82	-4%	119	123	-3%
Merthyr Tudful	124	126	-2%	185	182	1%
Sir Fynwy	66	69	-5%	96	90	6%
Castell-nedd Port Talbot	113	105	7%	174	163	7%
Casnewydd	112	105	7%	143	144	-1%

¹³ Nodwch tra bod y model ar gyfer HB a CTB yn seiliedig ar ddata amddifadedd ar gyfer 2008, mae'n ddilys o hyd defnyddio'r data hwn ar gyfer dadansoddiad gwirioneddol yn erbyn disgwyliedig yn 2010 oherwydd mae'n annhebygol bod newid sylweddol wedi bod yng ngraddfeydd amddifadedd ALLau. Beth bynnag, 2008 yw'r flwyddyn ddiwethaf lle mae data amddifadedd ar gael ar gyfer Cymru.

	Budd-dal Tai			Budd-dal y Dreth Gyngor		
	Derbynyddion Gwirioneddol (miloedd)	Derbynyddion Disgwyliedig (miloedd)	Gwahaniaeth	Derbynyddion Gwirioneddol (miloedd)	Derbynyddion Disgwyliedig (miloedd)	Gwahaniaeth
Sir Benfro	85	78	9%	121	114	6%
Powys	67	66	2%	96	96	0%
Rhondda Cynon Taf	100	110	-9%	159	164	-3%
Abertawe	106	91	16%	146	132	11%
Bro Morgannwg	79	84	-6%	111	110	1%
Torfaen	114	103	11%	155	150	4%
Wrecsam	96	94	2%	127	134	-5%

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhydychen

Cafeat: Mae angen cofio nad yw'r dadansoddiad hwn yn fanwl gywir o bell ffordd ac arwydd o wahaniaethau posibl ydyw mewn cyfraddau defnyddio ar draws ALLau. Felly dylid felly ymdrin â'r canlyniadau'n ofalus.

Mae'n bosibl defnyddio'r canlyniadau yn Nhabl 7, wedi'u cyfuno ag amcangyfrifon cynharach o gyfraddau defnyddio cyfanredol ac ENRs yng Nghymru, er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon o ENRs ar gyfer ALLau. Mae hyn yn cael ei wneud trwy addasu'r cyfraddau defnyddio tybiedig ar gyfer Prydain i bob Awdurdod Lleol, er unwaith eto, arwydd yw'r addasiadau hyn yn hytrach na rhai manwl gywir.¹⁴

Fel mae Tabl 8 yn dangos, mae'r nifer fwyaf o ENRs mewn un ALI fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, yng Nghaerdydd, o gofio mai dyma'r ALI mwyaf o ran poblogaeth.

Tra gall y ffigurau hyn ar gyfer ENRs ymddangos yn uchel mewn rhai ALI, mae'n bwysig cofio bod y ffigurau yn gyson â chyfraddau defnyddio Prydain a demograffeg sylfaenol ALLau, ac mae'n amhosibl gwybod a yw gwir nifer yr ENRs yn nes at yr amcangyfrifon graddfa is neu'r raddfa uwch (sy'n gwneud gwahaniaeth mawr).

¹⁴A bod yn fanwl gywir, ni ellir defnyddio'r gwahaniaethau canrannol gwirioneddol uchod gwirioneddol minws y disgwyledig yn uniongyrchol er mwyn addasu cyfraddau defnyddio, ond gellir eu defnyddio i wneud addasiadau dangosol.

Tabl 8: Amcangyfrifon Awdurdod Lleol Cymru o ENRs HB a CTB (Ebrill 2010)
Miloedd

	Budd-dal Tai		Budd-dal y Dreth Gyngor	
	Graddfa Is	Graddfa uwch	Graddfa Is	Graddfa uwch
Ynys Môn	1.4	2.3	3.7	5.0
Blaenau Gwent	1.4	2.4	4.6	6.2
Pen-y-bont ar Ogwr	2.4	4.1	6.6	9.0
Caerffili	3.0	5.1	10.2	13.8
Caerdydd	5.6	9.7	15.0	20.5
Sir Gaerfyrddin	2.7	4.7	8.2	11.2
Ceredigion	1.3	2.1	2.6	3.5
Conwy	1.8	3.2	5.1	7.0
Sir Ddinbych	1.9	3.3	4.6	6.3
Sir y Fflint	2.0	3.4	6.2	8.4
Gwynedd	1.5	2.6	4.9	6.7
Merthyr Tudful	1.0	1.7	3.5	4.8
Sir Fynwy	0.8	1.4	2.6	3.5
Castell-nedd Port Talbot	2.0	3.8	7.3	10.1
Casnewydd	1.8	3.4	6.7	9.2
Sir Benfro	1.4	2.5	4.3	6.0
Powys	1.5	2.6	4.4	6.0
Rhondda Cynon Taf	5.0	8.3	12.7	17.3
Abertawe	2.4	4.9	9.1	12.8
Bro Morgannwg	2.4	3.9	4.7	6.4
Torfaen	0.6	1.5	4.8	6.5
Wrecsam	1.6	2.8	5.8	8.0
Cymru (miloedd)	45	80	138	188

Ffynhonnell: Oxford Economics

4.4 Newidiadau mewn HB a CTB - Effaith y Cynllun

Mae'r adran hon yn ceisio dadansoddi newidiadau yn nifer y sawl sy'n derbyn HB a CTB dros gyfnod, ac yn arbennig y cyfnod ers i'r Cynllun gael ei sefydlu, er mwyn

asesu, lle mae hynny'n bosibl, effaith y Cynllun ar nifer y sawl sy'n derbyn HB a CTB na fyddai fel arall wedi hawlio budd-daliadau yr oedd ganddynt yr hawl i'w derbyn (ac felly'r effaith ar gyfraddau defnyddio). Pwysleisir bod hyn yn anodd iawn i'w wneud, nid yn unig oherwydd nad yw data derbynyddion budd-daliadau ar gyfer Cymru ar gael fel rheol ar lefel mor fanwl ag sydd ei hangen er mwyn helpu i ynysu gwahanol effeithiau, e.e. rhannu yn ôl pensiynwyr/ pobl nad ydynt yn bensiynwyr, deiliadaeth a statws gweithgarwch economaidd.

O ganlyniad, mae cwrpas yr hyn y gellir ei gyflawni wedi'i gyfyngu i ddadansoddiad o dueddiadau derbynyddion HB a CTB ym Mhrydain, yn cynnwys dadansoddiad o dueddiadau cyfanredol lle mae hynny'n bosibl, dadansoddiad o dueddiadau derbynyddion HB a CTB rhanbarthol a chyfanredol a dadansoddiad o dueddiadau derbynyddion HB a CTB cyfanredol ALLau Cymru.

4.4.1 Tueddiadau Derbynyddion HB a CTB Prydain

- **Y Budd-dal Tai:** Dros y cyfnod Awst 2007¹⁵ i Ebrill 2010, roedd nifer derbynyddion HB ym Mhrydain wedi codi 0.7 miliwn neu 17% (dros yr un cyfnod cododd lefelau diweithdra hawlwyr Prydain 80%).

Drwy ddadansoddi yn ôl deiliadaeth tai, mae llawer o'r twf hwn wedi deillio o unigolion/cartrefi yn byw mewn llety preifat ar rent. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae gostyngiad wedi bod yn nifer y pensiynwyr sy'n dderbynyddion, tra mae nifer y bobl o dan 65 oed wedi codi 0.8 miliwn neu 30% ers mis Tachwedd 2008.

¹⁵ Yn ddelfrydol, byddai dadansoddiad cyfres amser yn dechrau pan ddechreuodd y dirwasgiad yn y DU / Cymru (neu pan gychwynnodd y Cynllun). Aeth economi'r DU i ddirwasgiad yn swyddogol yn nhrydedd chwarter 2008 (yn dilyn dau ddirywiad chwarterol olynol yn y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth). Dechreuodd diweithdra hawlwyr yng Nghymru godi'n amlwg tua'r un cyfnod (haf 2008) a chyfradd ddiweithdra y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) a addaswyd yn dymhorol, o Arolwg y llafurlu, ychydig cyn hynny. Fodd bynnag, rydym wedi gorfod defnyddio Awst 2007 fel y cyfnod cyfeirio cyn y dirwasgiad ar gyfer y data derbynyddion budd-daliadau oherwydd nad yw data ar gyfer rhannau o 2008 ar gael oherwydd y broses ddatblygu sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r Rhan o Fudd-dal Tai Sengl (SHBE).

Mae Tabl 9 yn nodi tueddiadau derbynyddion HB, gan ddangos y cynnydd sylweddol dros gyfnod yn niferoedd y bobl mewn llety preifat wedi'i rentu, a'r gostyngiad yn nifer y derbynyddion dros 65 oed.

Tabl 9: Tueddiadau Derbynyddion HB Prydain

	Budd-dal Tai			
	Awst-07	Tach-08	Awst-09	Ebr-10
Cyfanswm y derbynyddion (miloedd)	4,041	4,172	4,495	4,746
Sector cymdeithasol ar rent	3,100	3,109	3,193	3,295
Sector rhentu preifat	941	1,055	1,273	1,449
Dan 65 oed	na	2,653	2,958	3,467
Dros 65 oed	na	1,515	1,536	1,279
Person sengl heb blentyn dibynnol	amherthnasol	amherthnasol	amherthnasol	2,698
Person sengl gyda phlentyn dibynnol	amherthnasol	amherthnasol	amherthnasol	1,083
Cwpl heb blentyn dibynnol	amherthnasol	amherthnasol	amherthnasol	493
Cwpl gyda phlentyn dibynnol	amherthnasol	amherthnasol	amherthnasol	473

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Er nad yw'r dadansoddiad yn bendant o bell ffordd, mae peth awgrym yma bod effaith y dirwasgiad i'w gweld ar lefel Prydain, o gofio bod gan y mwyafrif o dderbynyddion ychwanegol nodweddion pobl sydd wedi eu gwneud yn ddi-waith i bob pwrpas (e.e. oedran gweithio dan 65 oed a ddim yn byw yn y sector cymdeithasol ar rent), yn hytrach na phobl y tu allan i'r farchnad lafur.

- **Budd-dal y Dreth Gyngor:** Dros y cyfnod o Awst 2007 i Ebrill 2010, cododd nifer y derbynyddion CTB ym Mhrydain 0.7 miliwn neu 14%. Ychydig iawn o newid fu yn y flwyddyn ddiwethaf mewn derbynyddion sy'n bensiynwyr, ond cododd niferoedd y derbynyddion dan 65 oed 20% ers mis Tachwedd 2008 (gweler Tabl 10 drosodd). Mae yma eto beth dystiolaeth o effaith y dirwasgiad.

Tabl 10: Tueddiadau Derbynyddion CTB Prydain

	Budd-dal y Dreth Gyngor			
	Awst-07	Tach-08	Awst-09	Ebr-10
Cyfanswm y derbynyddion (miloedd)	5,079	5,157	5,527	5,780
Dan 65 oed	amherthnasol	2,947	3,301	3,550
Dros 65 oed	amherthnasol	2,202	2,217	2,230
Person sengl heb blentyn dibynnol	amherthnasol	Amherthnasol	amherthnasol	3,278
Person sengl gyda phlentyn dibynnol	amherthnasol	Amherthnasol	amherthnasol	1,058
Cwpl heb blentyn dibynnol	amherthnasol	Amherthnasol	amherthnasol	925
Cwpl gyda phlentyn dibynnol	amherthnasol	Amherthnasol	amherthnasol	521

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau

4.4.2 Tueddiadau Derbynyddion Cyfanredol HB a CTB Rhanbarthol Prydain Fawr


Nodir bod Cymru yn un o'r ardaloedd yr effeithiwyd arni fwyaf yn economaidd ledled Prydain yn ystod y dirwasgiad. Yng Nghymru y gwelwyd y pedwerydd cynnydd mwyaf yn y gyfradd ddiweithdra ymhlith hawlwyd.

- **Y Budd-dal Tai:** Mae nifer y derbynyddion HB yng Nghymru, o Awst 2007 i'r cyfnod diweddaraf sydd ar gael (Ebrill 2010), wedi tyfu ar raddfa (18%) sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Prydain (17%).

Ledled Prydain Fawr, mae nifer yr unedau o fudd-daliadau sy'n derbyn HB wedi tueddu i gynyddu fwyaf o ran canran, mewn ardaloedd lle'r oedd cyfraddau diweithdra yn is ar y cychwyn a heb godi mor gyflym (er nad yw'r cysylltiad hwn yn gadarn iawn yn ystadegol). Fodd bynnag, gallai hyn awgrymu diffyg potential am dwf ychwanegol sylweddol mewn HB mewn ardaloedd fel Gogledd-ddwyrain Lloegr, er eu bod wedi cael eu heffeithio'n fwy gan y dirwasgiad h.y. mae'r posibiladau i gynyddu'r defnydd o fudd-daliadau yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd.

Er gwaethaf y diffyg berthynas gadarnhaol hon ar gyfer hawlwr diweithdra a HB, mae'n amlwg o Siart 9 bod diweithdra hawlwr a derbynyddion HB wedi tueddu i gynyddu gyda'i gilydd. Mae hyn yn arwydd o effaith y dirwasgiad ar nifer y derbynyddion, oherwydd dechreuodd nifer y derbynyddion gynyddu'n gynt wrth i ddiweithdra godi.¹⁶

Siart 9: Newidiadau mewn Derbynyddion HB a Newidiadau yn Niweithdra Hawlwyr yn Ardaloedd Prydain



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, NOMIS

- **Budd-dal y Dreth Gyngor:** Mae nifer y derbynyddion CTB yng Nghymru, o Awst 2007 i'r cyfnod diweddaraf sydd ar gael (Ebrill 2010), wedi tyfu ar raddfa (14%)


¹⁶ Nodir bod y dadansoddiad hwn yn gyfyngedig braidd oherwydd diffyg data derbynyddion ar gyfer 2008.

sy'n cyfateb i dwf cyfartalog Prydain.

Yn yr un modd â HB, mae nifer yr unedau o fudd-daliadau sy'n derbyn CTB wedi tueddu i gynyddu fwyaf o ran canran mewn ardaloedd lle'r oedd cyfraddau diweithdra yn is i gychwyn a heb godi mor gyflym (fodd bynnag, pwysleisir nad yw'r berthynas hon yn un gadarn iawn).

Er hynny, fel y gwelir yn Siart 10, mae diweithdra hawlwr Cymru a derbynyddion CTB wedi tueddu i gyd-symud gan awgrymu effaith y dirwasgiad.

Siart 10: Newidiadau mewn Derbynyddion CTB a Newidiadau yn Niweithdra Hawlwyr yn ardaloedd Prydain



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, NOMIS

4.4.3 *Tueddiadau Derbynyddion Cyfanredol HB a CTB Awdurdodau Lleol Cymru*

Gwelwyd amrywiaeth eithaf sylweddol yn y newid yng nghyfraddau diweithdra hawlwr mewn ALLau ledled Cymru. Yn gyffredinol y duedd oedd bod ALLau oedd â chyfraddau uwch o ddiweithdra ar y cychwyn yn gweld mwy o gynnydd mewn diweithdra yn ystod y dirwasgiad.

- **Y Budd-dal Tai:** Mae'r twf mewn unedau o fudd-daliadau sy'n hawlio HB ar draws ALLau lleol yng Nghymru, o Awst 2007 i Ebrill 2010, hefyd wedi amrywio, yn union fel yr ardaloedd.

Yn ogystal, fel gydag ardaloedd Prydain, mae'r ardaloedd a oedd yn tueddu i weld y cynnydd mwyaf yn nifer derbynyddion HB yn ardaloedd lle nad yw cyfraddau diweithdra wedi codi cymaint. Unwaith eto, gallai hyn awgrymu bod rhai o'r bobl ychwanegol a gollodd eu gwaith yn ystod y dirwasgiad mewn ardaloedd a oedd eisoes â lefelau uchel o ddiweithdra ac eisoes yn hawlio HB (er enghraifft oherwydd eu bod ar incwm isel efallai). Gallai hyn egluro'r cynnydd is mewn derbynyddion HB ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent o gymharu ag ALLau eraill.

- **Budd-dal y Dreth Gyngor:** Digon tebyg ar y cyfan yw hanes CTB ar draws yr ALLau. Gwelwyd amrywiaeth eang yn nhwf derbynyddion a diffyg perthynas bendant rhwng derbynyddion a newidiadau mewn diweithdra.

4.5 **Crynodeb**

- Mae amcangyfrifon swyddogol y llywodraeth yn awgrymu nad oedd nifer sylweddol o bobl a oedd â hawl i dderbyn HB a CTB ym Mhrydain wedi eu derbyn yn 2008/09, ac mae hyn golygu bod swm sylweddol o arian heb ei hawlio. Yn wir, mae gan HB y nifer mwyaf o dderbyniadau nad ydynt yn cael eu hawlio ac mae gan CTB y nifer uchaf o ENRs. At hyn, mae'n debygol bod nifer o unigolion/cartrefi yn gymwys i dderbyn HB a CTB ond nad ydynt yn hawlio'r naill

na'r llall.

Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynhyrchu amcangyfrifon swyddogol o'r defnydd islaw lefel Prydain. Fodd bynnag, roedd amcangyfrifon answyddogol gan Oxford Economics yn amcangyfrif bod nifer yr ENRs HB yng Nghymru ym mis Ebrill 2010 yn amrywio o 45,000 o unedau o fudd-daliadau i 80,000, a byddai hyn yn gyfwerth â hawliadau posibl o fudd-daliadau tai nad ydynt wedi eu hawlio o rhwng £120 miliwn a £210 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir bod nifer yr ENRs CTB yng Nghymru ym mis Ebrill 2010 yn amrywio o 138,000 o unedau o fudd-daliadau i 188,000, sy'n gyfwerth â hawliadau posibl y dreth gyngor nad ydynt wedi eu hawlio o rhwng £95 miliwn a £130 miliwn y flwyddyn.

Mae'r amcangyfrifon swyddogol hyn yn cyfiawnhau i raddau canolbwyntio ar dargedu defnyddwyr HB a CTB gyda'r amcangyfrifon answyddogol yn cyfiawnhau ac yn rhoi sail resymegol i Lywodraeth y Cynulliad ystyried ariannu Cynllun Defnyddio HB a CTB yn y dyfodol.

- Wrth asesu effaith y Cynllun, dros helynt y dirwasgiad, mae diffyg yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cyfyngu ar lefel y dadansoddi y gellid ei wneud. Fodd bynnag, mae asesiad o dueddiadau derbynyddion HB a CTB ym Mhrydain yn dangos cynnydd dros y cyfnod rhwng Awst 2007 ac Ebrill 2010 ac roedd peth awgrym o effaith y dirwasgiad ar lefel Prydain o gofio bod gan fwyafrif y derbynyddion ychwanegol nodweddion pobl sydd, o bosibl, wedi colli eu gwaith (yn hytrach na phobl a oedd eisoes y tu allan i'r farchnad lafur). Cafodd hyn ei atgyfnerthu gan gyfres amser diweithdra hawlwyr Cymru a Phrydain a derbynyddion budd-daliadau a oedd yn tueddu i gyd-symud. Mae hyn yn golygu na ellir dweud mai'r Cynllun Defnyddio HB a CTB sy'n gyfrifol am yr holl gynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod.

Fodd bynnag, mae nifer yr unedau budd-daliadau sy'n derbyn HB a'r rhai sy'n derbyn CTB ar lefel Prydain ac ar draws ALLau Cymru, wedi tueddu i gynyddu

fwyaf o ran canran mewn ardaloedd lle'r oedd cyfraddau diweithdra yn is i gychwyn a heb godi mor gyflym, h.y. mewn ardaloedd na chawsant eu heffeithio gymaint gan y dirwasgiad. Gallai hyn awgrymu bod mwy o ddifffyg potensial ar gyfer twf ychwanegol sylweddol mewn dderbynyddion mewn ardaloedd fel Gogledd-ddwyrain Lloegr, ac ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful er eu bod wedi cael eu heffeithio'n fwy gan y dirwasgiad. Er enghraifft, hwyrach fod rhai o'r bobl ychwanegol hynny a gollodd eu gwaith yn ystod y dirwasgiad mewn ardaloedd sydd eisoes â lefel uchel o ddiweithdra yn hawlio HB a/neu CTB yn barod (er enghraifft, oherwydd eu bod ar incwm isel efallai).

I gloi, mae angen monitro a chofnodi gwybodaeth yn fwy manwl ar dderbynyddion budd-daliadau yn cynnwys eu rhesymau a'u sail resymegol dros hawlio er mwyn gwneud sylwadau mwy pendant ar effaith y Cynllun dros helynt y dirwasgiad.

5 Trosolwg o'r Cynllun

5.1 Cyflwyniad

Hyd yma, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo £4.5 miliwn i weithgareddau defnyddio budd-daliadau ers Ebrill 2006, gan ariannu ymyriad blwyddyn o hyd yn 2006/2007 ac yna mynd i'r afael ag ymyriad tair blynedd rhwng 2008 a 2011.

Yn Rhagfyr 2005, fel rhan o adroddiad cyllideb 2006/2007, cyhoeddwyd fod £1.5 miliwn yn cael ei gyflwyno i ALLau i ariannu Cynllun Defnyddio CTB. Diben y Cynllun oedd hybu'r defnydd o fudd-daliadau trwy gyrraedd y bobl hynny oedd â hawl i gael CTB ond nad ydynt yn ei dderbyn. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yna bryder eang ynghylch effaith cynyddu'r dreth gyngor ar bobl ar incwm sefydlog, yn arbennig pensiynwyr a'r rheiny ag eiddo a oedd wedi dringo'r bandiau gwerth yn sgil ailbrisio 2005. O ganlyniad i hyn bu'r Cynllun Defnyddio CTB yn 2006/2007 yn canolbwyntio ar gynyddu'r defnydd gan bobl hŷn a oedd yn derbyn pensiynau'r wladwriaeth.

Ymrwymwyd £1 miliwn ychwanegol y flwyddyn i'r Cynllun am y tair blynedd o 2008-2011. Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael yr effaith orau bosibl, ehangwyd ef i gynnwys defnyddio HB. Ehangwyd cwmipas y Cynllun hefyd i dargedu teuluoedd â phlant yn ogystal â phobl hŷn a oedd yn derbyn pensiynau'r wladwriaeth.

Roedd y dyraniad yn seiliedig ar fformiwla Asesiad o Wariant Safonol (SSA)¹⁷ gyda'r swm o arian a ddyrannwyd i bob ALI yn amrywio o £20,000 (£30,000 yn 2006/2007) i

¹⁷ Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo SSAs yn defnyddio gwybodaeth sy'n adlewyrchu nodweddion gwahanol awdurdodau lleol Cymru, o awdurdodau gwledig Gogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru gyda'u hardaloedd tenau eu poblogaeth i awdurdodau trefol De-ddwyrain Cymru. Llunnir y fformiwla ar gyfrifiad seiliedig ar anghenion gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n adlewyrchu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol. Mae hefyd yn adlewyrchu costau cymharol darparu gwasanaethau cymharol rhwng yr awdurdodau gwahanol.

Ferthyr Tudful i £98,000 (£148,000 yn 2006/2007) i Gaerdydd. Mae Atodiad 3 yn nodi'r dyraniad o arian ar draws pob ALI ar gyfer y Cynllun ers 2006/2007.

Er mwyn caniatáu i ALLau ddefnyddio'u gwybodaeth am eu poblogaeth leol, ymateb i unrhyw nodweddion lleol arbennig a rhoi i ALLau yr hyblygrwydd llwyr ynghylch sut i ddefnyddio'r arian hwn, ni osododd Llywodraeth y Cynulliad unrhyw gyfyngiadau na pharmedrau ar sut y dylid gwario'r arian, gan benderfynu yn hytrach rhoi'r rhyddid i ALLau ddewis sut i ddefnyddio'u grantiau orau i gefnogi defnydd lleol. Fodd bynnag, gofynnwyd i ALLau lunio cynllun gweithredu i'w gymeradwyo ac adroddiad cynnydd terfynol a oedd yn amlygu effaith y Cynllun yn eu hardal.

Mae'r Bennod hon yn darparu trosolwg o weithgareddau defnyddio budd-daliadau yr ALLau, ar sail adolygiad o'r cynlluniau gweithredu a'r adroddiadau cynnydd a oedd ar gael ac mae'n cyflwyno rhai sylwadau ar eu heffeithiolrwydd a'u heffaith.

5.2 Trosolwg o Weithgareddau Cynllun 2006/07

Roedd adolygiad o'r adroddiadau a oedd ar gael ynghylch Cynllun 2006/2007 yn awgrymu bod yna sawl thema gyffredin.

Un thema a oedd yn ymddangos dro ar ôl tro yn y wybodaeth a oedd ar gael oedd cydweithio a chydweithredu ymhlith awdurdodau. Er enghraifft:

- Unodd chwe ALI (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Sir Fynwy, Powys a Thorfaen) i brynu meddalwedd newydd gan gyflenwr TG er mwyn mynd i'r afael ag e-fudd-daliadau. Mae hyn yn galluogi ALLau i gwblhau ffurflen electronig ar ran hawliwr gan gynnig mwy o effeithlonrwydd a phroses weinyddol gyflymach i hawlwyr, a defnyddiwyd y feddalwedd hon i helpu i oresgyn un o'r rhwystrau adnabyddus i ddefnyddio budd-daliadau - cwblhau ffurflenni cais. Ni fyddai'r fenter hon wedi cael ei gweithredu heb arian y Cynllun. Yn ogystal â hyn, bu'r cydweithredu hwn yn fodd o helpu'r ALLau dan

sylw i daro bargaen a sicrhau gostyngiad o 50% ar y costau cychwynnol, gan arbed cyfanswm o £350 mil. Roedd y costau penodol i'r ALLau yn amrywio yn ôl maint a nifer y defnyddwyr, ond derbyniodd pob ALI ostyngiad o 50%.

- Cydweithiodd chwe ALI yn y Gogledd (Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam) ar ymgyrch hysbysebu ar radio lleol yn y Gogledd.
- Daeth pedwar ALI (Ceredigion, Conwy, Castell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg) at ei gilydd i hyrwyddo defnyddio CTB trwy eu cyflenwr meddalwedd. O dan y Cynllun hwn, bu eu cyflenwr meddalwedd yn ffonio pawb a oedd yn talu'r dreth gyngor nad oedd yn hawlio CTB gan gynnig gwiriad budd-daliadau iddynt. Os darganfuwyd y gallent fod yn gymwys, gallai'r cwsmer gwblhau ffurflen dros y ffôn neu gellid anfon ffurflen atynt yn y post. Unwaith eto, yn sgil cydweithio ar draws ALLau, cafwyd rhai arbedion maint a rhai arbedion cost i'r ALLau.
- Gwelwyd tystiolaeth hefyd o weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill o'r llywodraeth, sefydliadau rhanddeiliaid perthnasol, fel cymdeithasau tai a gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol (VCS). Gweithiodd sawl ALI gyda'r Gwasanaeth Pensiwn i dargedu hawlwr pensiwn penodol nad oedd yn derbyn CTB ac i'w cynorthwyo i lenwi ffurflenni cais. Yn yr un modd, cydweithiodd sawl ALI yn ffurfiol neu'n anffurfiol gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol fel Cyngor ar Bopeth ac Age Concern. Mabwysiadodd ALLau ddulliau gweithredu gwahanol o fewn y partneriaethau hyn, gan adlewyrchu'r angen lleol a chysylltiadau a oedd yn bodoli eisoes. Mae yna sawl enghraifft sy'n werth tynnu sylw atynt:
 - Cynhaliodd Caerdydd gyfarfod gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, gan ofyn iddynt gyflwyno cynigion ar gyfer cynyddu'r defnydd o CTB. O ganlyniad i hyn, defnyddiodd ran o'i arian i ariannu gweithiwr cynghori ar les

rhan-amser. Atgyfnerthodd y gwaith gyda phartneriaid ymhellach trwy uno â Bro Morgannwg i wneud hyn. Aeth Caerdydd ati hefyd i hyfforddi gweithwyr cynghori ar les presennol Age Concern fel y gallent wirio ffurflenni cais CTB ar ran yr ALI.

- Ffurfiodd Sir Benfro bartneriaeth gyda Chyngor ar Bopeth o dan y Fenter Cyngor Da: Iechyd Da.
- Datblygodd Gwynedd gysylltiadau gweithio agosach yn fewnol, gyda'i hadran Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn allanol, gyda chymdeithasau tai. Aeth Rhondda Cynon Taf i'r afael â dull gweithredu tebyg.

Thema arall oedd yr amrywiaeth o weithgareddau a'r mathau o fentrau a weithredwyd gan ALLau er mwyn cynyddu'r niferoedd a oedd yn defnyddio budd-daliadau. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau wedi'u targedu a gweithgareddau marchnata ehangach.

- Cynhyrchodd sawl ALI ddeunydd hysbysebu a hyrwyddo. Roedd hyn yn cynnwys poster i'w harddangos mewn lleoliadau fel meddygfeydd, llyfrgelloedd cyhoeddus, swyddfeydd post a lleoedd cyhoeddus eraill tebyg; cafodd taflenni a oedd yn esbonio'r CTB a oedd ar gael eu cynnwys gyda biliau'r dreth gyngor a hysbysiadau rhent. Er enghraifft, cynhaliodd Casnewydd ymgyrch bostio ledled ardaloedd cod post penodol. Bu rhai ALLau yn cymryd rhan mewn 'sioeau teithiol' a/neu ddiwrnodau agored amrywiol ac yn cynnal cymorthfeydd budd-daliadau, gan gynnwys Gwynedd, a gynhaliodd cymorthfeydd mewn swyddfeydd cymdeithasau tai a neuaddau pentref.
- Defnyddiodd rhai ALLau eu harian i dargedu'r rhai a oedd yn anoddaf eu cyrraedd, fel grwpiau ethnig penodol. Er enghraifft, fel rhan o'i ddull o weithio mewn partneriaeth ffurfiol â sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, rhoddodd Caerdydd arian i'w Chanolfan Cyngor i Somaliaid lleol i gyflogi dau swyddog

cyngori dan hyfforddiant gyda sgiliau iaith Somali'iaidd er mwyn hyrwyddo'r defnydd o fudd-daliadau.

- Gwnaeth rhai ALLau newidiadau a/neu welliannau i'w gwefannau. Er enghraifft, diweddarodd Gwynedd ei gwefan leol i gynnwys cyfrifiannell budd-daliadau a fyddai'n helpu pobl i ganfod yn gyflym os gallent hawlio budd-daliadau.
- Datblygodd sawl ALI ddulliau gweithredu arloesol wedi'u targedu. Er enghraifft, datblygodd Abertawe gyfres o weithgareddau, gan gynnwys cydweithio â phenaethiaid ysgolion i ddosbarthu taflenni i blant ysgol fynd adref gyda nhw (a darparwyd y rhain mewn gwahanol ieithoedd yn ôl yr angen); targedodd Abertawe ymgyrch daflenni hefyd mewn wardiau â lefelau isel/dim defnydd o CTB. Darparodd Rhondda Cynon Taf hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff rheng flaen y cyngor.

Yn fyr, bu'r ALLau yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau. Roedd hanner ohonynt yn ymwneud â gwaith partneriaeth gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys chwe ALI yn cydweithio i wella a chyflymu'r broses ymgeisio i hawlwyd a phedwar ALI yn cydweithio i gynnal ymgyrch ffonio wedi'i thargedu. Cydweithiodd chwe ALI ar ymgyrch hysbysebu a gweithiodd nifer o ALLau gydag asiantaethau eraill a mudiadau gwirfoddol a chymunedol. Bu pob ALI yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd hysbysebu a marchnata a oedd yn cynnwys, er enghraifft, hysbysebu cyffredinol ar y radio a marchnata wedi'i dargedu'n fwy at wardiau cyngor penodol.

5.3 Trosolwg o Weithgareddau Cynllun 2008/2011

Mae adolygiad o'r cynlluniau gweithredu a'r adroddiadau cynnydd sydd ar gael ynghylch Cynllun 2008/2009 a 2009/2010 yn awgrymu bod gwaith yr ALLau o weithredu amrywiaeth eang o weithgareddau a gweithio mewn partneriaeth wedi parhau i fod yn thema gref, fel gyda Chynllun 2006/2007.

Un gwahaniaeth amlwg o Gynllun 2006/2007, a amlygwyd yng nghynlluniau gweithredu'r ALLau, oedd bod nifer o ALLau wedi dechrau mabwysiadu, neu wneud mwy o ddefnydd, o ddull gweithredu a oedd wedi'i dargedu, er bod y rhan fwyaf yn parhau i gynnal gweithgareddau marchnata ac ymwybyddiaeth cyffredinol ochr yn ochr â hyn.

Gwelwyd tystiolaeth hefyd fod ALLau yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r amrywiaeth a'r mathau o weithgareddau ac i gynllunio a gweithredu'r rhain. Roedd hi'n amlwg bod sawl ALI yn dechrau asesu effaith gweithgareddau penodol ac yn eu cynyddu neu'n eu lleihau fel y bo'r angen. Mae hwn yn ganfyddiad cadarnhaol am ei fod yn dangos bod yr ALLau yn dysgu o'u profiadau ac yn ymdrechu i gael y gorau o'u harian.

Gwelwyd fod mwy na hanner yr ALLau wedi recriwtio mwy o staff yn ystod Cynllun 2008/2009 a 2009/2010 tra bod eraill wedi aildddefnyddio'r adnoddau a oedd ganddynt eisoes. BTUOs¹⁸ oedd y staff newydd a recriwtiwyd yn bennaf, a oedd yn gweithredu mewn modd pwrpasol wedi'i dargedu i annog defnydd. Roedd y BTUOs yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau, fel defnyddio sganiau'r Gwasanaeth Pensiwn i ganfod pobl a allai fod â'r hawl i gael HB a/neu CTB, cynnal ymweliadau cartref gan ddarparu cymorth un-i-un i lenwi ffurflenni, a chysylltu'n gyffredinol â sefydliadau rhanddeiliaid eraill perthnasol i godi ymwybyddiaeth. Unwaith eto, roedd hwn yn ddatblygiad cadarnhaol a oedd yn dangos bod sawl ALI yn defnyddio'r arian i gynyddu staff rheng flaen a chynnig dull gweithredu a oedd yn canolbwyntio ar y cwsmer.

Nododd nifer sylweddol o ALLau eu bod wedi mynychu sesiynau codi ymwybyddiaeth, yn fewnol o fewn eu Hawdurdodau Lleol a gyda sefydliadau allanol. Er enghraifft, bu Sir Fynwy, Torfaen ac Abertawe yn cynnal fforymau landlordiaid chwarterol i hysbysu landlordiaid am HB a CTB. Nododd dros hanner yr ALLau eu

¹⁸ Roedd teitl y swydd yn amrywio o un ALI i'r llall.

bod wedi codi ymwybyddiaeth ymhlith staff rheng flaen y cyngor a nododd llawer bod hyn wedi gweithio'n dda o ran croesgyfeiriadau.

O ran gweithio mewn partneriaeth, roedd hi'n amlwg bod nifer o ALLau wedi cysylltu â'u Hawdurdodau Lleol cyfagos er mwyn rhannu gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau, ac wedi ceisio gweithredu mewn modd cydgysylltiedig. Dyma rai enghreifftiau:

- Cytunodd Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, a dderbyniodd £25 mil ac £20 mil (2.5% a 2% o gyfanswm yr arian) yn ôl eu trefn, i gydweithio er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r arian er lles cwsmeriaid ac er mwyn cael yr effaith orau bosibl. Gwnaethant recriwtio a rhannu BTUO, am amser cyfartal, a buont yn cydweithio ar weithgareddau marchnata ar y cyd.
- Bu Sir y Fflint a Wrecsam yn cynnal ymgyrch hysbysebu ar y radio ar y cyd ac yn 2008/2009 cyflogwyd BTUO ganddynt ar y cyd.
- Bu Sir Fynwy a Thorfaen yn cydweithio ar ymgyrch hysbysebu gyffredinol.
- Parhaodd y chwech ALI yn y Gogledd i gydweithio, gan ganolbwyntio ar ymgyrch hysbysebu ar y cyd ar fysiau lleol.
- Parhaodd nifer o ALLau i hyrwyddo'r defnydd o'r CTB trwy eu cyflenwr meddalwedd, ond roedd yna deimladau cymysg am lwyddiant y dull gweithredu hwn ac o ganlyniad, dim ond am flwyddyn yr ymglymodd rhai ALLau i'r cynllun hwn.

Parhaodd nifer o ALLau i weithio mewn partneriaeth agos â'r Gwasanaeth Pensiwn i wneud sganiau PC er mwyn canfod pensiynwyr nad oeddynt yn derbyn yr HB a/neu'r CTB. Bu eraill yn gweithio mewn partneriaeth â'r mudiadau gwirfoddol a chymunedol. Er enghraifft, parhaodd Ceredigion â'i phartneriaeth ag Age Concern, gan gredu bod y canlyniadau a'r effaith yn fwy na'r buddsoddiad cychwynnol.

Parhaodd ALLau i gynnal amrywiaeth o weithgareddau marchnata a hysbysebu. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebu cyffredinol, er enghraifft, mewn papurau newydd

lleol, ar fysiau ac ar bosteri ar gyfer meddygfeydd a lleoedd cyhoeddus tebyg. Yn ogystal â hyn, aeth sawl ALI i'r afael â dull hysbysebu a oedd wedi'i dargedu yn fwy a/neu hysbysebu a oedd yn targedu digwyddiadau allweddol.

Roedd enghreifftiau'n cynnwys ymgyrchoedd postio a anfonwyd gyda hysbysiadau rhent a/neu filiau'r Dreth Gyngor, erthyglau yn y wasg a oedd yn cyd-daro â'r newidiadau i'r HB a/neu'r CTB, fel y newid ym mis Tachwedd 2009 pan gafodd y Budd-dal Plant ei wahanu o'r taliadau HB a CTB.

Bu rhai ALLau, fel Caerdydd, yn gweithio gyda'u hunedau cyfathrebu mewnol (neu debyg) i lunio cynlluniau marchnata a chyhoeddusrwydd. Ceisiodd sawl ALI ddefnyddio storïau go iawn a oedd yn rhoi manylion incwm a'r union symiau a ddyfarnwyd a/neu yn dangos 'enwogion/hyrwyddwyr' ar ddeunydd hysbysebu er mwyn annog darpar hawlwr i hawlio.

Gwelwyd tystiolaeth o dargedu grwpiau penodol. Er enghraifft, defnyddiodd Sir Gaerfyrddin negeseuon testun i gyrraedd y rhai dan 25 oed, gan bwysleisio bod cymorth ar gael i deuluoedd ar incwm isel. Trefnodd Conwy i BTUO dargedu cwmnïau a oedd yn diswyddo staff a darparu cyngor ar fudd-daliadau.

Trefnodd y rhan fwyaf o ALLau ddigwyddiadau a chynhaliwyd 'cymorthfeydd budd-daliadau' gan rai mewn lleoliadau allweddol a/neu mewn digwyddiadau allweddol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r budd-daliadau sydd ar gael a chynnig canllawiau ar y broses ymgeisio mewn lleoliadau a oedd yn gyfleus i'r sawl a oedd yn hawlio. Er enghraifft, trefnodd Rhondda Cynon Taf Ganolfan Cynghori Symudol a oedd yn cynnig mynediad haws i gymorth i hawlwr posibl. Bu Ynys Môn yn cynnal Cymorthfeydd ar y cyd â sefydliadau statudol a rhai gwirfoddol a chymunedol.

Cyflwynodd Caerdydd a Sir Gaerfyrddin wasanaethau rhadffôn a oedd yn cael eu staffio gan BTUOs penodedig. Byddai staff BTUO y llinell yn penderfynu a fyddai hawlydd yn gymwys ac yn ei helpu i lenwi'r ffurflen gais, trwy ei chwblhau dros y ffôn, trefnu apwyntiad yn y swyddfa, trefnu ymweliad cartref neu drwy anfon y ffurflen at y

cwsmer i'w chwblhau. Rhoddwyd manylion y gwasanaeth hwn ar bob deunydd cyhoeddusrwydd a'i hyrwyddo'n eang ymhlith pob partner.

Yn fyr, parhaodd nifer o ALLau i fabwysiadu amrywiaeth eang o weithgareddau er mwyn annog ENRs i hawlio. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys cymysgedd o weithgareddau wedi'u targedu a rhai mwy cyffredinol, ac roedd yn amlwg bod yr ALLau yn dechrau asesu effaith y gweithgareddau gwahanol ac yn addasu eu dulliau gweithredu fel y bo'n briodol.

5.4 Crynodeb a Chasgliadau

Mae'n amlwg o adolygu'r cynlluniau gweithredu a'r adroddiadau cynnydd bod yr arian a ddarparwyd hyd yma i bob un o'r 22 ALI wedi'u galluogi i gynnal amrywiaeth eang o weithgareddau er mwyn annog pobl i ddefnyddio budd-daliadau. Mae tystiolaeth amlwg fod yr ALLau wedi defnyddio dull mwy pwrpasol ac wedi'i gynllunio o weithredu'r gweithgareddau i annog defnydd ers 2008, ac mae'n debygol fod yr ariannu tair blynedd a gynigiwyd wedi helpu yn hyn o beth ac yn arbennig o ran buddsoddi mewn adnoddau staff.

Rhoddwyd hyblygrwydd llawn i ALLau o ran eu gweithgareddau defnyddio gan eu galluogi i ddefnyddio gwybodaeth leol a darparu gweithgareddau a oedd wedi'u teilwra i'r anghenion lleol. Bu'r dull gweithredu hwn hefyd yn fodd i ALLau roi cynnig ar ddulliau gwahanol ac i ddarparu peth gwybodaeth ar beth, pam a sut yr oedd gwahanol ddulliau gweithredu yn gweithio'n well nag eraill. Roedd modd i'r ALLau hefyd weithio mewn partneriaeth/cydweithredu gyda sefydliadau rhanddeiliaid eraill, gan rannu gwybodaeth yn ogystal ag adnoddau.

I gloi, mae'r Cynllun wedi caniatáu i ALLau gynnal ymgyrch ragweithiol a parhaus er mwyn cynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r HB a CTB. Yn ogystal â hyn, mae'r Cynllun wedi rhoi'r cyfle i ALLau roi cynnig ar gyfres o ddulliau gweithredu, methodolegau a grwpiau targed er mwyn gweld pa rai sy'n gweithio'n fwyaf effeithiol.

6 Gweithredu'r Cynllun

6.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn darparu trosolwg o sut y gweithredwyd Cynllun 2006/2007 a 2008/2011 ac mae'n darparu crynodeb o'r ymgynghori rhwng cynrychiolwyr ALLau a staff cyllid Llywodraeth y Cynulliad.

6.2 Gweithredu Cynllun 2006/2007

Lansiwyd Cynllun CTB 2006/2007 mewn ymateb i'r gydnabyddiaeth nad oedd rhai pobl â hawl nad oeddynt yn derbyn CTB yn hawlio am resymau amrywiol, fel stigma, hunan-barch a diffyg ymwybyddiaeth. Lluniwyd y Cynllun er mwyn darparu mwy o arian i ALLau fel y gallent ganfod pobl â hawl nad oeddynt yn dderbynyddion gan eu tywys yn ofalus trwy'r broses ymgeisio am fudd-daliadau. Er mai cyfnod byr a neilltuwyd ar gyfer datblygu a gweithredu Cynllun Defnyddio CTB 2006/2007, cafodd arian ychwanegol a ddarparwyd groeso brwd gan Reolwyr Budd-daliadau'r ALLau.

Cynigiwyd arian grant i bob ALI i'w cynorthwyo gyda'r gwariant a fyddai'n digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol ac, fel y nodwyd eisoes, rhoddwyd hyblygrwydd llawn i'r ALLau ddefnyddio'u grantiau fel y gwelent yn dda i gefnogi defnyddio. Talwyd y grant mewn dwy ran ac roedd yn rhaid i ALLau ddarparu cyfriflenni o'r gwariant ar hysbysebu a hyrwyddo, staff a hyfforddiant, taliadau i drydydd partïon, a chamau gweithredu eraill (gyda disgrifiadau), yn ogystal â darparu data llwyth achosion chwarterol ar nifer yr hawlwyd CTB a'r lefelau gwariant a dderbyniwyd gan hawlwyd ar gyfartaledd yn ystod tri chwarter cyntaf 2006/2007 yn ogystal â thri chwarter cyntaf 2005/2006.

Oherwydd cyflymder gweithredu Cynllun 2006/2007, cafodd rhai ALLau anawsterau yn gwario'r arian o fewn yr amserlen ofynnol. Gofynnodd sawl ALI (Ynys Môn, Caerffili, Sir y Fflint, Gwynedd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Wrecsam) os

gallent gario rhan o'r arian grant a ddyrannwyd ar gyfer 2007/2008 ymlaen, gan nad oeddynt wedi llwyddo i'w wario o fewn yr amser a bennwyd. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys oedi wrth ddefnyddio adnoddau staff a sefydlu trefniadau partneriaeth gyda sefydliadau eraill. Yn ffodus, llwyddodd Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol i negodi ychydig o hyblygrwydd gyda'r Adran Gyllid i'r ALLau hynny, fel y gallent gyflwyno ceisiadau am y symiau nad oeddynt wedi ei gwario (circa £160k) ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol 2006/2007. Roedd hyn yn ddull gweithredu synhwyrol a phragmatig.

6.3 Gweithredu Cynllun 2008/2011

Roedd angen ystyried elfennau ychwanegol wrth weithredu Cynllun 2008/2011 am fod y cwmpas wedi'i ehangu i gynnwys HB ac er mwyn canolbwyntio ar bobl o oedran gweithio, ond golygai'r ystyriaethau a'r datblygiadau ar gyfer Cynllun 2006/2007 na fyddai Cynllun 2008/2011 yn rhy feichus.

Yn yr un modd â Chynllun 2006/2007, gofynnwyd i ALLau lunio cynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd ar weithgareddau a chawsant hyblygrwydd llawn i ddefnyddio'r arian fel ag y dymunent. Fodd bynnag, cafodd y gwaith o weithredu Cynllun 2008 ei gefnogi gan ddwy fenter allweddol:

- Lansiad swyddogol gyda chyflwyniadau gan Abertawe a Bro Morgannwg ar y gweithgareddau defnyddio budd-daliadau yr oeddynt wedi'u gweithredu hyd at y pwynt hwnnw.
- Sefydlu gweithgor i ymchwilio i'r rhwystrau i ddefnyddio budd-daliadau ac i amlygu arferion gorau a chynnig atebion ymarferol (Rhwystrau i Hawlio yng Nghymru, Gorffennaf 2008).

Roedd y mentrau hyn yn ddatblygiadau cadarnhaol dros ben. Trwyddynt, darparwyd cyfoeth o wybodaeth i ALLau gan helpu ALLau i ddatblygu eu gweithgareddau i lefel uwch na rhai 2006/2007. Buont hefyd yn help i bwysleisio'r negeseuon pwysig ar

bwysigrwydd datblygu gweithgareddau sy'n goresgyn y rhwystrau y gwyddir amdanynt a phwysigrwydd asesu effaith gweithgareddau.

6.4 Ymgynghori ar weithredu

O ran y weinyddiaeth a'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r Cynllun, rhoddwyd sylwadau cadarnhaol gan y rhan helaeth o'r ALLau. Pwysleisiodd un ALI bod y diffyg cyfyngiadau a'r hyblygrwydd a oedd yn gysylltiedig â gweithredu'r Cynllun wedi ei helpu i ddatblygu dulliau gweithredu arloesol.

Ni chafodd unrhyw ALI broblem gyda'r trefniadau adrodd a oedd yn ofynnol gan Llywodraeth y Cynulliad. Roedd enghreifftiau o sylwadau gan ALLau yn cynnwys "eithaf syml ac eglur"; "Doedd y broses o gael (yr arian) ac adrodd ddim yn un hirfaith"; "wedi gweithio'n dda"; "proses effeithlon".

Nododd rhai ALLau fod y costau a oedd yn gysylltiedig â gweithredu'r Cynllun yn fwy nag arian Llywodraeth y Cynulliad. Mewn rhai achosion, cafodd unrhyw orwario ei 'amsugno' gan yr Uned Fudd-daliadau o fewn yr ALI a'i gyfrifo fel rhan o'i hymdrechion statudol parhaus i annog pobl i ddefnyddio budd-daliadau, gyda rhai ALLau yn defnyddio costau ariannu a oedd yn gysylltiedig â Chynllun Lleihau'r Dreth Gyngor i bensiynwyr¹⁹ i gynorthwyo â chostau'r cynllun HB/CTB. Nododd rhai ALLau hefyd y costau anuniongyrchol yn sgil llwyth gwaith mwy ac felly, mwy o bwysau ar staff rheng flaen.

Cafwyd ymgynghori cadarnhaol â chynrychiolwyr o Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad, o ran gweinyddu a gweithredu'r Cynllun. Pwysleisiwyd fod y gwaith o weithredu'r Cynllun a'r prosesau cysylltiedig yn eithaf syml ac yn debyg i'r rheiny a geir mewn cynlluniau grant eraill. Nodwyd fod y Cynllun wedi'i lunio'n arbennig i ddarparu'r hyblygrwydd mwyaf posibl i ALLau er mwyn iddynt allu

¹⁹ Roedd hyn yn £5 mil i bob ALI.

defnyddio'u gwybodaeth leol, eu partneriaethau a'u cysylltiadau a diwygio gweithgareddau cyfredol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, yn hytrach na chael gweithgareddau a bennwyd neu a ragnodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Cynlluniwyd y trefniadau adrodd yn fwriadol i fod yn gymesurool â'r ariannu tra'n sicrhau cywirdeb ac atebolrwydd clir. Er i hyn leihau'r baich gweinyddol ac adrodd ar ALLau, roedd yn golygu bod angen i'r ALLau adrodd ar eu hallbynnau mewn ffyrdd gwahanol ac felly roedd casglu gwybodaeth i'w monitro yn her.

Ni nodwyd unrhyw awgrymiadau sylweddol o ran elfennau o'r prosesau y gellid eu gwella. Roedd un awgrym bach yn ymwneud â gosod yr un amser cau ar gyfer derbyn ceisiadau grant ac ar gyfer llunio'r cynlluniau gweithredu, gan fod ALLau yn derbyn rhan gyntaf eu grant cyn cyflwyno cynllun gweithredu ar hyn o bryd.

6.5 Crynodeb a Chasgliadau

Cadarnhaodd ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol fod pob un ohonynt yn fodlon â'r gwaith cyfredol o weinyddu a gweithredu'r Cynllun. Mae'n amlwg bod y prosesau cysylltiedig yn debyg i gynlluniau grant tebyg ac nid oeddynt yn peri anawsterau i Lywodraeth y Cynulliad na'r ALLau.

Cafodd gweithrediad Cynllun 2008-2011 ei gynorthwyo gan fentrau ymchwil a gwybodaeth a oedd yn ddatblygiadau cadarnhaol ac yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad wedi dysgu yn sgil sut y gweithredwyd cynllun 2006/2007 ac wedi ymrwymo i gynorthwyo ALLau.

Fodd bynnag, mae'r prinder templedi adrodd safonol yn her i'r gwaith o fonitro effaith gyffredinol y Cynllun ar ddefnyddio budd-daliadau ac o fesur effaith a llwyddiant gweithgareddau penodol o gymharu â gweithgareddau eraill. Awgrymir y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i fonitro a chofnodi canlyniadau yn yr un modd ar draws pob ALI er mwyn gweld effaith lawn pob gweithgaredd a gallai'r gwersi a fyddai'n cael eu dysgu yn sgil hyn gyfrannu at ehangu'r amcan o gynyddu'r defnydd.

7 Ymgynghori â Rhanddeiliaid

7.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghori â chynrychiolwyr o'r ALLau ac â sefydliadau rhanddeiliaid eraill.

7.2 Ymgynghori ag ALLau

Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr o bob un o'r 22 ALI. Rheolwyr Budd-daliadau neu debyg yr ymgynghorwyd â nhw'n bennaf, a oedd â chyfrifoldeb dros oruchwylio'r Cynllun.

Holwyd cynrychiolwyr ynghylch y canlynol:

- Trosolwg o'r gweithgareddau defnyddio budd-daliadau yn eu ALI.
- Y rhesymeg a'r rhesymau dros fabwysiadu gweithgareddau a dulliau gweithredu penodol ac a oeddynt wedi ystyried unrhyw ymchwil perthnasol, e.e. yr adroddiad Rhwystrau i Hawlio yng Nghymru, neu ganllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- Canlyniadau ansoddol y dulliau gweithredu cyfredol a sut y cawsant eu mesur ac a oedd yn bosibl canfod beth oedd yn ychwanegol a beth allai fod wedi dod yn sgil ffactorau eraill, fel y dirwasgiad, er enghraifft.
- Beth oedd wedi gweithio'n dda a heb weithio cystal; a beth gellid fod wedi ei wneud yn wahanol a/neu'n well mewn cynlluniau yn y dyfodol.
- Yr heriau a/neu'r rhwystrau i gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio budd-daliadau.
- Tystiolaeth neu farn ar a yw'r cynllun a'i weithgareddau'n cael effaith wahanol ar grwpiau gwahanol o bobl, e.e. rhieni (sengl), pobl hŷn ac ati.
- Unrhyw effeithiau ychwanegol (os o gwbl), h.y. effeithiau/manteision heb fod yn rhai ariannol e.e. gwell gweithio mewn partneriaeth, gwell darpariaeth o

wasanaethau, cysylltiadau cwsmeriaid, gweithio gyda grwpiau penodol ac ati.

- Y costau a oedd yn gysylltiedig â gweithredu'r cynlluniau ym mhob ALI a'r farn ar ba mor dda y cafodd y cynllun ei weinyddu.
- Manylion unrhyw adborth gan hawlwyd a gafwyd/gofnodwyd.
- Manylion cynlluniau sefydliadau/tebyg eraill sy'n gweithredu yn yr ardal.
- Barn ar ddulliau eraill ar wahân i'r Cynllun/ei weithgareddau, h.y. barn ar beth fyddai'n digwydd pe na bai'r Cynllun yn bodoli; ac a oedd unrhyw orgyffwrdd â gweithgareddau eraill.

Amlygwyd amrywiaeth o themâu trwy ymgynghori â chynrychiolwyr o'r ALLau a thrafodir y rhain isod. Ceir sylwadau ar sut y gweithredwyd y Cynllun ym Mhennod 6.

7.3 Rhesymeg

Fel y nodwyd ym Mhennod 5, cafwyd amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws ALLau ac roedd y rhesymeg a'r rhesymau dros fabwysiadu'r gweithgareddau penodol yn amrywio rhwng un awdurdod a'r llall.

Roedd sawl ALI wedi cyfeirio at yr adroddiad Rhwystrau i Hawlio yng Nghymru a chanllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac wedi ystyried y syniadau a'r awgrymiadau ynddynt. Y farn gyffredinol, oedd bod y canllawiau a oedd ar gael yn ddefnyddiol, er i un ALI awgrymu bod canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn weddol hen, ac yn dyddio'n ôl i 2004.

Defnyddiodd rhai ALLau ymchwil a chanllawiau ychwanegol. Amlygodd rhai ALLau (Caerdydd, Sir Ddinbych) ganllawiau a gynhwyswyd mewn adroddiadau eraill fel *Take-up the Challenge, The role of local services in increasing take up of benefits and tax credits to reduce child poverty* gan y Grŵp Tlodi Plant (Trysorlys Ei

Mawrhydi). Er enghraifft, nododd Caerdydd fod y canllawiau hyn wedi rhoi mwy o syniadau iddo, fel cysylltu â chofrestryddion genedigaethau a marwolaethau lleol.

Nododd rhai ALLau pa mor ddefnyddiol oedd y wybodaeth a gafwyd yn lansiad swyddogol Cynllun 2008, gan nodi sut roeddynt wedi defnyddio'r syniadau a gyflwynwyd gan Abertawe a Bro Morgannwg. Er enghraifft, ar sail profiad Abertawe, darparodd Torfaen hyfforddiant sylfaenol ar fudd-daliadau i'w gynghorwyr ar y Dreth Gyngor ac roedd ei Dîm Budd-daliadau bob amser yn adrodd canlyniadau atgyfeiriadau i'r cynghorwyr ar y Dreth Gyngor, gan amlygu manteision gweithio mewn partneriaeth/ar y cyd.

Gwelwyd enghreifftiau clir o ALLau yn rhannu gwybodaeth a syniadau, yn anffurfiol, naill ai trwy weithgorau neu trwy rannu gydag ALLau eraill. Roedd hi'n amlwg bod ALLau yn cyfathrebu â'i gilydd, gan edrych ar waith ei gilydd ac ystyried a fyddai/allai hynny weithio i'w ALI nhw.

Byddai hyn yn awgrymu bod yr ALLau wedi rhoi croeso brwd i'r mentrau a ddatblygwyd i gynorthwyo'r gwaith o weithredu Cynllun 2008/2009 a'u bod wedi effeithio ar eu gweithgareddau defnyddio budd-daliadau dilynol.

Roedd thema arall yn ymwneud â dysgu, naill ai trwy ddefnyddio profiadau a gwybodaeth staff budd-daliadau, gwybodaeth am waith ar fudd-daliadau a/neu ddysgu o weithgareddau defnyddio blaenorol/Cynlluniau cynharach. Amlygodd sawl ALI y blynyddoedd sylweddol o brofiad a oedd gan eu staff o fudd-daliadau. Awgrymodd rhai ALLau eu bod wedi bod yn gysylltiedig â rhai gweithgareddau defnyddio budd-daliadau cyn i'r arian ddod gan Lywodraeth y Cynulliad, a bod y profiadau hyn wedi rhoi pwyntiau dysgu gwerthfawr ac arferion da iddynt.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn enghraifft o hyn. Pwysleisiodd Pen-y-bont ar Ogwr ei fod wedi dysgu o'i weithgareddau defnyddio cychwynnol yn 2006/2007 lle'r oedd wedi mabwysiadu dull gweithredu generig a lle'r oedd yr ymatebion a'r canlyniadau wedi

bod yn siomedig. Gwelwyd fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi mabwysiadu dull hollol wahanol, llawer mwy pwrpasol o weithredu yng Nghynllun 2008/2009 a 2009/2010 a oedd yn fwy llwyddiannus, fel y gwelwyd o'r budd-daliadau a ddyfarnwyd.

Roedd dysgu ac asesu gweithgareddau'n barhaus yn thema gyffredin arall. Cyflwynodd sawl ALL enghreifftiau o sut yr oeddynt yn parhau i werthuso eu gweithgareddau a phennu a oedd hi'n werth parhau â gweithgareddau penodol. Er enghraifft:

- Nododd Casnewydd fod ei ddull gweithredu wedi datblygu dros dair blynedd y cyfnod ariannu, gan symud o ymgyrchoedd postio cyffredinol i dargedu gweithgareddau'n fwyfwy.
- Penderfynodd Caerdydd nad oedd hysbysebu ar fysiau wedi llwyddo fel ag yr hoffai a rhoddwyd y gorau i'r arfer yn y blynyddoedd dilynol.
- Nododd Sir Benfro fod ei dîm yn canfod syniadau newydd ac arloesol bob blwyddyn yn hytrach nag ailadrodd gweithgareddau o hyd. Roedd hyn yn cynnwys targedu gwahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd, fel trawswirio gweithgareddau gyda deiliaid bathodynau glas, er enghraifft, a gyda'r sawl a oedd â'r hawl i deithio'n rhatach.
- Awgrymodd Abertawe fod ei strategaeth gyffredinol wedi parhau'n gyson, ond bod ei weithgareddau wedi newid am ei fod am "gadw ei ymgyrch yn ffres" ac os nad oedd dulliau gweithredu yn llwyddo cystal â'r disgwyl, ni fyddent yn cael eu hailadrodd. Er enghraifft, cafodd arian ei wario ar hysbysebu mewn sinemâu ond ychydig o ymateb a gafwyd, felly rhoddwyd y gorau iddo. Nododd Torfaen mai prin oedd yr ymateb a gafodd yntau hefyd i hysbysebu mewn sinemâu.

Byddai hyn yn awgrymu bod nifer o ALLau wedi bwrw iddi'n ddiwyd i geisio cael gafael ar ymchwil a gwybodaeth i gefnogi eu gweithgareddau defnyddio ac wedi sicrhau bod eu camau gweithredu'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi monitro'r canlyniadau ac addasu eu gweithgareddau fel y bo'n briodol.

Nododd rhai ALLau mai cyfrifoldeb yr ALLau oedd bod yn arloesol a chyrraedd cwsmeriaid nad oedd eraill yn eu cyrraedd (h.y. y rhai anoddaf i'w cyrraedd). Er mwyn gwneud hynny, roedd nifer wedi troi at randdeiliaid eraill o fewn eu ALLau yn ogystal â rhanddeiliaid mewn sefydliadau fel Age Concern a Chyngor ar Bopeth. Defnyddiwyd y cyfarfodydd hyn i drafod syniadau yn ogystal â hyrwyddo a chodi proffil y Cynllun. Mewn rhai achosion, roedd cysylltu â sefydliadau allanol wedi arwain at weithio'n ffurfiol mewn partneriaeth.

Roedd sawl ALI wedi penderfynu buddsoddi mewn BTUO penodedig (neu dîm Defnyddio Budd-daliadau mewn ALLau mwy o faint) a fyddai'n brif ddolen gyswllt neu'n gyswllt arbennig ar gyfer derbynyddion budd-daliadau (a oedd yn dderbynyddion wedi'u targedu'n bennaf). Defnyddiwyd y dull gweithredu hwn fel ffordd o gynorthwyo'r rhai mwyaf anghenus trwy'r broses ymgeisio.

Yn benodol, roedd Blaenau Gwent a Merthyr Tudful yn cydnabod manteision y dull gweithredu hwn, ond roeddynt yn cydnabod hefyd nad oedd eu dyraniad ariannol yn eu galluogi i wneud hyn. Felly, cytunwyd i ymuno â'i gilydd a chyfuno eu harian er mwyn cael yr effaith orau bosibl. Bu'n fodd i'r ddau ALI recriwtio BTUO penodedig a oedd yn gweithio'n rhan-amser i'r naill a'r llall.

Mabwysiadodd sawl ALI ddull gweithredu a oedd yn gyfuniad o weithgareddau generig ac wedi'u targedu, a oedd yn cynnwys hysbysebu'n bennaf, yn arbennig ar wefan yr ALLau yn ogystal â thargedu ardaloedd o amddifadedd, er enghraifft, neu grwpiau allweddol o dderbynyddion. Fodd bynnag, roedd nifer yn cydnabod bod dulliau gweithredu mwy generig yn arwain at anawsterau wrth gael gafael ar ganlyniadau, yn arbennig yn achos hysbysebu cyffredinol. Cafodd hyn ei ddatrys gan rai trwy ofyn i bob ymgeisydd dilynol nodi ei resymau/resymeg dros wneud ei gais cychwynnol. Mewn ALLau eraill, nid oedd modd gwneud hyn oherwydd prinder adnoddau, er bod y rhan fwyaf yn cydnabod bod yna fanteision amlwg dros fesur y defnydd ac awgrymodd rhai eu bod yn bwriadu canolbwyntio mwy ar hyn wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Yn gyffredinol, nododd y rhan fwyaf o ALLau amrywiaeth o resymau dros ymgymryd â'r dulliau gweithredu a fabwysiadwyd ganddynt.

7.4 Canlyniadau

Cydnabu sawl ALI yr anawsterau wrth geisio mesur yn gywir fesurau ansoddol eu dulliau gweithredu cyfredol a blaenorol, yn arbennig wrth geisio mesur effaith neu ddiffyg effaith y dirwasgiad.

Nodwyd fod y llwyth achosion wedi cynyddu mewn sawl ALI, ond derbyniwyd fod cyfran anhysbys ohono o bosibl o ganlyniad i'r dirwasgiad h.y. gallai fod wedi digwydd beth bynnag. Mewn rhai achosion, credai ALLau mai prin fu effaith y dirwasgiad gan eu bod â lefelau uchel o ddiweithdra a lefelau uchel o ddefnyddio budd-daliadau'n hanesyddol, felly roeddynt yn hyderus i briodoli'r defnydd ychwanegol i'w gweithgareddau defnyddio. Cydnabu rhai ALLau wrth edrych yn ôl, y byddai wedi bod yn fanteisiol monitro a chofnodi pam i'r derbynyddion budd-dal newydd ymgeisio. Mae hwn yn sylw defnyddiol ac yn fater y dylai'r ALLau ei ystyried ar gyfer gweddill Cynllun 2010/2011.

Ar bwynt mwy cadarnhaol, roedd rhai ALLau yn hyderus bod eu gweithgareddau defnyddio wedi llwyddo gan eu bod wedi defnyddio dull gweithredu a oedd wedi'i dargedu (mwy) ac, o ganlyniad, eu bod wedi canfod nifer o dderbynyddion newydd a wnaeth geisiadau llwyddiannus. Er enghraifft, cyflogodd Ynys Môn BTUO penodedig a lwyddodd i sicrhau dros £235,000 o fudd-daliadau i drigolion lleol. Mae hwn yn swm adennill sylweddol ar y buddsoddiad ac yn gymhareb gwerth am arian o 1:10.

7.5 Beth weithiodd yn dda a ddim cystal

Nodwyd nifer o feysydd a gweithgareddau a oedd yn gweithio'n dda.

Roedd gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth yn thema gyffredin. Roedd hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag adrannau mewnol ALLau a oedd yn bwysig o ran codi ymwybyddiaeth a chroesgyfeirio a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill o'r llywodraeth, fel y Gwasanaeth Pensiwn, canolfannau gwaith lleol a mentrau eraill gan y llywodraeth fel Cymunedau yn Gyntaf yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

Nododd un ALI bod gweithio mewn partneriaeth wedi arwain at well cydweithredu, felly roedd yn "ddull llai cystadleuol gyda mwy o naws tîm". Gallai sawl ALI briodoli'r canlyniadau penodol i weithio mewn partneriaeth. Nododd Caerdydd bod sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda phartneriaid eraill wedi cael effaith luosog oherwydd gallai sefydliadau o'r fath gyrraedd sawl gwahanol fath o bobl a mwy ohonynt.

Nododd rhai ALLau fod cyflwyno'r Cynllun a'i arian dros dair blynedd wedi galluogi i ALLau gynnal mwy o gynlluniau ac i fuddsoddi (yn hirdymor) mewn adnoddau staff. Roedd hyn yn arbennig o bwysig gan fod nifer wedi nodi, o ystyried y rhwystrau cysylltiedig, a'r angen i ddefnyddio dull gweithredu wedi'i dargedu'n fwy a chynorthwyo'r rhai anoddach i'w cyrraedd, bod y 'cyswllt personol' yn bwysig iawn. Mynegwyd bod cael staff defnyddio budd-daliadau rhagweithiol yn fwy effeithiol na chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol.

Nodwyd bod defnyddio offer fel cyfrifianellau budd-daliadau a chyfrifyddion hwylus yn ddulliau gweithredu llwyddiannus gan eu bod yn helpu pobl i wybod a oeddynt yn gymwys ai peidio gan olygu, felly, nad oedd rhaid i bobl fynd trwy'r broses lafurus o lenwi ffurflenni. Roedd hefyd yn golygu nad oedd amser staff yn cael ei wastraffu'n cynorthwyo pobl i gwblhau ffurflenni o'r fath na'n gwirio a dilysu'r wybodaeth ar gyfer cymhwysedd.

Nododd nifer o ALLau nad oedd dulliau mwy generig, fel hysbysebu, ymgyrchoedd postio a chymorthfeydd yn dueddol o weithio cystal. Nodwyd bod hysbysebu ar fysiau'n opsiwn drud ac na sbardunodd rhyw lawer o ymholiadau. Bu rhai

gweithgareddau'n fwy effeithiol mewn rhai ALLau nag mewn eraill, er na wyddys y rheswm dros hynny.

7.6 Heriau

Gwnaeth yr ymgylgoreion nifer fawr o sylwadau ar yr heriau a oedd yn gysylltiedig â chynyddu'r defnydd o fudd-daliadau. Nododd sawl ymgynghorai fod yna heriau yn ymddangos yn sgil yr amrywiaeth o rwystrau sy'n gysylltiedig â defnyddio budd-daliadau. Dyma rai o'r heriau:

- Y stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau, yn arbennig i bobl hŷn. Roedd un ALI wedi ceisio goresgyn hyn trwy annog staff i gymryd rhan mewn fforymau rhanddeiliaid lleol. Er enghraifft, mae BTUO Blaenau Gwent a Merthyr Tudful yn aelod o fforwm i bobl hŷn sy'n helpu i leihau unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau. Mae hefyd yn caniatáu i'r BTUO hyrwyddo'r dull 'cyswllt personol' a fabwysiadwyd gan y ddau ALI hyn. Yn ddiddorol, awgrymodd un ALI fod pobl hŷn yn fwy na bodlon derbyn credydau pensiwn (lle'r oeddynt yn gymwys) ond yn llai bodlon hawlio budd-daliadau. Y farn oedd na fyddai defnyddio'r gair "ad-daliad" yn lle "budd-dal" yn cael rhyw lawer o effaith ar ymddygiad. Awgrymwyd bod y stigma'n lleihau wrth i gost y dreth gyngor olygu "na allai pobl fforddio i beidio â'i hawlio". Awgrymwyd hefyd nad oedd nifer o bobl ifanc yn cysylltu hawlio budd-daliadau gydag unrhyw stigma.
- Canolbwyntiodd rhai ALLau ar daflenni/ymgyrchoedd postio yn hytrach na stondinau mewn digwyddiadau cyhoeddus er mwyn diogelu preifatrwydd a helpu i oresgyn unrhyw faterion o ran stigma. Yn yr un modd, defnyddiodd rhai ALLau "hyrwyddwr" pensiynwyr lleol mewn gwaith hysbysebu lleol er mwyn cyflwyno ochr ddynol a phersonol, lleihau stigma a hyrwyddo'r defnydd o fudd-daliadau mewn modd cadarnhaol.
- Y farn oedd bod hyd y ffurflenni'n llethu pobl a bod angen tystiolaeth rhy bersonol, gyda'r awgrym fod rhai derbynyddion yn gyndyn i ddatgelu

gwybodaeth bersonol fel faint o gynilion sydd ganddynt. Roedd nifer o'r ALLau wedi ceisio goresgyn rhai o'r rhwystrau gweinyddol trwy gynnig gwasanaeth wyneb-yn-wyneb, yn aml yng nghartref y derbynnydd. Fodd bynnag, nododd rhai ALLau bod gwasanaeth wyneb-yn-wyneb penodol yn faich ar adnoddau. Roedd ALLau eraill wedi ystyried a diwygio'r ffurflenni cais, ond gan nodi bod angen cydbwysu'r angen i gynllunio ffurflenni symlach a byrrach gyda maint a lefel y wybodaeth yr oedd ei hangen i wirio cymhwysedd ac i gyfrifo'r swm a oedd yn ddyledus.

- Y farn oedd bod y trothwy cynilion o £16,000 yn rhy isel. Yn ddiddorol, yng Ngogledd Iwerddon, cynyddodd y weinyddiaeth ddatganoledig y trothwy ar gyfer gostyngiad yn y dreth i bobl hŷn i £50,000. Mae hyn wedi cynyddu nifer y pensiynwyr sy'n gymwys ac wedi cynyddu'r defnydd o fudd-daliadau.
- Awgrymodd un ALI y byddai swm y budd-dal i rai pobl yn eithaf isel ac felly "ni fyddai llawer yn ffwdanu".
- Nodwyd y diffyg rhannu data, a'r anallu i rannu data fel rhwystr a gwelwyd rhannu data fel "un o'r rhwystrau hawddaf i'w oresgyn".
- Her arall oedd pennu a oedd yna nifer o dderbynyddion posibl, fel yr awgrymwyd gan amcangyfrifon yr Adran Gwaith a Phensiynau. Credai rhai ALLau nad oedd y nifer o bobl â hawl nad oeddynt yn dderbynyddion mor uchel â hynny ac, os oedd, yna byddai cryn her yn eu hwynebu o ran eu hadnabod a'u targedu a'u hannog i ddefnyddio budd-daliadau.
- Nododd un ALI yr heriau a'r anawsterau o ran cysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd. Nododd un mai'r her i'r dyfodol oedd targedu grwpiau newydd gan wneud hynny mewn ffyrdd a oedd yn fwyfwy arloesol nad oeddynt wedi'u gwneud o'r blaen.
- Nododd sawl ALI yr heriau o fynd i'r afael â'r gwaith ychwanegol a fyddai'n dod yn sgil llwyddiant eu gweithgareddau defnyddio.

7.7 Effaith Wahanol

Roedd y sylwadau ar effaith y Cynllun ar wahanol grwpiau cymdeithasol yn seiliedig ar brofiadau i raddau helaeth ac yn tueddu i adlewyrchu'r math o weithgareddau a gynhaliwyd.

Nododd sawl ALI bod y Cynllun wedi cael effaith fwy cadarnhaol ar bobl hŷn, sy'n adlewyrchu'r dull wedi'i dargedu a weithredwyd, neu sy'n dangos eu bod yn grŵp cleient mwy hygyrch. Nododd rhai ALLau sut yr oedd gweithgareddau gwahanol wedi llwyddo'n well gyda rhai grwpiau. Er enghraifft, nododd un ALI bod hysbysebu ar y radio wedi gweithio'n dda gyda phobl ifanc. Nododd sawl ALI nad oedd gweithgareddau technolegol, gan gynnwys defnyddio gwefannau'r ALLau, wedi llwyddo cystal gyda phobl hŷn. Llwyddodd Sir Ddinbych i dargedu ei phoblogaeth heb basbort, h.y. y rheiny heb gysylltiad â budd-daliadau, trwy ymgyrch bostio'n hyrwyddo'r HB a'r CTB fel budd-daliadau i bobl 'mewn gwaith' a gan ddarparu ystod o enghreifftiau o wahanol amgylchiadau i ddangos lefelau posibl y budd-daliadau.

7.8 Effeithiau Ychwanegol

Nodwyd nifer o effeithiau ychwanegol mewn perthynas â'r Cynllun. Roedd y rhain yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth a gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau.

Yr effaith ychwanegol a welwyd amlaf oedd y gweithio'n well a gafwyd gyda phartneriaid a'r cysylltiadau ag asiantaethau a sefydliadau eraill a gydag adrannau eraill o fewn yr ALLau a fyddai "er budd i'r cleient yn y pen draw".

Nododd un ALI ei fod bob amser wedi bod â chysylltiadau gweithio cadarnhaol gyda sefydliadau trydydd parti, ond bod "cydweithio wedi gwella cysylltiadau, yn arbennig gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, cymdeithasau tai ac Age Concern".

Nodwyd hefyd y gweithio mewn partneriaeth effeithiol ar draws ALLau. Er enghraifft, nododd Sir Benfro na fyddai wedi gallu fforddio ateb i e-fudd-daliadau na sicrhau ymglymiad ei gyflenwr meddalwedd heb feithrin partneriaeth gydag ALLau eraill. Nododd Tor-faen ei waith partneriaeth gyda Sir Fynwy.

Roedd asiantaethau/sefydliadau eraill a nodwyd yn benodol yn cynnwys y Gwasanaeth Pensiwn, Canolfannau Gwaith Lleol a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol fel Cyngor ar Bopeth ac Age Concern.

Cyfeiriodd sawl ALI at y ffaith eu bod yn aelodau o Grwpiau Uchafu Cyflogau (MIGs) neu grwpiau cynhwysiant ariannol, a oedd yn hwyluso ymhellach y gwaith o fagu perthynas a chysylltu â rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â chynnig fforwm i rannu syniadau.

Gwella darpariaeth y gwasanaethau oedd yr effaith ychwanegol fwyaf cyffredin nesaf. Gwelwyd hyn naill ai ar ffurf gwasanaethau cynt a mwy effeithlon i dderbynyddion budd-daliadau, a/neu ar ffurf dull gweithredu cyfunol/gwasanaeth cyfannol i wasanaethau a chyngor ALLau a/neu BTUOs. Er enghraifft, trwy ddatblygu cyfrifiannell budd-daliadau/offeryn cyfrifo cyflym, roedd modd i staff budd-daliadau weld yn gyflym a oedd rhywun â hawl i dderbyn HB/CTB heb orfod cwblhau'r ffurflen gais yn llawn. Defnyddiodd chwe ALI rhywfaint o'u harian i helpu i ddatblygu ffurflenni cais electronig. O ran dull gweithredu cyfunol neu gynnig cyfannol, byddai unrhyw un a oedd yn gwneud ymholiad i'r ALI ynghylch tai yn cael ei hysbysu am unrhyw HB/CTB perthnasol neu'n cael ei gyfeirio at y Tîm HB/CTB yn syth. Roedd BTUOs penodedig yn gallu cynnig dull personol o weithredu a oedd wedi'i deilwra er mwyn diwallu anghenion derbynyddion budd-daliadau a'u cynorthwyo i lenwi ffurflenni.

Nododd un ALI mai effaith arall oedd "effaith ganlyniadol" derbynyddion budd-daliadau yn cael arian i dalu am nwyddau a gwasanaethau penodol fel rhent tai, a

oedd yn effeithio ar sefydlogrwydd ariannol sefydliadau fel y sector rhentu preifat (a llai o daliadau hwyr ac ati).

Un fantais ychwanegol, er mai dim ond un ALI a'i nododd, oedd cyflogi staff Defnyddio Budd-daliadau'n uniongyrchol, a oedd yn darparu mwy o gyfleoedd cyflogi.

Yn olaf, mae cyfranogiad Caerffili yn y Cynllun a'r cynnydd mewn cyfraddau defnyddio sydd wedi dod yn sgil hyn, wedi arwain at gyfres o welliannau wedi'u targedu ar draws wyth maes gwasanaeth, sydd wedi diogelu £1.9 miliwn i Gaerffili o'r Cytundeb Gwella ar gyfer 2009/2010. Roedd yr arian atodol hwn yn ganlyniad cadarnhaol ac mae'n dangos gwerth am arian ychwanegol ar gyfer grant defnyddio budd-daliadau Caerffili.

7.9 Adborth gan Hawlwyr

Ar y cyfan, nid oedd y mwyafrif o ALLau wedi ceisio cael adborth ffurfiol penodol gan gwsmeriaid ynghylch defnyddio budd-daliadau nac wedi'i gofnodi, ond nododd nifer eu bod wedi cael adborth anffurfiol fel llythyrau a chardiau gan gwsmeriaid ac roedd y mwyafrif o'r rhain yn gadarnhaol. Nododd rhai ALLau adborth ar sail profiad pam na wnaeth pobl hawlio. Roedd y rhesymau hyn yn cynnwys diffyg cymhwysedd (oherwydd cyfyngiadau cyfalaf), preifatrwydd, stigma a'r "ffwdan" a oedd yn gysylltiedig â gwneud cais, yn aml am symiau bach iawn.

Mae nifer bychan o ALLau wedi ceisio cael adborth penodol gan hawlwyrr budd-daliadau ar ffurf arolygon cwsmeriaid. Mae'r rhain yn cynnwys Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr a Sir Gaerfyrddin.

- Roedd canlyniadau arolygon Ynys Môn yn awgrymu na fyddai bron i hanner y derbynyddion y cysylltodd y BTUO â nhw'n uniongyrchol wedi gwneud ymholiad yn bersonol a nododd nifer bod y cyswllt personol â BTUO penodedig

wedi'u helpu. Roedd hyn yn dystiolaeth o effaith gadarnhaol y dull gweithredu a ddewiswyd gan Ynys Môn.

- Roedd arolwg Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio ar rwystrau a oedd yn atal pobl rhag hawlio, a gwelwyd bod stigma, cymhlethdod a thybiaethau ynglŷn â chymhwysedd yn rhwystrau sylweddol. Mae hyn wedi peri i Sir Gaerfyrddin archwilio ei weithgareddau marchnata a hyrwyddo ac, er enghraifft, i ddefnyddio iaith gadarnhaol fel "hawl" yn hytrach na "budd-dal" ac i gyfeirio at "wneud penderfyniadau ynglŷn â rheoli'ch arian" yn hytrach na "gwneud cais", yn ogystal â defnyddio cyfrifyddion hwylus i ddangos a yw rhywun yn gymwys a'r symiau ariannol posibl.

7.10 Pobl eraill yn yr Arena hon

Er y cydnabuwyd fod yna sefydliadau eraill yn gysylltiedig â gweithgareddau defnyddio budd-daliadau (fel Cyngor ar Bopeth, Cynllun Cymorth Dŵr Cymru, Age Concern ac ati) nodwyd bod eu gweithgareddau defnyddio budd-daliadau yn ymatebol ar y cyfan, tra bod arian Llywodraeth y Cynulliad wedi galluogi nifer o ALLau i fynd i'r afael â dull a oedd wedi'i dargedu'n fwy pwrpasol. Yn ogystal â hyn, mewn rhai achosion, defnyddiodd ALLau beth o arian Llywodraeth y Cynulliad i gynorthwyo gweithgareddau defnyddio budd-daliadau mewn sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Yn ogystal â hyn, sicrhodd nifer o ALLau y gallai eu BTUOs brosesu ceisiadau gan sicrhau proses gyflym i hawl wyr.

Roedd gan rai ALLau swyddogion hawliau lles²⁰ wedi'u cyflogi mewn adrannau eraill, fel adrannau gwasanaethau cymdeithasol neu unedau hawliau lles ac roedd rhai'n ymwneud â grwpiau cynhwysiant ariannol lleol, er bod gan y fforymau hyn gylch gwaith llawer ehangach na defnyddio budd-daliadau. Roedd y rhan fwyaf o'r ALLau yn gysylltiedig, yn ffurfiol neu'n anffurfiol, â sefydliadau eraill a oedd yn gweithio'n

²⁰ Neu staff mewn swyddi/adrannau tebyg.

uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i gynyddu'r defnydd o fudd-daliadau. Roedd rhai ALLau o'r farn mai eu rôl oedd cydgysylltu a chynorthwyo pob gweithgaredd i annog defnydd. Er enghraifft, mae Sir Gaerfyrddin yn cydgysylltu Grŵp Cyngor a Chymorth i gydgysylltu pob gweithgaredd ac i helpu i leihau dyblygu ac mae'n ceisio datblygu cyfeiriadur o beth mae pob sefydliad perthnasol yn ei gynnig.

7.11 Dewisiadau eraill neu Ddiffyg Cynllun

Mae'n werth nodi bod yr holl gynrychiolwyr ar y cyfan yn credu bod y Cynllun wedi bod yn un llwyddiannus, ac o'r farn ei fod yn ddatblygiad cadarnhaol o ran ymyrraeth gan y llywodraeth i helpu i gynyddu'r defnydd o fudd-daliadau.

Nododd sawl ALI bwysigrwydd y Cynllun wrth iddo ganiatáu iddynt ddefnyddio dull rhagweithiol a chynaliadwy o ymdrin â defnyddio budd-daliadau a oedd yn mynd y tu hwnt i weithgareddau marchnata.

Roedd y rhan fwyaf yn gallu gweld gwerth y Cynllun a mynegwyd awydd iddo barhau. Awgrymwyd bod y rhaglen ariannu tair blynedd hyd yma wedi galluogi ALLau i fabwysiadu dull gweithredu a oedd wedi'i drefnu'n well, buddsoddi mewn adnoddau staff ac elwa o'r hyn yr oeddynt yn ei ddysgu o un flwyddyn i'r llall.

Er bod y rhan fwyaf o'r ALLau yn nodi eu bod wastad wedi bod yn gysylltiedig â rhyw elfen o ddefnyddio budd-daliadau, awgrymodd llawer y byddent yn rhoi'r gorau i bob un o'u gweithgareddau wedi'u targedu fwy neu lai ac yn mynd yn ôl i wneud gwaith marchnata mwy generig, pe na bai'r Cynllun yn parhau.

Byddai gweithio gyda phartneriaid, nad oedd yn ddibynnol ar arian i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, yn parhau, ond byddai swyddi'r staff a ariannwyd gan y grant yn dod i ben. Awgryma hyn y byddai rhai gweithgareddau'n parhau, ond ar raddfa fach, ratach ac na fyddai'r ALLau yn parhau â gweithgareddau i'r fath raddau heb ariannu penodol.

Nodwyd effaith y caledi ariannol cynyddol ar drigolion lleol, gan y byddai llai o bobl yn ymwybodol o'u hawl tra gallai absenoldeb cymorth penodol arwain at lai o geisiadau llwyddiannus.

Fodd bynnag, nododd rhai ALLau yr anawsterau wrth bwyso a mesur llwyddiant cyffredinol y Cynllun. Er eu bod yn cydnabod bod y llwythi achosion wedi cynyddu, roedd yn anodd, mewn rhai achosion, i weld beth oedd wedi digwydd o ganlyniad i weithgareddau defnyddio a beth oedd wedi digwydd o ganlyniad i'r dirwasgiad, a fyddai wedi digwydd beth bynnag.

7.12 Ymgynghori â Rhanddeiliaid Eraill

Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Pensiwn, Age Concern a Chyngor ar Bopeth.

Croesawodd y tri sefydliad fenter Llywodraeth y Cynulliad, gan adlewyrchu bod y nifer amcangyfrifol o ENRs yn parhau i fod yn 'ystyfnig' o uchel a chan gydnabod yr amrywiaeth o rwystrau i gynyddu'r defnydd.

Nododd y Gwasanaeth Pensiwn gysylltiadau gweithio cadarnhaol gydag ALLau yng Nghymru a hyd a lled y partneriaethau a'r rhwydweithiau a oedd ar waith. Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau gan Age Concern a Chyngor ar Bopeth a oedd yn adlewyrchu'r partneriaethau a'r cysylltiadau lleol. Er enghraifft, nododd sawl Canolfan Cyngor ar Bopeth leol eu bod yn cael arian gan yr ALI i'w cynorthwyo gyda'r gwaith o gynyddu'r defnydd o HB a CTB. Derbyniodd Canolfan Cyngor ar Bopeth Rhondda Taf £25,000 gan ALI Rhondda Cynon Taf i gefnogi ei Gynllun. Nododd adborth a gafwyd gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth Rhondda Taf bod gwerth £506,000 o fudd-daliadau newydd²¹ wedi eu sicrhau o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn

²¹ Roedd hyn yn cynnwys budd-daliadau tai, anabledd a nawdd cymdeithasol.

a oedd yn werth am arian sylweddol. Yn ogystal â hyn, bu'r cyfraniad hwn o gymorth i'r ALI ennill Gwobrau Craffu Da 2010.

Fodd bynnag, nid oedd pob un o swyddfeydd Cyngor ar Bopeth ac Age Concern yn ymwybodol o'r Cynllun a oedd yn awgrymu bod yna le i rai ALLau wella sut roeddynt yn hyrwyddo'r Cynllun ymhlith sefydliadau rhanddeiliaid allweddol. Yn ogystal â hyn, awgrymodd rhai sefydliadau cynghori ar nawdd y gallent wneud defnydd mwy effeithiol o'r arian trwy ddarparu asesiad budd-daliadau llawn, h.y. edrych ar hawliau ar draws ystod o fudd-daliadau, nid dim ond yr hawl i dderbyn HB a CTB.

O ran arferion da wrth geisio cynyddu'r defnydd, awgrymwyd mai cymorth ymarferol ar ffurf ymweliadau cartref a chymorth un-i-un gyda ffurflenni oedd y modd mwyaf effeithiol, yn arbennig o ran goresgyn rhwystrau. Er bod gwella'r atebion technolegol yn cael eu hystyried fel peth cadarnhaol, nodwyd bod datblygiadau o'r fath yn debygol o gael llai o effaith ar bobl hŷn, e.e. y rhai dros 75 oed.

Yn gyffredinol, roedd y tair asiantaeth yn croesawu'r Cynllun, pwysleisiwyd y byddai'r Cynllun yn cael yr effaith orau trwy weithio mewn partneriaeth a chydweithredu â'r rhai a oedd yn ceisio cynyddu'r cyfraddau defnyddio gan leihau'r ymdrechion a oedd yn cael eu dyblygu.

7.13 Crynodeb a Chasgliadau

Mae'r ymgynghori â chynrychiolwyr o'r ALLau yn awgrymu bod y mwyafrif ohonynt wedi bod yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau er mwyn cynyddu'r defnydd o fudd-daliadau.

O ymgynghori â'r ALLau, roedd hi'n amlwg bod cyflwyno menter defnyddio budd-daliadau tair blynedd wedi annog ALLau i roi mwy o ystyriaeth i sut y caiff eu grantiau eu defnyddio a'r mathau o weithgareddau er mwyn uchafu'r defnydd o fudd-daliadau.

Dysgu, rhannu a chydweithio oedd y themâu allweddol wrth wraidd nifer o weithgareddau'r ALLau. Roedd hi'n amlwg bod nifer wedi dysgu gwersi o'r flwyddyn gyntaf (2006/2007), wedi cael gwybodaeth gan ALLau eraill ac wedi gweithio mewn partneriaeth i fanteisio i'r eithaf ar eu grantiau a sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Gallai nifer o ALLau nodi canlyniadau pendant o weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys creu dull llai cystadleuol o weithredu gyda phartneriaid gan ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid.

Roedd sawl ALI wedi defnyddio'r wybodaeth ymchwil a ddarparwyd yn yr adroddiad 'Rhwystrau i Hawlio' neu yn y cyflwyniadau, gan awgrymu bod y ddau weithgaredd hwn wedi cael effaith gadarnhaol.

Er bod hysbysebu generig yn parhau i fod yn rhan o weithgareddau'r rhan fwyaf o ALLau, roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi dechrau edrych ar ddulliau gweithredu a oedd wedi'u targedu'n fwy pwrpasol, gan gydnabod cyfyngiadau dulliau gweithredu generig.

Mae profiadau'r ALLau yn awgrymu bod yna rwystrau'n parhau o ran cyrraedd grwpiau anodd eu cyrraedd. Roedd nifer wedi buddsoddi mewn BTUOs i gyrraedd y rhai anoddaf i'w cyrraedd a'u cynorthwyo trwy'r broses ymgeisio. Llwyddodd y dull hwn i oresgyn nifer o'r rhwystrau adnabyddus i ddefnyddio, fel stigma, diffyg ymwybyddiaeth o fudd-daliadau a/neu gymhwysedd ac anawsterau neu ddiffyg awydd i gwblhau ffurflenni. Nododd rhai ALLau yr heriau o ganfod a thargedu ENRs.

Credai'r rhan fwyaf o'r ALLau bod eu gweithgareddau defnyddio wedi cael effaith gadarnhaol, er bod y gred hon yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd mewn sawl achos neu ar gynnydd mewn llwythi achosion. Fodd bynnag, roedd nifer yn cydnabod yr anawsterau o geisio mesur ei effaith yn iawn, gan gydnabod y gallai sawl ffactor fod yn gyfrifol am y cynnydd mewn llwythi achosion a gwariant. Un o'r pwyntiau dysgu allweddol oedd bod angen mwy o bwyslais ar fonitro'r canlyniadau.

Nodwyd gweithio'n well mewn partneriaeth a gwell darpariaeth o wasanaethau fel effeithiau ychwanegol y Cynllun ac mae'n debygol y bydd y rhain yn parhau ymhell wedi dyddiau'r Cynllun.

Er bod asiantaethau eraill yn gysylltiedig â defnyddio budd-daliadau, credai'r ALLau fod y Cynllun yn eu galluogi i fynd ati'n rhagweithiol i gynyddu'r defnydd o'r HB a'r CTB a chredai pob un ohonynt y byddai absenoldeb y Cynllun yn arwain at lai o weithgareddau defnyddio o lawer gan ALLau.

Roedd asiantaethau eraill a oedd yn gysylltiedig â defnyddio budd-daliadau yn cefnogi'r Cynllun ac ariannwyd nifer o'u swyddi cyngori trwy'r Cynllun. Credai rhai o'r asiantaethau hyn y gallent gynnig gwerth gwell am arian trwy ddarparu asesiadau budd-daliadau llawn. Fodd bynnag, nid yw hyn mor syml â hynny gan fod yn rhaid i bob cais a wneir gan yr asiantaethau hyn fynd yn ôl i'w ffynhonnell statudol i'w prosesu a'u dyfarnu. Nodwyd hefyd fod nifer o BTUOs yr ALLau wedi prosesu ceisiadau, gan ddarparu gwasanaeth cyflym, a bod ganddynt hefyd lwybrau atgyfeirio ar waith i groesgyfeirio pobl i asiantaethau statudol eraill i gael budd-daliadau lles eraill.

Ar y cyfan, roedd yr ALLau yn gadarnhaol am effaith y Cynllun ac roeddynt yn croesawu'r grant ychwanegol, ac o'r farn ei fod wedi eu helpu i gynyddu'r defnydd.

I gloi, mae effaith y profiad cadarnhaol, y wybodaeth a'r hyn a ddysgwyd gan yr ALLau yn sgil y Cynllun yn debygol o fod yn fwy pellgyrhaeddol a gwneud mwy na dim ond cyfrannu at gynyddu cyfraddau defnyddio. Mae'n debygol y bydd ALLau yn gallu defnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn gweithgareddau defnyddio yn y dyfodol, gan gynyddu eu heffeithiolrwydd a'u heffaith.

8 Adborth gan Hawlwyr Budd-daliadau

8.1 Cyflwyniad

Cynhaliodd KPMG arolwg gyda sampl o hawlwyrr budd-daliadau. Cytunwyd gyda Llywodraeth y Cynulliad i gynnal arolwg ymhlith sampl o dderbynyddion budd-daliadau o 11 o Awdurdodau Lleol a oedd yn cynrychioli amrywiaeth o ALLau mawr, bach, trefol a gwledig ac a oedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau defnyddio budd-daliadau. Dyma'r ALLau:

- Ynys Môn
- Blaenau Gwent
- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Sir Ddinbych
- Gwynedd
- Merthyr Tudful
- Sir Benfro
- Powys
- Bro Morgannwg
- Torfaen

Gofynnwyd i'r ALLau hyn ddosbarthu arolwg i hapsampl o thua 1% o dderbynyddion budd-daliadau a oedd wedi ymuno â llwyth achosion HB a/neu CTB o fis Ebrill 2008. Dosbarthwyd tua 1,470 o arolygon. Cafodd cyfanswm o 403 o arolygon eu dychwelyd gan hawlwyrr budd-daliadau, sef cyfradd ymateb o 27%.

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau proffil i hawlwyrr ac yna gofynnwyd y canlynol iddynt:

- Beth wnaeth eu sbarduno i wneud cais am HB a/neu CTB ac a oedd hyn yn benodol yn gysylltiedig â newidiadau yn eu hamgylchiadau.

- Sut y daethant yn ymwybodol o'u hawl i dderbyn HB a/neu CTB.
- Effaith derbyn HB a/neu CTB.
- Eu barn a'u hagwedd tuag at hawlio HB a/neu CTB.


Er bod ALLau wedi dewis hapsampl o dderbynwyr budd-daliadau, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr dros 64 oed ac wedi ymgysylltu a BTUOs lleol neu debyg. Mae'n bosibl bod nifer anghymesur o'r rhai a ymatebodd wedi tueddu i wneud oherwydd profiad un i un cadarnhaol a llwyddiannus. Gall hyn gyfyngu ar ba mor berthnasol yw canfyddiadau'r arolwg i bob ALLau a phob derbynnydd budd-daliadau.

8.2 Proffil yr Ymatebwyr

8.2.1 Rhyw ac Oedran

Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn ddynion (54%, n=202) a 46% o ymatebwyr yn fenywod (n=175). Fel y gwelir yn Siart 11, roedd dros hanner yr ymatebwyr dros 64 oed (53%, n=207).

Siart 11: Proffil Oedran Ymatebwyr




Ffynhonnell: Arolwg KPMG

8.2.2 Llety

Mae Siart 12 yn dangos sefyllfa lety ymatebwyr. Mae hyn yn dangos bod 44% (n=172) o ymatebwyr yn berchen ar eu cartrefi, tra roedd 30% (n=114) yn rhentu gan ALI neu Gymdeithas Tai, a 22% (n=87) yn rhentu'n breifat. Gallai hyn awgrymu bod Awdurdodau Lleol wedi bod ALLau wedi llwyddo i gyrraedd pobl sy'n berchen ar eu cartrefi a chynyddu defnydd.

Siart 12: Llety Cyfredol



Ffynhonnell: Arolwg KPMG


Yn ddiddorol, ymysg y rhai dros 64 oed, roedd tair rhan o bump o ymatebwyr yn byw mewn cartrefi o'u heiddo (60%, n=122), tra roedd 37% yn rhentu gan Awdurdod Lleol neu Gymdeithas Tai (n=77).

8.2.3 Amgylchiadau Cyfredol

Pan ofynnwyd am eu sefyllfa gyfredol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr un ai wedi ymddeol, (45%, n=174) neu roedd ganddynt salwch neu anabledd hirdymor (24%,

n=92). O'r rhai â salwch hirdymor, roedd y mwyafrif (58%, n=53) dros 55 oed. Roedd cyfanswm o 11% (n=43) wedi cofrestru'n ddi-waith/yn chwilio am waith. Dim ond 9% (n=36) oedd un ai mewn swydd llawn amser neu ran amser neu'n hunangyflogedig. Mae Siart 13 yn nodi eu statws cyflogaeth gyfredol.

Siart 13: Amgylchiadau Cyfredol



Ffynhonnell: Arolwg KPMG


8.3 Rhesymau dros wneud cais am HB a/neu CTB

Gofynnwyd i hawlwr os oeddynt wedi gwneud cais am HB a/neu CTB oherwydd newid yn eu hamgylchiadau personol. Nododd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr eu bod wedi ymgeisio am y budd-daliadau hyn oherwydd newid yn eu hamgylchiadau personol (48%, n=183), tra roedd 30% (n=115) yn hawlio gan eu bod wedi dod yn ymwybodol o'u hawl. Nododd 16% arall (n=62) bod newid mewn amgylchiadau a dod yn ymwybodol o'u hawl wedi eu hannog i hawlio.

Awgrymodd canran fechan iawn o ymatebwyr (5%, n=19) resymau eraill ac yn y mwyafrif o achosion ni roddwyd rhagor o fanylion. Nododd yr ymatebwyr a roddodd resymau nad oeddynt wedi bod yn ymdopi'n ariannol ers peth amser ac felly

roeddynt wedi penderfynu gwneud cais. Nododd eraill eu bod wedi derbyn budd-daliadau lles eraill ac wedi penderfynu gwneud cais am HB a CTB hefyd.

Siart 14: Rheswm dros Hawlio



Ffynhonnell: Arolwg KPMG

Ymysg y rhai 64 oed a hŷn, dim ond un rhan o dair o'r ymatebwyr a oedd wedi gwneud cais oherwydd newid mewn amgylchiadau (34%, n=68), roedd bron i hanner wedi gwneud cais gan eu bod wedi dod yn ymwybodol o'u hawl (46%, n=91) a dywedodd 15% (n=30) bod newid mewn amgylchiadau a dod yn ymwybodol o'u hawl wedi eu hannog i hawlio.

Mae Tabl 11 yn nodi'r newidiadau yn amgylchiadau pob un a wnaeth gais am HB a/neu CTB oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau personol (sy'n cynnwys y rhai a awgrymodd newid mewn amgylchiadau a dod yn ymwybodol o'u hawl). Mae hyn yn dangos bod y rheswm mwyaf cyffredin yn gysylltiedig ag anabledd.

Tabl 11: Newid yn Amgylchiadau Ymatebwyr

Ffynhonnell Gwybodaeth	%(n=)*
Dod yn anabl neu anabledd presennol yn dirywio	25% (60)
Dod yn ddi-waith	23% (57)
Gostyngiad sylweddol mewn incwm	20% (49)
Cyrraedd oedran pensiwn / yn gymwys i dderbyn pensiwn y wladwriaeth pension	15% (36)
Arall	21% (50)

Ffynhonnell: Arolwg KPMG

*Noder bod ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un ateb

Awgrymodd cyfran sylweddol o ymatebwyr resymau eraill er na roddwyd rhesymau pellach yn y mwyafrif o achosion. Roedd y rhesymau a roddwyd y cynnwys gwahanu a/neu ysgaru, salwch neu ddod yn gynhaliwr llawn amser neu'n fam newydd.

8.4 Ymwybyddiaeth

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr sut y daethant yn ymwybodol o'u hawl i HB a/neu CTB. Dywedodd bron i ddwy ran o bump o ymatebwyr bod Swyddog Budd-daliadau yn eu Hawdurdod Lleol wedi cysylltu â nhw (38%, n=141) a daeth un rhan o dair (33%, n=127) i wybod am eu bod wedi clywed gan rywun arall. Dywedodd cyfanswm o 15% (n=56) o ymatebwyr bod rhywun o asiantaeth y llywodraeth wedi cysylltu â nhw (fel Y Gwasanaeth Pensiwn).

Tabl 12: Ymwybyddiaeth

Ffynhonnell Gwybodaeth	% (n=)*
Swyddog Budd-daliadau'r ALI yn cysylltu	37% (141)
Clywed gan rywun arall	33% (127)
Asiantaeth y Llywodraeth yn cysylltu	15% (56)
Ffonio Llinell Gymorth leol ar gyfer Budd-daliadau	11% (43)
Sefydliad allanol yn cysylltu	9% (34)
Arall (heb nodi)	8% (31)
Taflen / ymgyrch bostio	6% (24)
Hysbyseb mewn cyhoeddiad newyddion lleol	5% (20)
Y landlord yn rhoi gwybod	4% (17)
Gwybodaeth ar wefan ALI	2% (7)
Poster	2% (7)
Ffynonellau eraill a gofnodwyd gan lai na 2% o ymatebwyr**	
Hysbysebu cyffredinol	
Taflen gyffredinol	
Cyflogwr yn rhoi gwybod	
Digwyddiad hyrwyddo	
Hysbyseb radio/hysbyseb bws	

Ffynhonnell: Arolwg KPMG

*Noder bod ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un ateb

** Cyflwynir data yn nhrefn y wyddor

Mae'r canlyniadau hyn yn ddiddorol am eu bod yn awgrymu mai ychydig o ymatebwyr a ymgeisiodd yn llwyddiannus am HB a/neu CTB o ganlyniad i farchnata cyffredinol neu benodol. Roeddynt yn fwy tebygol o ymgeisio o ganlyniad i 'gyswllt personol' h.y. cysylltiad/neu anogaeth gan berson arall. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod mwy o fanteision o bosibl wrth fuddsoddi mewn Swyddogion Budd-daliadau nag mewn hysbysebu a gweithgarwch hyrwyddo yn unig.

Mae'n werth nodi bod clywed gan rywun arall wedi'i gofnodi fel rheswm dros ymgeisio mor aml â chysylltiad gan Swyddog Budd-daliadau. Gallai hyn awgrymu y

gallai cyfran sylweddol o ymatebwyr fod wedi ymgeisio waeth beth fo'r gweithgarwch ar gyfer defnyddio budd-daliadau a ariannwyd gan ALI. Fodd bynnag, mae angen troedio'n ofalus oherwydd nad yw'n bosibl dyfalu pwy ddywedodd wrth yr ymatebwyr ac o ble y cafodd y bobl hyn eu gwybodaeth, a gall dibynnu ar yr hyn mae rhywun arall yn ei ddweud olygu nad yw rhai pobl yn cael gwybodaeth gywir ac wedi'i diweddarau er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus wrth wneud cais am HB a/neu CTB.

Wrth edrych ar y rhai dros 64 oed yn benodol, mae'n ddiddorol nodi bod cyfran uwch o'r ymatebwyr hyn yn dod yn ymwybodol o'u hawl drwy gysylltiad â Swyddog Budd-daliadau. Cysylltodd Swyddog Budd-daliadau â dwy ran o bump (40%, n=82) o ymatebwyr dros 64 oed, tra roedd un rhan o bump (20%, n=41) wedi clywed am y budd-daliadau gan rywun arall. Yn gyffredinol, roedd niferoedd tebyg o bobl hŷn wedi dod yn ymwybodol trwy gysylltiad ag asiantaeth y llywodraeth neu asiantaeth allanol (14%, n=28; 13% n=26 yn ôl eu trefn). Mae hyn yn awgrymu bod y Swyddogion Budd-daliadau yn ffordd effeithiol o dargedu a chynyddu defnyddwyr ymysg pobl hŷn.


Mae dadansoddiad o sut mae pobl sy'n berchen ar eu cartrefi wedi dod yn ymwybodol o'u hawl yn dangos bod Swyddog Budd-daliadau wedi cysylltu â'r gyfran uchaf (37%) ohonynt. Mae hyn yn dangos bod ALLau wedi llwyddo i gyrraedd y math hwn o gleient a chynyddu defnydd. O gofio bod arolwg o'r dystiolaeth ym Mhennod 2 wedi nodi bod y bobl sy'n berchen ar eu cartrefi yn cael eu gorgynrychioli'n sylweddol yn nifer yr ENRs, mae hyn yn gryn gamp ac y mae, unwaith eto, yn atgyfnerthu manteision cyflogi Swyddogion Budd-daliadau.

8.5 Effaith HB a/neu CTB

Dangosodd dros ddwy ran o dair o ymatebwyr (68%, n= 245) bod derbyn HB a/neu CTB wedi rhoi mwy o arian iddynt a chododd hyn i 75% (n=157) ymysg pobl hŷn.

Mae Siart 15 yn dangos sut mae ymatebwyr yn/wedi defnyddio'r arian ychwanegol hwn.

Siart 15: Effaith Derbyn HB a/neu CTB



Ffynhonnell: Arolwg KPMG

*Noder bod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb

Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn gwario eu harian ar fyw bob dydd a thanwydd ac mae'n rhesymol tybio bod yr arian hwn yn cael ei wario'n lleol, ac felly'n cyfrannu tuag at yr economi leol. Yn ddiddorol, awgrymodd llai na 2% (n=8) o ymatebwyr eu bod wedi cynilo'r incwm ychwanegol a fyddai'n awgrymu bod y budd-daliadau hyn wedi mynd i'r rhai sydd ei angen.

8.6 Rhoi barn ar fudd-daliadau

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ynglŷn â hawlio HB a/neu CTB, ac yn benodol pam fod hawlwr posibl yn amharod i wneud cais. Mae Tabl 13 yn nodi'r canfyddiadau a gafwyd gan ymatebwyr.

Tabl 13: Barn Ymatebwyr

Fy marn ar y Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor	Cytuno (n=)	Anghytuno (n=)
Yn fy marn i nid oes stigma ynglŷn â hawlio budd-daliadau.	66% (231)	34% (121)
Roeddwn i'n credu os oeddech yn berchen ar eich cartref, nad oedd modd i chi hawlio'r Budd-dal Tai a/neu Fudd-dal y Dreth Gyngor.	67% (197)	33% (97)
Roeddwn yn bryderus y gallai derbyn un math o fudd-dal effeithio ar eich hawl i dderbyn budd-dal arall.	65% (185)	35% (101)
Roeddwn yn gyndyn i hawlio gan nad oeddwn yn credu fy mod yn gymwys.	67% (216)	34% (109)
Nid oedd y drafferth o wneud cais yn werth yr arian ychwanegol a dderbyniwyd.	22% (64)	78% (223)
Nid oeddwn yn ymwybodol o'r holl fathau gwahanol o fudd-daliadau a oedd ar gael.	85% (271)	15% (48)
Roeddwn i o'r farn os oedd gennych gynilion yna nad oedd modd i chi hawlio'r Budd-dal Tai a/neu Fudd-dal y Dreth Gyngor.	75% (234)	26% (80)
Fy marn ar y Broses Ymgeisio	Cytuno (n=)	Anghytuno (n=)
Roedd y broses ymgeisio yn syml ar y cyfan.	80% (285)	20% (72)
Roedd y ffurflen(ni) cais yn anodd i'w deall.	42% (126)	58% (174)
Roeddwn yn bryderus am wneud camgymeriad twyllodrus.	66% (199)	34% (102)
Roedd atgan darparu gormod o wybodaeth ychwanegol ar faterion personol.	46% (134)	54% (155)

Ffynhonnell: Arolwg KPMG

Mae'r canfyddiadau hyn yn ddiddorol am eu bod yn atgyfnerthu casgliadau ymchwil arall, sef bod diffyg gwybodaeth am fudd-daliadau a/neu gymhwysedd a phryderon am y broses ymgeisio yn atal pobl rhag hawlio. Roedd cyfran sylweddol o bobl sy'n berchen ar eu cartrefi o'r farn nad oedd modd i chi hawlio HB a/neu CTB os oeddech yn berchen ar eich cartref. Gan fod cyfran sylweddol o ymatebwyr yn berchen ar eu cartrefi ac yn derbyn HB a/neu CTB, byddai hyn yn awgrymu bod ALI wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth, o bosibl wrth dargedu pobl a thrwy Swyddog Defnyddio Budd-daliadau.

Mae'n gadarnhaol nodi na chredai dros ddwy ran o dair o ymatebwyr fod stigma'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau. Roedd canran yr ymatebwyr a oedd yn

anghytuno nad oedd stigma wrth hawlio budd-daliadau ar ei isaf ymhlith y rhai dros 64 oed ac ar ei uchaf ymhlith y rhai rhwng 25-44 oed, er bod angen peth gofal yn hyn o beth gan fod nifer yr ymatebwyr yn yr ystod oedran hwn yn fach. Er hynny, mae hyn yn ddiddorol oherwydd gallai awgrymu bod pobl hŷn o'r farn bod llai o stigma yn gysylltiedig â budd-daliadau gan awgrymu bod hyn yn un rhywstr yn llai i'w oresgyn.

8.7 Sylwadau Ychwanegol

Cafodd ymatebwyr gyfle i roi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'u profiad wrth hawlio budd-daliadau. Dewisodd un rhan o dair o ymatebwyr roi sylwadau ychwanegol.

Y thema gyffredinol a ddaeth o'r sylwadau hyn oedd bod yr ymatebwyr yn ddiolchgar iawn am yr help a gawsant gan Swyddogion Budd-daliadau yn ystod y broses. Enwodd nifer o ymatebwyr eu Swyddogion Budd-daliadau a/neu bwysleisiwyd y cymorth a'r gefnogaeth a gawsant gan staff penodol yn eu Hawdurdod Leol. Roedd enghreifftiau o sylwadau yn cynnwys:

“Roedd y staff yn garedig iawn ac yn barod i helpu ar ôl i mi egluro fy sefyllfa. Cefais help i lenwi ffurflenni ac roeddynt yn egluro'r termau a oedd yn cael eu defnyddio.”

“Daeth menyw o'r cyngor i'm gweld gan egluro pob dim a'm helpu i lenwi'r ffurflenni. Roedd hi'n gymorth mawr i mi ac roedd ganddi atebion a gwybodaeth i'r cwestiynau a ofynnais iddi.”

“Daeth menyw o'r Swyddfa Fudd-daliadau i'm gweld gartref a chefais gymorth ganddi. Roedd hi'n gyfeillgar iawn a threfnodd bopeth i mi”.

Soniodd ymatebwyr eraill am y rhwystrau posibl wrth ymgeisio am fudd-daliadau gan awgrymu pam nad oeddynt wedi ymgeisio yn y gorffennol a pham na all rhai pobl ymgeisio nawr.

“Mae ein budd-dal tai yn llai na hanner cost ein rhent felly bydd yn anodd iawn i ni. Rydw i wedi gorfod mynd yn ôl i weithio’n llawn amser er fy mod yn gynhaliwr llawn amser. Nid oes digon o arian/cymorth i bobl sy’n gofalu am briod anabl ac mae’r ffurflenni ar gyfer cael help yn hirwyntog, ailadroddus ac mae llawer ohono’n ddiangen yn fy marn i.”

“Roedd yn anodd a chymhleth iawn hawlio am gymorth pan ar incwm isel ac yn hunangyflogedig. Unwaith rydych chi yn y system h.y. yn hawlio cymorth diweithdra neu gymhorthdal incwm roedd yn hawdd. Rwy’n meddwl bod pobl nad ydynt yn y “system” yn cael trafferth cadw dau ben llinyn ynghyd ac nid ydynt yn gwybod beth sydd ganddynt yr hawl i’w dderbyn ac mae ganddynt ormod o falchder!”

“Mae budd-daliadau’n cymryd yn rhy hir i gyrraedd ac mae hynny’n achosi pryder a gofid. Hefyd mae ‘na wrth-ddweud yn y ffurflenni sy’n dweud sut mae eich budd-dal yn cael ei gyfrifo ac maent yn anodd iawn i’w deall. Roedd yr oedi cyn i fudd-daliadau gael eu talu wedi achosi anawsterau ariannol.”

Yn olaf, dewisodd rai ymatebwyr ddisgrifio canlyniadau’r budd-daliadau maent wedi eu derbyn a sut maent wedi eu helpu.

“Mae cael budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor yn golygu fy mod wedi medru prynu pethau bach ar gyfer fy fflat ac mae’n help gyda biliau eraill hefyd fel trydan, dŵr a bwyd.”

“Rwy’n 90 oed ac yn ddiolchgar iawn am yr arian ychwanegol gan ei fod yn anodd talu popeth allan o ‘mhensiwn bob wythnos a chadw’n gynnes. Erbyn hyn, mae gen i bopeth sydd ei angen arnaf a gallaf fyw’n gyfforddus mewn cartref cynnes heb boeni’n ormodol. Diolch yn fawr.”

“Mae cael y Budd-dal Tai wedi fy helpu i dalu am fwy o wres, cynhalwyr a chael gwell bwyd, sy’n help i mi hefyd. Trefnodd y Gwasanaethau Cymdeithasol i fenyw o’r Adran Budd-daliadau Tai ddod i’m gweld - fel arall fyddwn i byth wedi gwybod fod gen i hawl. Diolch yn fawr.”

8.8 Crynodeb a Chasgliadau

Nododd y mwyafrif o bobl eu bod wedi gwneud cais am HB a CTB oherwydd newid mewn amgylchiadau, yn bennaf yn sgil colli incwm oherwydd anabledd neu oherwydd i’w cyflwr presennol ddirywio, neu oherwydd iddynt golli eu gwaith. Yn bron i 40% o achosion, roedd ymatebwyr yn ymwybodol o’u hawl o ganlyniad i gysylltiad â BTUO, yn arbennig ymysg y rhai dros 64 oed ac ymysg pobl a oedd yn berchen ar eu cartrefi. Byddai hyn yn awgrymu bod BTUOs wedi llwyddo i gyrraedd grwpiau allweddol.

O’r rhai sydd wedi gwneud cais llwyddiannus am HB a CTB, roedd y mwyafrif yn teimlo bod ganddynt fwy o arian, a chafodd yr arian ei wario’n gyffredinol ar filiau tanwydd a byw bob dydd. Mae hyn yn awgrymu bod yr incwm ychwanegol yn mynd i’r rhai sydd ei angen a’i fod yn cael ei wario’n lleol ac felly’n cyfrannu at yr economi leol.

Mae’r canfyddiadau hefyd yn dangos bod diffyg gwybodaeth ynglŷn â’r broses ymgeisio a bod pryderon ynglŷn â’r broses ymgeisio sy’n atal pobl rhag hawlio. Mae hyn yn awgrymu y gallai ALLau wneud mwy i helpu i gynyddu gwybodaeth ynglŷn â budd-daliadau. Fodd bynnag, mae’n gadarnhaol nodi nad oedd dros ddwy ran o dair

o ymatebwyr, ac yn enwedig y rhai dros 64 oed, yn credu bod stigma'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau.

Os yw canlyniadau'r arolwg hwn yn berthnasol i dderbynyddion budd-daliadau o bob math, mae'n awgrymu bod adleoli BTUOs yn ddull effeithiol o gynyddu defnyddwyr trwy gynnig gwasanaeth cymorth personol. Mae'r canfyddiad bod unrhyw incwm ychwanegol yn cael ei wario ar fyw bob dydd yn awgrymu bod yr economi leol yn elwa'n anuniongyrchol yn sgil y Cynllun, sy'n rhywbeth cadarnhaol iawn o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae hyn yn awgrymu bod tystiolaeth o sail resymegol ychwanegol dros y Cynllun.

9 Effaith ac Effeithiolrwydd

9.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn cyfuno canfyddiadau'r adolygiad o'r cynlluniau gweithredu a'r adroddiad cynnydd a chanfyddiadau'r ymgynghori. Mae'n pwysleisio effaith y Cynllun, yr hyn sydd wedi gweithio'n llwyddiannus a'r hyn sydd heb weithio cystal gan awgrymu beth all hyn ei olygu i unrhyw gynllun defnyddio yn y dyfodol.

9.2 Effaith y Cynllun

Defnyddiodd Awdurdodau Lleol amrywiaeth o ddulliau a bu i nifer ymgorffori cyfuniadau o'r gweithgareddau allweddol canlynol:

- Cyflogi BTUOs
- Defnyddio Sganiau'r Gwasanaeth Pensiwn
- Gweithio Mewn Partneriaeth
- Ymgyrchoedd postio a thaflenni
- Hysbysebu cyffredinol
- Digwyddiadau diwrnodau agored/meddygfeydd
- Targedu'r rhai sydd mewn dyled.

Roedd angen i ALLau adrodd ar eu hallbynnau ac effaith eu gweithgareddau er nad oedd fformat penodol ar gyfer cofnodi. Arweiniodd hyn at ALLau yn cofnodi eu canlyniadau ar gyfer y Cynllun mewn ffyrdd gwahanol iawn, gyda rhai'n adrodd cynnydd ariannol yn unig, tra roedd eraill yn rhoi cynnydd o ran canran mewn hawliadau a llwyth achosion. Yn ogystal, roedd pob ALL yn cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau, er bod amrywiaeth a natur y gweithgareddau hyn yn golygu ei bod yn anodd mesur union effaith y Cynllun gyda chywirdeb o ran y niferoedd ychwanegol o hawlwr a'r budd-daliadau ychwanegol a ddyfarnwyd. Mater arall i'w ystyried wrth fesur effaith y Cynllun oedd yr effaith bosibl ar weithgareddau

defnyddio eraill, fel ymgyrch hysbysebu'r Adran Gwaith a Phensiynau neu waith gan sefydliadau gwirfoddol a chymunedol sy'n hyrwyddo defnyddio budd-daliadau.

Bu i nifer o ALI fonitro a chofnodi eu canlyniadau'n fanwl fel y gwelir gan yr astudiaethau achos canlynol.

Caerdydd

Derbyniodd Caerdydd dros £98,000 o arian a defnyddiwyd yr arian i recriwtio Tîm Defnyddio pwrpasol, gan gyflogi staff ychwanegol (heb eu hariannu) yn 2009/2010 i gefnogi eu gweithgareddau ac ymateb i'r hinsawdd economaidd.

Dechreuodd y Tîm Defnyddio roi amrywiaeth eang o weithgareddau ar waith, yn cynnwys gweithredu Llinell Gymorth Budd-daliadau lle'r oedd staff yn gallu gwneud cyfrifiadau sydyn a chynorthwyo pobl i gwblhau eu ffurflenni cais lle'r oedd hynny'n berthnasol.

Roedd pob galwad i'r Llinell Gymorth yn cael ei monitro ac o'r wybodaeth hon nododd Caerdydd bod ei raglen o bosteri, pamffledi a thaflenni wedi bod yn llwyddiannus, ynghyd â'i bartneriaeth â chanolfan alwadau'r Cyngor lle'r oedd staff yn cael eu hyfforddi i wneud atgyfeiriadau i'r Tîm Defnyddio. Roedd partneriaethau llwyddiannus eraill yn cynnwys gweithio gyda'r Gwasanaeth Pensiwn a arweiniodd at 63 o hawliadau llwyddiannus am £80,000 mewn CTB gan bobl yn berchen ar eu cartrefi.

Mae Caerdydd wedi cyfrifo y bydd ei Gynllun ar gyfer 2009/2010 yn sicrhau £2.7 miliwn mewn budd-daliadau ychwanegol (rhagamcanion ar sail 18-mis).

Abertawe

Derbyniodd Abertawe £75,000 o arian o'r Cynllun Defnyddio a defnyddiwyd yr arian hwn i recriwtio Tîm Defnyddio pwrpasol. Defnyddiodd Abertawe raglen Rhwystrau Llywodraeth y Cynulliad a chynghor gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a bu hefyd yn astudio proffil ei boblogaeth i nodi grwpiau targed priodol. Dechreuodd y Tîm Defnyddio ddefnyddio amrywiaeth eang o weithgareddau gan gydnabod bod dulliau gwahanol yn gweithio i wahanol grwpiau o bobl.

Rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2009, roedd Tîm Defnyddio Abertawe wedi ymdrin â 2,461 o hawliadau llwyddiannus ar gyfer HB a/neu CTB. Roedd hawliadau a broseswyd dros gyfnod o 10 mis yn dangos amcangyfrif o £483,156 mewn CTB yn unig.

Cynhaliodd Abertawe adolygiad o'i brif ddull o atgyfeirio gan ddod i'r casgliad mai'r mentrau mwyaf effeithiol a oedd wedi sbarduno galwadau i'w Dîm Defnyddio oedd yr ymgyrch taflenni gwybodaeth, yr ymgyrch bostio a ddosbarthwyd gyda biliau'r dreth gyngor ac erthyglau yn y wasg leol. Fodd bynnag, y farn oedd bod hysbysebu yn y sinema a hysbysebu ar docynnau bws yn llai llwyddiannus.

O ran amcangyfrif yr effaith y mae'r Cynllun wedi ei chael yn cynhyrchu defnyddwyr budd-daliadau ychwanegol hyd yn hyn, mae mesur hyn mewn modd cyson a chadarn yn gryn her gan fod y wybodaeth fonitro yn anghyflawn a/neu nad yw'n gymaradwy. Mae hwn yn ganfyddiad pwysig ac argymhellir bod gwell ystyriaeth yn cael ei rhoi i fonitro a chofnodi canlyniadau'n gyson ar draws pob un o'r 22 ALI er mwyn dysgu beth yw effaith lawn yr holl weithgareddau a'u priodoli i'r Cynllun. Fodd bynnag, mae'n bosibl nodi'r gweithgareddau hynny a oedd yn gweithio'n llwyddiannus a phwysleisio'r rhai llai effeithiol. Mae'r is-adran ganlynol yn rhoi trosolwg o lwyddiant y prif weithgareddau fel y cofnodwyd hwy gan yr ALLau.

9.3 Arolwg o Weithgareddau

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nifer o weithgareddau ac ymyriadau gyda chanlyniadau cadarnhaol wedi'u profi. Maent fel a ganlyn:

- Cyflogi BTUOs pwrpasol
- Defnyddio Sganwyr y Gwasanaeth Pensiwn
- Gweithio Mewn Partneriaeth
- Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd wedi'u targedu / â ffocws h.y. ymgyrch bostio a thaflenni.

Mae'r dystiolaeth yn llai pendant ar gyfer hysbysebu cyffredinol a digwyddiadau diwrnodau agored/meddygfeydd a thargedu'r rhai sydd mewn dyled, er bod rhai ALLau wedi cael mwy o lwyddiant nag eraill a allai adlewyrchu'r deunyddiau marchnata a'r negeseuon a ddefnyddiwyd.

9.3.1 BTUOs

Roedd cyflogi BTUOs penodol yn ymyriad llwyddiannus gan ddarparu staff pwrpasol a oedd yn cyflenwi gwasanaeth rheng flaen. Yn amlwg, roedd gan rai ALLau lefelau uwch o arian fu'n gymorth iddynt hwyluso'r gwaith o gyflogi staff pwrpasol, ond roedd eraill, yn arbennig Blaenau Gwent a Merthyr Tudful wedi mabwysiadu dull ar y cyd o ran ariannu BTUO penodol, tra roedd ALLau eraill yn cyflogi BTUOs rhan-amser fel rhan o raglen o weithgareddau.

Yn y mwyafrif o achosion, aeth y BTUOs ati i gymryd camau dilynol yn dilyn galwad ffôn neu lythyr wedi'i dargedu i dderbynnydd budd-dal posibl. Yn aml roedd y camau dilynol hyn yn cynnwys ymweliad cartref, ac fel arfer roedd yn cynnwys cymorth i gwblhau ffurflenni.

Roedd gan y dull hwn nifer o fanteision gan ei fod yn targedu pobl ac yn cynnig cymorth iddynt ac felly'n goresgyn nifer o rwystrau hysbys yn cynnwys diffyg gwybodaeth, cymhwysedd, amharodrwydd i gwblhau ffurflenni swyddogol neu anawsterau wrth wneud hynny a stigma sy'n gysylltiedig â budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd.

Tra roedd rhai ALLau yn awgrymu bod y dull hwn yn golygu llawer o adnoddau ac yn gostus, credent ei fod yn angenrheidiol yn enwedig er mwyn goresgyn amharodrwydd pobl i hawlio ac felly ei fod yn y pen draw yn cynrychioli gwerth am arian o ran nifer yr ymgeiswyr llwyddiannus. Mewn llawer o achosion, roedd BTUOs hefyd yn prosesu ffurflenni cais a thrwy hynny'n llwyddo i leihau amseroedd aros am fudd-daliadau, gan ddarparu gwasanaeth di-dor i dderbynyddion.

Y farn oedd bod cyflogi BTUOs wedi cael effaith gadarnhaol a sylweddol ar gynyddu cyfraddau defnyddio fel y gwelir o'r canlyniadau a adroddwyd gan nifer o ALLau.

Mae'r achosion achos canlynol yn pwysleisio effaith gadarnhaol cyflogi BTUOs.

Ynys Môn

Cofnododd Ynys Môn nad oedd hysbysebu cyffredinol a/neu ymgyrch bostio ar hap yn arbennig o effeithiol oni bai eu bod yn gysylltiedig â pholisi neu ymyriad gweithredol. Recriwtiodd BTUO penodol a gysylltodd â'r sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, cyhoeddodd ddatganiadau i'r wasg a hysbysebion cyffredinol a bu'n chwilio trwy sganau y Gwasanaeth Pensiwn. Arweiniodd y dull hwn o gysylltu personol wedi'i dargedu at sicrhau budd-daliadau ychwanegol o £160,000 mewn HB a CTB a sicrhau gwerth ychwanegol sylweddol trwy dynnu sylw at hawl i fudd-daliadau lles eraill a oedd yn werth £215,000 yn ychwanegol.

Roedd canlyniadau'r arolwg o dderbynyddion budd-daliadau a wnaethpwyd yn Ynys Môn yn awgrymu bod cefnogaeth gadarnhaol i'r dull hwn o ddefnyddio BTUO.

Pen-y-bont ar Ogwr

Yng Nghynllun 2006/2007, adroddodd Pen-y-bont ar Ogwr “ganlyniadau siomedig”, gan nodi bod cyfran uchel o geisiadau yn aflwyddiannus. Roedd Pen-y-bont ar Ogwr yn amlwg wedi dysgu o Gynllun 2006/2007, a mabwysiadwyd dull cwbl wahanol ganddynt gyda mwy o ffocws ar gyfer Cynllun 2008/2009 a 2009/2010.

Roedd hyn yn golygu cyflogi dau BTUO penodol a oedd hefyd yn gallu prosesu'r ceisiadau a ddaeth i law. Aeth y BTUOs hyn ati i ddosbarthu taflenni mewn dull wedi'i dargedu mewn ardaloedd lle'r oedd y defnydd fel petai'n isel, a chysylltwyd â thros 100 o sefydliadau lleol a defnyddiwyd llwybrau atgyfeirio sefydledig, ynghyd â sganiau'r Gwasanaeth Pensiwn yn ogystal â defnyddio cronfeydd data a oedd yn bodoli'n barod er mwyn nodi'r hawl i PC ar gyfer croesgyfeirio i'r Gwasanaeth Pensiwn.

Mewn ffordd, roedd y BTUOs yn cynnig dull wedi'i deilwra, gan nodi hawlwyr posibl, eu cynorthwyo gyda'r broses ymgeisio gan gynnwys gwneud ymweliadau cartref, a phrosesu'r ffurflen hawlio mewn deuddydd. Mae'r dull hwn o gysylltu personol wedi'i dargedu wedi arwain at 384 o hawliadau llwyddiannus ac wedi sicrhau gwerth £694,500 o HB a CTB mewn cyfnod o ddwy flynedd.

Yn ogystal, yn y flwyddyn gyntaf, llwyddodd y BTUOs i sicrhau £20,300 yn ychwanegol mewn PC trwy groesgyfeirio at y Gwasanaeth Pensiwn, gan ychwanegu gwerth at y grant cychwynnol a gafwyd.

Gwynedd

Cyflogodd Gwynedd ddau BTUO a aeth ati i wneud amrywiaeth eang o weithgareddau rhwydweithio a chyhoeddusrwydd, gan drefnu bod Swyddogion Ymweld Budd-daliadau yn ymweld â charterfi ac yn cynorthwyo i gwblhau ffurflenni a chysylltu â chynrychiolwyr o asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn asesiad budd-dal llawn.

Cofnododd Gwynedd bod gweithgareddau'r tîm Defnyddio wedi arwain at 554 o hawliadau newydd gan sicrhau budd-daliadau gwerth £665,065 yn 2008/2009 a 417 o achosion yn 2009/2010 a budd-daliadau o £706,262.

Wrecsam

Fel rhan o'i weithgareddau defnyddio, neilltuodd Wrecsam gyfran o'i arian er mwyn cael BTUO rhan-amser i wneud ymweliadau cartref. Daeth buddsoddiad cychwynnol o £12,000 â £77,000 mewn HB a CTB, sy'n rhoi elw cadarnhaol ar fuddsoddiad.

9.3.2 Sganiau'r Gwasanaeth Pensiwn

Defnyddiodd nifer o ALLau sganiau'r Gwasanaeth Pensiwn er mwyn nodi a thargedu pobl hŷn a allai fod yn gymwys i HB a/neu CTB. Llwyddodd y dull wedi'i dargedu hwn, yn ogystal â chysylltiad personol gan BTUOs, i gynyddu defnydd ymysg pobl hŷn, oherwydd eto, llwyddodd cysylltiad personol i helpu i oresgyn nifer o rwystrau hysbys.

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn pwysleisio effaith defnyddio sganiau'r Gwasanaeth Pensiwn.

Ceredigion

Arweiniodd gwaith partneriaeth Ceredigion gyda'r Gwasanaeth Pensiwn at £147,000 o HB a CTB a swm ychwanegol o £67,000 mewn taliadau wedi'u hôlddyddio.

Sir Ddinbych

Nododd Sir Ddinbych 151 o hawlwyd pensiwn posibl o'r Gwasanaeth Pensiwn a arweiniodd at 64 o hawliadau llwyddiannus.

Sir Fynwy

Defnyddiodd Sir Fynwy ddata o'r Gwasanaeth Pensiwn ar gyfer ei BTUO er mwyn cysylltu â hawlwr posibl yn bersonol ac arweiniodd hyn at dros 50 o ymgeiswyr llwyddiannus.

9.3.3 Gweithio Mewn Partneriaeth gydag Asiantaethau Allanol

Trwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cynghori eraill, yn arbennig y Ganolfan Cyngor ar Bopeth ac Age Concern, llwyddwyd i sicrhau dyfarniadau HB a CTB a rhoi gwerth ychwanegol trwy gynnig asesiad budd-dal llawn a allai arwain at effaith ychwanegol sylweddol.

Ceredigion

Diolch i waith partneriaeth gydag Age Concern, cynhyrchwyd bron i £19,000 mewn HB a CTB a thros £4,000 mewn taliadau wedi'u hôlddyddio (mewn cyfnod o chwe mis).

Sir Benfro

Aeth Sir Benfro i bartneriaeth gyda nifer o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn cynnwys MIND a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, gyda MIND yn cefnogi 44 o hawliadau ac yn sicrhau budd-daliadau o £31,000 a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn llwyddo i sicrhau £78,000 ar draws yr ystod o fudd-daliadau yn cynnwys HB a CTB.

Powys

Gweithiodd BTUO Powys mewn partneriaeth â'i Uned Hawliau Lles a llwyddodd staff yr uned i sicrhau swm ychwanegol o £40,000 mewn cyfnod o 10 mis.

Rhondda

Darparodd Rhondda tua £25,000 i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol. Adroddodd Canolfan Rhondda Taf bod y buddsoddiad hwn wedi arwain at werth £506,000 o fudd-daliadau amrywiol. Yn ychwanegol, llwyddodd y cyfraniad hwn i helpu'r ALI i ennill un o Wobrau Craffu Da 2010.

9.3.4 Ymgyrchoedd Postio a Thafleuni

Yn ôl gwybodaeth gan ALLau, cymysg fu'r canlyniadau yn dilyn tafleuni neu ymgyrchoedd postio er bod peth tystiolaeth po fwyaf roedd yr ymgyrch wedi'i thargedu po fwyaf y cyfle o gael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio.

Awgrymodd nifer o ALLau mai prin fu effaith y dull o gynnwys gwybodaeth gyda biliau ac ni lwyddodd dulliau ychwanegol fel ymateb rhadbost i gynyddu lefelau diddordeb. Er enghraifft, awgrymodd Caerdydd nad oedd pobl a oedd yn dangos diddordeb ar y cychwyn yn mynd ati i hawlio. Byddai hyn yn awgrymu eto bod angen cysylltiad personol a'r budd a ddaw o hynny er mwyn egluro cymhwysedd ac annog ceisiadau. Credai Sir Benfro fod cynnwys ymgyrch bostio fel rhan o filiau'r dreth gyngor wedi arwain at ymateb defnyddio isel ond credai rhai ALLau fod ymgyrch bostio'n gallu bod yn ffordd rad o gyrraedd cyfranogwyr posibl. Er enghraifft, cynhaliodd Rhondda Cynon Taf ymgyrch bostio ar gyfer pob cartref a chawsant dros 100 o ymholiadau yn sgil hynny. Arweiniodd hyn at dros £21,000 mewn budd-daliadau i 19 o hawlwr (o'r rhai hynny a broseswyd ar y cyfnod adrodd). Aeth Sir Gaerfyrddin ati i gynnwys taflen yng nghyhoeddiad y cyngor lleol a gyhoeddir cyn bilio, ac roedd yn cyd-fynd ag erthygl yn y wasg leol. Cofnododd Sir Gaerfyrddin dros 300 o ymholiadau ychwanegol yn sgil y cyhoeddusrwydd hwn.

Mae peth tystiolaeth y gallai ymgyrch bostio wedi'i thargedu weithio'n fwy effeithiol mewn rhai amgylchiadau fel y gwelir yn yr astudiaethau achos canlynol.

Sir Ddinbych

Canolbwyntiodd Sir Ddinbych ar ei phoblogaeth heb basbort a heb gysylltiad â budd-daliadau. Arweiniodd hyn at gynnydd o 25% mewn hawlwyr CTB ymhlith ail oedolion. Canolbwyntiodd Sir Ddinbych ar bawb sy'n talu'r Dreth Gyngor nad oedd yn derbyn unrhyw fudd-daliadau ac nad oedd wedi hawlio'n flaenorol trwy ymgyrch bostio wedi'i thargedu dan y pennawd "Wake up! and Take up!". I'r rhai o oedran gweithio, adroddodd Sir Ddinbych gynnydd o 37% yn yr hawliadau mewn gwaith safonol ar gyfer CTB a chynnydd o 32% yn yr hawliadau HB rhwng 2008/2009 a 2009/2010 sy'n cymharu â chynnydd o 3% a 15% yn ôl eu trefn rhwng 2007/2008 a 2008/2009 yn yr ALI. Tra roedd Sir Ddinbych yn cydnabod bod y dirwasgiad wedi cael peth effaith ar gynyddu ceisiadau HB a CTB, cred y gellir priodoli graddfa'r cynnydd o hawlwyr mewn gwaith i'w gweithgareddau hyrwyddo wedi'u targedu.

Sir Fynwy

Adroddodd Tîm Defnyddio Sir Fynwy dros 400 cais am ffurflenni cais oherwydd ei gyhoeddusrwydd wedi'i dargedu a oedd yn cynnwys dosbarthu taflenni cyfrifydd parod a oedd yn cyfateb i Fandiau'r Dreth Gyngor. Arweiniodd hyn at 130 o hawliadau llwyddiannus ac £84,000 mewn budd-daliadau yn 2009-2010.

Yn ddiddorol, datblygodd nifer o ALLau sloganau bachog fel "Don't miss out, find out!" gan Awdurdod Lleol Torfaen, a "Wake-up and Take-up" gan Sir Ddinbych a allai fod wedi helpu i dynnu sylw pobl gan helpu i gynyddu'r defnydd. Yn ogystal, cynhaliodd Sir Ddinbych gystadleuaeth i ddatblygu ei slogan a lwyddodd ynddo'i hun i godi ymwybyddiaeth ac arwain at gyhoeddusrwydd cadarnhaol.

Torfaen

Aeth Torfaen ati i gynnal ymgyrch wedi'i thargedu at bobl hŷn dros 75 oed, gan sicrhau budd-daliadau gwerth £41,000, yn cynnwys un hawliwr a oedd yn gymwys i

hawlio dros £4,000 y flwyddyn. Aeth Torfaen ati hefyd i dargedu'r cartrefi hynny nad oeddynt yn gymwys i dderbyn unrhyw fudd-daliadau wrth anfon biliau'r dreth gyngor.

Ar y cyfan, mae Torfaen wedi monitro effaith ei weithgareddau defnyddio am y cyfnod o fis Ebrill 2008 i fis Ionawr 2010, gan adrodd bod ei weithgareddau wedi sicrhau bron i 600 o asesiadau dros dro neu hawliadau a budd-daliadau ychwanegol gwerth £435,000 (ar Ionawr 2010). Er mwyn rhoi hyn yn ei gyd-destun, cynyddodd lwyth achosion budd-daliadau Torfaen o dros 900 o hawliadau rhwng mis Ebrill 2008 a mis Ebrill 2009 gan awgrymu bod ei weithgareddau defnyddio wedi cyfrannu'n rhannol i'r cynnydd hwn.

Adroddodd Conwy gynnydd mewn ymholiadau i'w Uned Budd-daliadau yn dilyn dosbarthu taflenni i blant ysgol. Fodd bynnag, cynhaliodd Caerdydd weithgaredd tebyg a phrin fu'r ymateb ac felly daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn ddull llwyddiannus.

9.3.5 *Hysbysebu Cyffredinol*

Mewn achosion lle'r oedd ALLau wedi cynnal ymgyrch hysbysebu cyffredinol, roedd y dystiolaeth o lwyddiant ac effaith yn llai pendant. Aeth rhai ALLau ar drywydd rheswm pob derbynnydd budd-dal dros hawlio, ac yn yr achosion hyn, cyfraddau ymateb cymysg iawn a gafwyd yn ôl yr ALLau, yn dibynnu ar y cyfrwng hysbysebu. Yn benodol, dengys tystiolaeth mai nifer fechan atgyfeiriadau a hawliadau llwyddiannus dilynol a ddaeth yn sgil hysbysebu ar drafnidiaeth gyhoeddus gyda hysbysebu ar y radio mewn sinemâu yn ddrud ac nid oeddynt yn llwyddiannus iawn.

Yn yr un modd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad oedd hysbysebu yn y wasg leol fel petai'n ddull llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, mae peth tystiolaeth bod erthyglau papur newydd yn cael rhywfaint o effaith os oeddynt yn canolbwyntio ar ddigwyddiad penodol.

Ynys Môn

Adroddodd Ynys Môn gynnydd mewn ymholiadau yn dilyn erthygl bapur newydd ar y Budd-dal Plant a chynnydd mewn cyfalaf ar gyfer pobl hŷn.

Conwy a Sir Ddinbych

Aeth Conwy a Sir Ddinbych ati i gynnal ymgyrch hysbysebu ar y cyd yn cynnwys hysbyseb yn y wasg leol am bythefnos yn pwysleisio'r newidiadau mewn perthynas â neilltuo'r Budd-dal Plant. Yn dilyn hynny, adroddodd Sir Ddinbych gynnydd o dros 50% mewn hawliadau HB a CTB gan deuluoedd â phlant nad oedd ganddynt basport²² – cofnodwyd bod hyn yn 267 o deuluoedd gyda hawl o £31 ar gyfartaledd.

Sir Gaerfyrddin

Adroddodd Sir Gaerfyrddin gynnydd nodedig mewn ymholiadau yn dilyn cylchlythyr gan y cyngor lleol a oedd yn cyd-fynd ag erthygl yn y wasg leol cyn anfon biliau.

Mae hyn yn awgrymu y gall erthyglau â ffocws gael peth effaith os ydynt yn canolbwyntio ar enghreifftiau/achosion go iawn ac yn cyd-fynd â newidiadau/bilio sy'n effeithio ar amgylchiadau pobl.

9.3.6 Meddygfeydd a Diwrnodau Agored

Mae nifer o ALLau yn cynnwys Ynys Môn a Gwynedd yn awgrymu mai cyfyngedig yw effaith digwyddiadau fel meddygfeydd defnyddio a diwrnodau agored. Roedd Caerffili a Sir Gaerfyrddin o'r farn mai dim ond efaith uniongyrchol fechan oedd gan ddigwyddiadau o'r fath ond roeddynt yn ddefnyddiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth a chreu cyhoeddusrwydd ac roeddynt yn ddigwyddiadau rhad ar y cyfan.

²² Hawlwyr nad ydynt yn derbyn budd-daliadau eraill yn seiliedig ar brawf modd.

9.3.7 Cwsmeriaid mewn Dyled

Cyfeiriodd nifer o ALLau eu gweithgareddau tuag at dargedu preswylwyr mewn dyled neu'r rhai a oedd yn destun camau adfer yn rheolaidd ond y farn oedd mai cyfyngedig oedd effaith hyn.

9.4 Crynodeb a Chasgliadau

Mae adolygiad o gynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd, a ategir gan yr ymgynghori a wnaed â chynrychiolwyr ALLau a grwpiau allweddol o randdeiliaid yn awgrymu y gall cyflogi BTUOs, sy'n cysylltu'n bersonol er mwyn annog pobl i hawlio a'u cynorthwyo i lenwi ffurflenni cais gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol iawn. Hefyd, gellid gwella canlyniadau ymhellach trwy ddefnyddio dull wedi'i dargedu, yn aml trwy weithio mewn partneriaeth, fel y gwelir yng nghanlyniadau ALLau sy'n defnyddio sganiau'r Gwasanaeth Pensiwn. Gellid gwella llwyddiant gweithgareddau eraill fel ymgyrchoedd postio a thaflenni trwy eu targedu. Er enghraifft, gellid targedu grwpiau allweddol, ar gyfnodau penodol fel wrth filio neu i gyd-fynd â newidiadau mewn meini prawf cymhwysedd.

Byddai hyn yn awgrymu y dylai ALLau, ar gyfer unrhyw gynllun yn y dyfodol, ystyried buddsoddi mewn staff penodedig a all weithio gyda phartneriaid allweddol fel y Gwasanaeth Pensiwn i nodi derbynyddion posibl a goresgyn rhai o'r rhwystrau sy'n hysbys trwy gynnig gwasanaeth personol a chymorth gyda'r holl waith papur. Hefyd, mae cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn debygol o fod yn fwy effeithiol os yw cynulleidfaoedd penodol yn cael eu targedu. Tra gallai hysbysebu cyffredinol helpu i godi ymwybyddiaeth gyffredinol, gallai ALLau fod am ymatal rhag cynnal ymgyrchoedd sy'n costio'n ddrud fel hysbysebion radio, mewn sinemâu ac ar fysus.

10 Casgliadau ac Argymhellion

10.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn cyflwyno'r casgliadau ar y canfyddiadau allweddol sydd, ar y cyfan, wedi dod i'r amlwg yn yr ymchwil, Defnyddiwyd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd, canlyniadau'r arolwg, yn ogystal â chanfyddiadau yr adolygiad o'r dystiolaeth a'r dadansoddiad o'r defnydd a wneir o'r HB a CTB er mwyn nodi beth sy'n gweithio'n fwy effeithiol o ran gweithgareddau defnyddio budd-daliadau a sut orau i dargedu gweithgareddau yn y dyfodol.

Mae nifer o weithgareddau wedi'u nodi sydd i'w gweld yn gweithio'n dda er ei bod yn bwysig pwysleisio y gallai amrywiaeth a hyd a lled y gweithgareddau a'r amgylchiadau lleol mewn ALLau olygu bod rhai gweithgareddau'n gweithio'n fwy effeithiol mewn rhai ardaloedd nag eraill. Felly, mae'r casgliadau canlynol yn cyfeirio at yr arferion da a nodwyd yn y gwerthusiad hwn a gwneir cyfres o argymhellion ar gyfer unrhyw gynllun yn y dyfodol.

10.2 Casgliadau

10.2.1 Pa weithgareddau i ganolbwyntio arnynt

Mae adolygiad o'r llenyddiaeth ar ddefnyddio budd-daliadau wedi tynnu sylw at amrywiaeth eang o ffyrdd y profwyd sydd wedi cynyddu defnydd. Mae'r Cynllun hefyd wedi caniatáu i ALLau dreialu cyfres o ddulliau, methodolegau a grwpiau targed er mwyn penderfynu pa rai sy'n gweithio'n fwyaf effeithiol.

Mae gweithgareddau y profwyd iddynt gael canlyniadau cadarnhaol fel a ganlyn:

- Cyflogi BTUOs penodedig sy'n helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau hysbys sy'n gysylltiedig â defnyddio budd-daliadau.
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill sy'n helpu i gyrraedd hawlwrwyr posibl a chynyddu'r defnydd a wneir o fudd-daliadau eraill.
- Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd wedi'u targedu/â ffocws h.y. ymgyrchoedd postio a thaflenni sy'n canolbwyntio ar grwpiau allweddol neu ar adegau allweddol a lle y gellir addasu'r negeseuon i gynulleidfa neilltuol.
- Ymweliadau cartref ar gyfer pobl hŷn yn enwedig ac yn aml trwy ganolwyr y gellir ymddiried ynddynt.
- Y rhai sy'n canolbwyntio ar grwpiau allweddol fel pobl hŷn dros 75 oed, adegau pwysig yn eu bywydau fel cyrraedd oedran pensiwn neu wrth iddynt dderbyn biliau'r Dreth Gyngor.

Mae'r dystiolaeth yn llai pendant ar weithgareddau cyffredinol fel hysbysebu a chyhoeddusrwydd cyffredinol.

10.2.2 Pwy i dargedu

Mae adolygiad o lenyddiaeth yn dangos bod rhai mathau o bobl yn llai tebygol o hawlio yn cynnwys pobl hŷn (yn aml y rhai dros 75), pobl hŷn o leiafrifoedd ethnig, pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy cefnog, pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a phobl sy'n berchen ar eu cartrefi. Mae hyn yn awgrymu y gallai targedu rhai grwpiau o bobl fod yn ffordd fwy effeithiol o gynyddu lefelau defnyddio. Cafodd hyn ei brofi mewn nifer o ALLau lle'r oedd gweithgareddau wedi'u targedu at bobl hŷn wedi llwyddo i gynyddu defnydd. Yn ogystal, dewisodd rai ALLau ganolbwyntio ar y

boblogaeth nad oedd ganddynt basbort fel y rhai a oedd yn berchen ar eu cartrefi a chafwyd llwyddiant yn cynyddu defnydd.

10.2.3 Pam targedu

Mae gwaith gan Oxford Economics yn awgrymu bod nifer sylweddol o ENRs o hyd. Mae hyn, ynghyd â gwerth posibl yr hawliadau dan sylw, a'r ffaith bod canlyniadau'r arolwg yn dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi gwario eu harian yn lleol, yn awgrymu y byddai'n werth cynnal gweithgareddau wedi'u targedu er mwyn cynyddu cyfraddau defnyddio HB a CTB, yn arbennig o gofio'r hinsawdd economaidd bresennol.

Fodd bynnag, mae'n rhaid pwysleisio bod hawliad pob achos ar gyfer CTB ar gyfartaledd yn £700 y flwyddyn sy'n golygu y gallai rhai ENRs benderfynu nad yw'r swm dan sylw yn werth yr ymdrech sy'n angenrheidiol i wneud cais. Mae hyn yn golygu bod angen i ALlau fabwysiadu'r dulliau hynny sy'n gallu adnabod derbynyddion posibl ac sy'n gallu darbwylo pobl i ymgeisio.

10.2.4 Sut i'w rheoli

Roedd pob un o'r rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynglŷn â sut y gweithredwyd y Cynllun. Yn yr un modd, roeddynt i gyd yn cydnabod pwysigrwydd casglu tystiolaeth gadarn o'r hyn sy'n gweithio, i bwy ac o dan ba amgylchiadau. Mae angen monitro a chofnodi canlyniadau defnyddio budd-daliadau yn gyson ym mhob ALI oherwydd byddai hyn yn helpu i fesur effeithiolrwydd yr holl weithgareddau ac yn helpu i ddangos effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd.

10.3 Argymhellion

Gwneir yr argymhellion canlynol:

- Argymhelliad 1 – Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried budd parhau i ariannu Cynllun Defnyddio Budd-daliadau.

Os yw Llywodraeth y Cynulliad yn parhau gyda Chynllun, mae angen gwneud yr argymhellion canlynol:

- Argymhelliad 2 – ALLau yn buddsoddi mewn BTUOs rheng flaen, gweithio mewn partneriaeth a gweithgareddau wedi'u targedu at grwpiau allweddol yn hytrach na chyhoeddusrwydd generig.
- Argymhelliad 3 - ALLau yn canolbwyntio ar bobl hŷn dros 75 oed, pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig, pobl hŷn o leiafrifoedd ethnig a phobl sy'n berchen ar eu cartrefi, ac yn gwneud hynny gan ddefnyddio dull wedi'i dargedu gyda phwyslais ar gysylltiad personol ar adegau pwysig fel cyrraedd oedran pensiwn neu adeg profedigaeth.
- Argymhelliad 4 – ALLau a Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno ar system fonitro a chofnodi sy'n cofnodi gwybodaeth ar pam mae hawlwyr yn hawlio a sut maent yn dod yn ymwybodol bod HB a/neu CTB ar gael a/neu eu bod yn gymwys i'w derbyn.

Atodiad 1 - Crynodeb o'r Adolygiad o'r Dystiolaeth

Dogfen	Crynodeb
Adran Nawdd Cymdeithasol: Overcoming Barriers: Older People and Income Support (1999)	Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau astudiaeth ymchwil a wnaed gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol gynt sy'n ymwneud â'r rhwystrau pwysicaf i ddefnyddio Cymhorthdal Incwm ymhlith pobl 60 oed a hŷn. Roedd hefyd yn ceisio canfod ffyrdd o gynyddu'r defnydd ymhlith pobl â hawl nad ydynt yn dderbynyddion. Nodwyd dwy brif ran i'r rhwystrau i hawlio Cymhorthdal Incwm: • Rhan agweddol, a ddisgrifir hefyd fel dimensiwn y 'stigma'; a • 'Dimensiwn y broses' sy'n cynnwys gwrthwynebiadau i agweddau amrywiol ar y broses hawlio neu safbwyntiau negyddol amdanynt. Cyflwynodd yr adroddiad hwn restr o'r rhwystrau i hawlio cymhorthdal incwm a oedd yn cynnwys: • Yr awydd i barhau'n annibynnol ac yn hunangynhaliol, ac felly'n cynnal synnwyr o falchder. • Ofn y stigma negyddol a'r ensyniadau o hawlio cymhorthdal incwm. • Diffyg ymwybyddiaeth a chamddealltwriaeth o'r broses hawlio. • Gorfod dilyn gweithdrefnau biwrocraidd cymhleth a cholli preifatrwydd. • Problemau cael mynediad i'r swyddfa fudd-daliadau, er enghraifft, oherwydd diffyg trafndiaeth neu gost trafndiaeth, a'r amserau aros tra yn y swyddfa fudd-daliadau. • Cynllun ac iaith ffurflenni cais a nodiadau esboniadol. • Gofynion tystiolaeth.

Dogfen	Crynodeb
	• Y gred bod y gweinyddwyr budd-daliadau'n plismona yn lle helpu, ac yn cael eu hystyried fel awdurdodau oer, biwrocrataidd. • Canlyniadau ceisiadau – ofni cael eu gwrthod, a theimlo nad oedd y ffwdan o ymgeisio'n werth yr arian a dderbyniwyd. Amlygwyd hefyd yn y ddogfen hon y sbardunau i hawlio cymhorthdal incwm, a dyma a ddywedwyd: • Roedd traean o'r rheiny a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn wedi penderfynu hawlio'r cymhorthdal incwm ar ôl cael eu hannog i wneud hynny gan gyswllt proffesiynol. • Anogwyd 28% gan berthynas neu ffrind. • Penderfynodd 22% hawlio ar ôl cael gwybod y gallent fod yn gymwys. • Nododd 7% gyhoeddusrwydd fel ffactor a'u hanogodd i hawlio cymhorthdal incwm. • Roedd 18% yn cael anhawster ymdopi ar eu hincwm cyfredol ac felly wedi penderfynu hawlio cymhorthdal incwm. • I eraill, newid mewn amgylchiadau personol oedd y sbardun i hawlio Cymhorthdal Incwm. • I leiafrif bychan, roedd rhywun wedi hawlio ar eu rhan, neu roedd bil cartref uchel wedi'u sbarduno i wneud cais am Gymhorthdal Incwm. Darparodd derbynyddion enghreifftiau o'r gwelliannau y credent fyddai'n annog pobl i hawlio Cymhorthdal Incwm. Roedd y rhain yn cynnwys: • Llythyr gan Yr Adran Nawdd Cymdeithasol yn dweud y gallent fod yn gymwys i gael Cymhorthdal Incwm.

Dogfen	Crynodeb
	• Ymweliad cartref gan y Swyddfa Fudd-daliadau. • Cymhorthdal Incwm fel ychwanegiad i'r Pensiwn Ymddeol. • Llythyr o'r Swyddfa Budd-dal Tai yn dweud y gallent fod yn gymwys i gael Cymhorthdal Incwm. • Help gan y Swyddfa Fudd-daliadau i lenwi'r ffurflen gais. • Anogaeth gan berson proffesiynol. • Adran ar wahân i bensiynwyr yn y Swyddfa Fudd-daliadau. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Mae'r adroddiad hwn yn nodi amrywiaeth o rwystrau sy'n effeithio ar ddefnyddio budd-daliadau a allai awgrymu bod angen dull gweithredu amlochrog i'w goresgyn neu i leihau eu heffaith. Mae hefyd yn amlwg bod y rhwystrau i ddefnyddio budd-daliadau wedi cael eu cofnodi ers dros ddegawd, sy'n dangos eu bod yn rhwystrau hirdymor sydd, felly'n anodd eu goresgyn. Mae'n awgrymu y byddai dull gweithredu mwy rhagweithiol yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus na chyhoeddusrwydd cyffredinol a bod pobl hŷn yn disgwyl i'r llywodraeth gysylltu â nhw i gychwyn, er y byddai newidiadau mewn amgylchiadau personol yn annog pobl i edrych yn fanylach ar eu hawliau.</i> <i>Awgryma hyn y byddai gwaith yr ALLau yng Nghymru o annog pobl i ddefnyddio budd-daliadau'n fwy llwyddiannus pe baent yn mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol ac amlochrog sy'n targedu pobl, yn arbennig trwy ganolwyr dibynadwy gan gynnig cymorth penodol iddynt, neu'n eu targedu ar adegau penodol yn eu bywydau fel, er enghraifft, ar adegau o brofedigaeth neu wrth symud o oedran gwaith i oedran pensiwn ac ati, neu drwy gynnwys gwybodaeth am hawliau posibl gyda'u biliau cartref a'r dreth gyngor.</i>

Dogfen	Crynodeb
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: <i>Tackling Pensioner Poverty: Encouraging take-up of entitlements</i> (2002)	Archwiliodd yr adroddiad hwn y camau gweithredu a gymerwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ar ei phen ei hun a gydag amrywiaeth o sefydliadau eraill, i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pensiynwyr rhag hawlio. Nododd yr adroddiad fod creu'r Gwasanaeth Pensiwn bryd hynny'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddio dull rhagweithiol o weithredu'r ddarpariaeth o wasanaethau i bensiynwyr, ond na allai'r Gwasanaeth Pensiwn fynd i'r afael â thlodi pensiynwyr ar ei ben ei hun. Yn wir, nododd yr adroddiad y cyfoeth o brofiad a oedd eisoes yn bodoli mewn mannau eraill, ac na fyddai'n gosteffeithiol nac yn briodol i'r Gwasanaeth Pensiwn geisio gwneud hynny. Awgrymwyd ei bod yn hanfodol i'r Gwasanaeth Pensiwn ddatblygu strategaethau i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Nododd yr adroddiad hefyd nad oedd llawer o weithgareddau defnyddio'n ddrud ac roeddynt i'w gweld yn cael cryn effaith, ond cydnabu mai ychydig iawn o dystiolaeth oedd ar gael o'u heffeithiolrwydd cyffredinol, ac roedd angen data gwell i alluogi'r Gwasanaeth Pensiwn ac asiantaethau eraill i benderfynu ble i ganolbwyntio eu hymdrechion er mwyn annog defnydd. Nododd yr adroddiad fwy na 20 rhwystr sylweddol a oedd yn atal pensiynwyr rhag hawlio – rhwystrau y gwyddir eu bod yn atal neu'n oedi hawliadau, ac mae'r rhain yn ymwneud â'r system fudd-daliadau, y ffordd y caiff ei gweinyddu ac agweddau'r cwsmeriaid. Dyma'r rhwystrau a nodwyd:

Dogfen	Crynodeb				
	<table> <tr> <td data-bbox="539 269 1339 539"> System 1 Cydweithredu gwael rhwng gweinyddiaethau 2 Y broses ddilysu 3 Cymhlethdod y system yn gyffredinol 4 Casáu budd-daliadau prawf modd </td><td data-bbox="1361 269 2166 1358"> Lefel cwsmer 10 Anhawster i gwblhau'r ffurflenni cais 11 Methu ailymgeisio pan fydd y rheolau neu'r amgylchiadau'n newid 12 Anhawster deall gwybodaeth 13 Diffyg gwybodaeth sylfaenol am fudd-daliadau a rheolau 14 Amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth bersonol (sy'n ymwneud ag arian ac iechyd) 15 Ddim eisiau ymweld â swyddfeydd yr Asiantaeth Fudd-daliadau 16 Ddim eisiau derbyn cardod am nad ydynt yn gweld budd-daliadau fel hawl/stigma'n gysylltiedig â derbyn budd-daliadau 17 Ofn cael eu gwrthod 18 Ofn dyled (e.e. os bydd angen ad-dalu gordaliad budd-dal) 19 Ofn y byddai camgymeriadau'n cael eu gweld fel celwydd neu dwyll 20 Ofn colli annibyniaeth </td></tr> <tr> <td data-bbox="539 547 1339 970"> Gweinyddiaeth 5 Gormod o ffurflenni i'w llenwi am gymhwysedd 6 Ffurflenni hawlio hir a chymhleth 7 Diffyg gwybodaeth a dryswch 8 Problem o gael mynediad corfforol i swyddfa Asiantaeth Fudd-daliadau 9 Disgwyl cael eu hysbysu o'u hawl (h.y. gadael hynny i'r pensiynwr ei hun) </td><td></td></tr> </table>	System 1 Cydweithredu gwael rhwng gweinyddiaethau 2 Y broses ddilysu 3 Cymhlethdod y system yn gyffredinol 4 Casáu budd-daliadau prawf modd	Lefel cwsmer 10 Anhawster i gwblhau'r ffurflenni cais 11 Methu ailymgeisio pan fydd y rheolau neu'r amgylchiadau'n newid 12 Anhawster deall gwybodaeth 13 Diffyg gwybodaeth sylfaenol am fudd-daliadau a rheolau 14 Amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth bersonol (sy'n ymwneud ag arian ac iechyd) 15 Ddim eisiau ymweld â swyddfeydd yr Asiantaeth Fudd-daliadau 16 Ddim eisiau derbyn cardod am nad ydynt yn gweld budd-daliadau fel hawl/stigma'n gysylltiedig â derbyn budd-daliadau 17 Ofn cael eu gwrthod 18 Ofn dyled (e.e. os bydd angen ad-dalu gordaliad budd-dal) 19 Ofn y byddai camgymeriadau'n cael eu gweld fel celwydd neu dwyll 20 Ofn colli annibyniaeth	Gweinyddiaeth 5 Gormod o ffurflenni i'w llenwi am gymhwysedd 6 Ffurflenni hawlio hir a chymhleth 7 Diffyg gwybodaeth a dryswch 8 Problem o gael mynediad corfforol i swyddfa Asiantaeth Fudd-daliadau 9 Disgwyl cael eu hysbysu o'u hawl (h.y. gadael hynny i'r pensiynwr ei hun)	
System 1 Cydweithredu gwael rhwng gweinyddiaethau 2 Y broses ddilysu 3 Cymhlethdod y system yn gyffredinol 4 Casáu budd-daliadau prawf modd	Lefel cwsmer 10 Anhawster i gwblhau'r ffurflenni cais 11 Methu ailymgeisio pan fydd y rheolau neu'r amgylchiadau'n newid 12 Anhawster deall gwybodaeth 13 Diffyg gwybodaeth sylfaenol am fudd-daliadau a rheolau 14 Amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth bersonol (sy'n ymwneud ag arian ac iechyd) 15 Ddim eisiau ymweld â swyddfeydd yr Asiantaeth Fudd-daliadau 16 Ddim eisiau derbyn cardod am nad ydynt yn gweld budd-daliadau fel hawl/stigma'n gysylltiedig â derbyn budd-daliadau 17 Ofn cael eu gwrthod 18 Ofn dyled (e.e. os bydd angen ad-dalu gordaliad budd-dal) 19 Ofn y byddai camgymeriadau'n cael eu gweld fel celwydd neu dwyll 20 Ofn colli annibyniaeth				
Gweinyddiaeth 5 Gormod o ffurflenni i'w llenwi am gymhwysedd 6 Ffurflenni hawlio hir a chymhleth 7 Diffyg gwybodaeth a dryswch 8 Problem o gael mynediad corfforol i swyddfa Asiantaeth Fudd-daliadau 9 Disgwyl cael eu hysbysu o'u hawl (h.y. gadael hynny i'r pensiynwr ei hun)					

Dogfen	Crynodeb
	21 Ddim yn hoffi ymdrin â biwrocratiaeth/pryder ynghylch ymdrin â swyddogion 22 Gormod o ffwdan/nid yw swm y budd-dal yn werth yr ymdrech. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar y 10 prif rwystr a gwnaeth yr argymhellion canlynol er mwyn cynyddu'r defnydd: • Dylai'r Gwasanaeth Pensiwn osod targedau cenedlaethol realistig ac uchelgeisiol ar gyfer defnyddio Credydau Pensiwn. • Er mwyn gosod targedau realistig, asesu effeithiolrwydd y mentrau defnyddio a mesur y tueddiadau dros amser, rhaid i'r Adran gael data gwell ar y nifer amcangyfrifol nad ydynt yn defnyddio budd-daliadau, a adroddir mewn bandiau eang dros ben ar hyn o bryd; • Dylai'r Adran wneud mwy i symleiddio'r broses o hawlio budd-daliadau. • Dylai'r Adran barhau â'i hymchwil i ddeall y rhwystrau i ddefnyddio ymhlith is-grwpiau arbennig, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig, pensiynwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, a'r rhai â nam ar y synhwyrâu. • Dylai'r Gwasanaeth Pensiwn wneud y defnydd gorau posibl o gysylltiadau cyfredol pensiynwyr ag asiantaethau dibynadwy fel gweithwyr iechedd proffesiynol. • Dylai penderfyniadau ynghylch lle i ganolbwyntio adnoddau ar ddefnyddio fod ar sail tystiolaeth a fydd, yn ei dro, yn golygu bod angen ymchwil pellach ar beth sy'n gweithio, i bwy mae'n gweithio, ac o dan ba amgylchiadau. • Ni all y Gwasanaeth Pensiwn fynd i'r afael â rhwystrau i ddefnyddio ar ei ben ei hun, felly rhaid iddo weithio

Dogfen	Crynodeb
	gyda nifer o sefydliadau eraill, y sector gwirfoddol a'r ALLau sydd â phrofiad a chysylltiadau i helpu i annog pensiynwyr i hawlio. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai hyn yn awgrymu y dylai ALLau yng Nghymru osod targedau ar gyfer defnyddio a mesur y cynnydd dros amser. Byddai hyn yn golygu buddsoddi rhywfaint o amser ac adnoddau i asesu effaith eu gweithgareddau, ond byddai hyn yn eu helpu i fabwysiadu dulliau gweithredu sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth ac felly'n eu helpu i sicrhau bod cynlluniau dilynol yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Byddai'n awgrymu hefyd y dylai ALLau fabwysiadu dull o weithredu mewn partneriaeth ag asiantaethau a sefydliadau lleol perthnasol yn ogystal â thrwy ganolwyr dibynadwy.</i>
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin <i>Tackling Pensioner Poverty – Encouraging Take-Up of Entitlements (2003)</i>	Yn dilyn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2002, archwiliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin gamau gweithredu'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Gwasanaeth Pensiwn ar ei ben ei hun ac mewn partneriaeth ag eraill i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pensiynwyr rhag defnyddio. Daeth y Pwyllgor i nifer o gasgliadau: • Roedd yna ffocws a dull gweithredu newydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer defnyddio, ond roedd eu llwyddiant yn dibynnu ar gael targedau uchelgeisiol a gwella safon y wybodaeth am lefelau defnyddio. • Roedd dryswch a chymhlethdod yn parhau'n rhwystrau mawr i ddefnyddio. • Roedd gweithio mewn partneriaeth yn rhoi'r cyfle i gyfuno ymdrechion asiantaethau a sefydliadau eraill ac, er bod yna enghreifftiau o arferion da, ychydig o ddata oedd wedi'i gyhoeddi ar beth oedd yn gweithio.

Dogfen	Crynodeb
	• Roedd yna le i symleiddio prosesau, i ddefnyddio gwybodaeth yn fwy effeithiol ac i leihau dyblygu. Gwnaeth y Pwyllgor gyfres o argymhellion, gan gynnwys: – Gosod targedau, a oedd yn fwyfwy uchelgeisiol. – Symleiddio'r prosesau a lleihau dyblygu. – Cyfathrebu'n effeithiol â phensiynwyr trwy lenyddiaeth ac amrywiaeth o gyfryngau. Awgrymwyd bod yn greadigol wrth gyflwyno'r neges i'r cyhoedd, er enghraifft, cael llinell storiol mewn cyfres deledu boblogaidd. – Gweithio gydag eraill mewn ffyrdd cost-effeithiol, er enghraifft, cysylltu â meddygfeydd, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a swyddfeydd post – canolwyr dibynadwy. Mae'n werth nodi bod y Pwyllgor wedi nodi nad oedd digon o wybodaeth am ddefnyddio ac roedd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i'r Adran Gwaith a Phensiynau asesu ble i ganolbwyntio'i hadnoddau. Awgrymwyd datblygu Arolwg o Adnoddau Teulu. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai hyn yn awgrymu bod angen i ALLau osod targedau heriol a mesur eu cynnydd, er bod y prinder o wybodaeth ddibynadwy am y rhai nad ydynt yn defnyddio yn her wrth benderfynu lle i ganolbwyntio adnoddau. Mae hefyd yn awgrymu bod yna le i symleiddio a lleihau'r dyblygu a allai gynnwys adolygu a diwygio'r ffurflenni ymgeisio'n rheolaidd. Mae hefyd yn awgrymu y dylai'r ALLau fod yn greadigol yn eu gwaith cyhoeddusrwydd er mwyn cyflwyno'u neges ar ddefnyddio budd-daliadau a gallent fod yn fwy cost-effeithiol trwy weithio gyda</i>

Dogfen	Crynodeb
	<i>chanolwyr dibynadwy.</i>
Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon: <i>Encouraging Take-up of Benefits by Pensioners (2003)</i>	Roedd yr adroddiad hwn yn archwilio beth oedd yr Adran Datblygu Cymdeithasol wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r broblem o dlodi pensiynwyr trwy gynyddu'r defnydd o fudd-daliadau. Roedd rhai o'r canfyddiadau allweddol yn dangos bod yna: • Brinder gwybodaeth ddigonol a dibynadwy am ddefnyddio budd-daliadau. Argymhellodd yr adroddiad y dylid casglu data ar y niferoedd y tybiwyd nad oeddynt yn defnyddio er mwyn gallu dadansoddi'r broblem a gosod targedau realistig ac asesu effeithiolrwydd mentrau defnyddio. • Roedd yna angen parhaus i fynd i'r afael â materion dylunio a llunio opsiynau haws a chost-effeithiol mewn perthynas â'r ffurflenni cais. • Dylai'r Adran ddal ati i fonitro effeithiolrwydd defnyddio'r ffôn fel y brif ffordd o ddarparu gwybodaeth a chynghor ar fudd-daliadau, yn hytrach na chysylltiad wyneb-yn-wyneb. • Dylai'r Adran ganolbwyntio ar amrywiaeth o fudd-daliadau yn ei mentrau defnyddio. • Er mwyn darbwyllo pensiynwyr cyndyn i hawlio'r hyn y mae ganddynt yr hawl i'w dderbyn, mae angen mwy o gydgyssylltu rhwng yr Adran a'r sefydliadau gwirfoddol hynny sydd wedi meithrin cysylltiadau â phensiynwyr yn lleol. • Roedd yna le i'r Adran weithio'n fwy dwys gyda'r sector gwirfoddol er mwyn cysylltu'n fwy uniongyrchol â phensiynwyr yn eu cymunedau eu hunain trwy chwilio am gyfleoedd i ddarparu cynghor ar fudd-daliadau mewn meddygfeydd a chanolfannau iechyd.

Dogfen	Crynodeb
	<i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â phrinder gwybodaeth ddigonol a dibynadwy am ddefnyddio budd-daliadau, ond byddai'n awgrymu bod yna le o hyd i ALLau fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau gweinyddol sy'n gysylltiedig â defnyddio a gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol a thrwy ganolwyr dibynadwy.</i>
Is-adran Cymorth Tai yr Adran Gwaith a Phensiynau: Council Tax Benefit Take- up: A Best Practice Guide (2004)	Mae'r Canllaw hwn, a gynhyrchwyd gan Is-adran Cymorth Tai'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn darparu rhesymau pam nad yw pobl yn hawlio'r CTB y mae ganddynt yr hawl i'w gael ac yn rhoi enghreifftiau o fentrau diweddar gan awdurdodau i helpu i uchafu'r defnydd o'r CTB. Roedd rhai o'r rhwystrau a oedd yn atal pobl rhag hawlio'r CTB a nodwyd yn y cyhoeddiad yn cynnwys: • Diffyg gwybodaeth am y CTB. • Gweithgareddau heb eu cydgysylltu gan awdurdodau. • Stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau. • Profiadau gwael yn y gorffennol wrth fynd i'r afael â cheisiadau am fudd-daliadau. • Anaddasrwydd hawlio dros y ffôn i grwpiau arbennig sy'n agored i niwed. • Proses hawlio gymhleth. • Diffyg cysylltiad personol yn ystod y drefn ymgeisio. Rhoddwyd awgrymiadau hefyd ar sut i oresgyn y rhwystrau hyn. Dyma rai enghreifftiau o arferion gorau awdurdodau lleol: • Sioeau teithiol budd-daliadau yn yr ardal.

Dogfen	Crynodeb
	• Darparu “cyfrifyddion parod” bach fel y gall cwsmeriaid weld y cyfyngiadau incwm ar gyfer y CTB. • Cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein. • Bws budd-daliadau i gyrraedd hawlwyf cyfredol a darpar-hawlwyf gyda chyfrifiaduron ar-lein fel y gall staff brosesu ceisiadau. • Gweithio ar y cyd gyda grwpiau gwirfoddol i dargedu ardaloedd lle ceir defnydd isel o fudd-daliadau. Yn olaf, roedd yr adroddiad yn cynnwys rhestr wirio i Awdurdodau Lleol oedd â saith cam gweithredu a oedd yn cynrychioli meysydd hanfodol o weithgareddau defnyddio. Roedd y rhain yn amrywio o arddangos deunydd hyrwyddo i ymwybyddiaeth staff i ddefnyddio holl gysylltiadau'r ALLau a gweithio gyda grwpiau hunangymorth. Mae gwefan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnwys gwybodaeth a thafleini i ategu ymgyrchoedd Defnyddio'r CTB. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Mae'r canllaw hwn yn darparu amrywiaeth o awgrymiadau ymarferol ac yn cynnig rhestr wirio y gall ei defnyddio er mwyn asesu neu archwilio eu gweithgareddau defnyddio yn ei herbyn.</i>
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Progress in Tackling Pensioner Poverty:	Yn 2006, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad ar asesu'r cynnydd yr oedd yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i wneud yn helpu pensiynwyr i ddiogelu eu hawlau. Canfu'r adroddiad fod y Gwasanaeth Pensiwn wedi gwneud cynnydd gwirioneddol a sylweddol. Fodd bynnag, roedd angen gwneud mwy o welliannau, gan gynnwys: • Dylai targedau a osodwyd i'r Gwasanaeth Pensiwn gan yr Adran adlewyrchu'r angen i hyrwyddo'r gwaith o fynd

Dogfen	Crynodeb
<i>Encouraging take-up of entitlements (2006)</i>	i'r afael â thlodi pensiynwyr ymhellach, gan wneud mwy nag annog defnyddio'r Credyd Pensiwn yn unig. • Dylai'r Adran wella'r data ymhellach ar y rhai nad ydynt yn hawlio, yn arbennig o ran y Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor. • Dylai gwaith lleol gael ei dargedu'n well trwy gyfuno ffynonellau data ac annog ymreolaeth leol; • Dylai'r Adran ddatblygu sut mae'n monitro cost-efeithiolrwydd er mwyn llywio strategaethau'r dyfodol a thargedu adnoddau lleol. • Mae angen polisi clir ar rôl ehangach y Gwasanaeth Pensiwn fel porth i wasanaethau eraill. Nododd yr adroddiad bod llai o bobl wedi defnyddio'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor ac awgrymwyd bod defnyddio'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor cyn bwysiced â defnyddio'r Credyd Pensiwn o ran ceisio lleihau tlodi pensiynwyr. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Mae'r adroddiad hwn yn darparu sail resymegol glir i ALLau ganolbwyntio ar HB a CTB ac awgrymir bod yna le a gwerth i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i amcangyfrifo'r niferoedd nad ydynt yn defnyddio.</i>
<i>Yr Adran Gwaith a Phensiynau: Understanding the relationship between the barriers and</i>	Cofnododd yr adroddiad hwn ganfyddiadau prosiect ymchwil ansoddol mawr a oedd â'r nod o ddarparu golwg fwy treiddgar ar y rhwystrau i hawlio Credyd Pensiwn a sut y gellir eu goresgyn. Y rhwystr mwyaf cyffredin a ganfuwyd oedd y gred na fyddent yn gymwys i gael y Credyd Pensiwn. Roedd rhwystrau llai yn ymwneud â'r broses hawlio, gan gynnwys amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth ariannol, ofn cyflwyno dogfennau ac ofn gwneud camgymeriadau ar y ffurflen gais.

Dogfen	Crynodeb
triggers to claiming Pension Credit (2006)	Y sbardun mwyaf cyffredin i ddefnyddio oedd ymweliad personol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau/ Gwasanaeth Pensiwn. Mewn rhai achosion, roedd llythyr gan y Gwasanaeth Pensiwn yn sbardun i wneud cais, gydag eraill wedi cael cyngor neu anogaeth gan drydydd parti neu berthnasau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y byddai llinell gymorth gyfrinachol i benderfynu a oedd rhywun yn gymwys ai peidio yn help i annog defnydd. Pwysleisiodd bwysigrwydd marchnata hyn i deuluoedd, gan adael iddynt wybod y gallent ddefnyddio'r llinell i weld a oedd perthynas yn gymwys heb orfod rhoi enw. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai'r adroddiad hwn yn awgrymu bod angen codi ymwybyddiaeth o gymhwysedd ymhlith trigolion cyngorau a bod dull gweithredu rhagweithiol yn llwyddo'n well i annog pobl i ymgeisio. Mae hefyd yn nodi bod helpu pobl i weld a ydynt yn gymwys mewn modd cyfrinachol yn ffordd lwyddiannus o fynd ati. Gan y gallai llinell frys fod yn rhy gostus i nifer o ALLau bach, awgrym arall fyddai cael cyfrifyddion parod neu declyn budd-daliadau ar y we. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n darparu Llinell Ymholiadau Budd-daliadau ar hyn o bryd sy'n rhoi gwybodaeth am fudd-daliadau nawdd cymdeithasol. Mae yna hefyd wasanaeth cynghori ar fudd-daliadau ar-lein ar wefan Directgov sy'n galluogi i ddarparu hawlwyr gael gafael ar wybodaeth am fudd-daliadau a chredydau treth y gallent fod â'r hawl i'w derbyn, a allai gael gwared â'r angen am linellau cymorth i awdurdodau unigol.</i>
Yr Adran Gwaith a Phensiynau: Helping older people engage with benefits	Roedd yr adroddiad hwn yn gwerthuso Cronfa Bartneriaeth y Gwasanaeth Pensiwn, gan archwilio sut y cafodd y Gronfa ei gweithredu, ei chyflwyno a'i chanlyniadau a sut yr oedd wedi cyfrannu at ddealltwriaeth well o arferion da wrth ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn. Nod y Gronfa Bartneriaeth oedd datblygu rhwydweithiau clir o wasanaethau i bobl hŷn trwy annog partneriaid i weithio ar y cyd ac ariannu amrywiaeth eang o sefydliadau lleol a

Dogfen	Crynodeb
<i>and services: an evaluation of the Partnership Fund (2007)</i>	chenedlaethol i gynnal prosiectau unigol i wella'r defnydd o fudd-daliadau, yn arbennig ymhlith y rhai anoddach i'w cyrraedd. Nododd yr adroddiad fod y rhwystrau a ganfuwyd yn debyg i'r rhai a ganfuwyd mewn ymchwil flaenorol, sef diffyg dealltwriaeth o'r system fudd-daliadau, diffyg eglurder ynghylch cymhwysedd, y gred bod ymgeisio am fudd-daliadau'n broses gymhleth a'r stigma o dderbyn budd-daliadau. Canfu'r astudiaeth fod y prosiectau'n defnyddio chwe dull eang o dargedu pobl hŷn: • Defnyddio cronfeydd data cyfredol i gysylltu â phobl hŷn. • Dosbarthu deunydd wedi'i argraffu, e.e. taflenni a phosteri. • Annog y cyfryngau lleol a chyfryngau arbenigol i gymryd rhan. • Trosglwyddo manylion y gwasanaeth ar lafar. • Cynnal gwasanaeth allgymorth cymunedol. • Defnyddio'r ffôn i gyflwyno'r prosiect ac i esbonio beth y gallai gynnig. Gwerthuswyd y Gronfa Bartneriaeth yn 2007. Canfuwyd y gellid amcangyfrif mai £61 miliwn y flwyddyn yw cyfanswm y budd-daliadau a ddyfernir trwy'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, nodwyd fod yna nifer o heriau pwysig wrth asesu effaith y Gronfa Bartneriaeth ar gwsmeriaid prosiectau, gan ei bod hi'n anodd gwahanu'r canlyniadau a ddaeth yn sgil gweithgareddau'r Gronfa Bartneriaeth yn unig a chanlyniadau a allai fod wedi dod yn sgil cysylltiad arferol pobl hŷn â'r Gwasanaeth Pensiwn. Mae'n werth nodi hefyd bod yr adroddiad yn nodi bod yna waith

Dogfen	Crynodeb
	partneriaeth i'w weld yn amlwg ar draws mwy na thri chwarter o'r prosiectau a arolygwyd ac roedd y prosiectau hynny a oedd yn sôn am weithio mewn partneriaeth yn enwi amrywiaeth eang o sefydliadau partner. Fodd bynnag, roedd mentrau nad oeddynt yn bodoli cyn y Gronfa Bartneriaeth neu nad oeddynt â phartneriaid yn dueddol o fynd trwy gyfnod o adsefydlu. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai'r adroddiad gwerthuso hwn yn awgrymu bod angen i ALLau fabwysiadu ystod o fesurau i ymgysylltu â derbynyddion budd-dal posibl a gallai partneriaethau sydd eisoes wedi'u sefydlu weithio'n well na sefydlu partneriaethau newydd o bosibl. Mae hefyd yn awgrymu bod angen ystyried sut i fesur effaith gweithgareddau a phennu dylanwad y gweithgareddau hyn dros ac uwchlaw dylanwad y dirwasgiad.</i>
Adran Gwaith a Phensiynau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin: Progress in tackling pensioner poverty – encouraging take-up of entitlements (2007)	Roedd rhagflaenydd y Pwyllgor wedi gwneud argymhellion i'r Adran Gwaith a Phensiynau i fynd i'r afael â thlodi pensiynwyr trwy annog pensiynwyr i ddefnyddio'r budd-daliadau yr oedd ganddynt yr hawl i'w derbyn. Roedd y Pwyllgor hwnnw wedi argymhell gosod targedau, cyfathrebu'n effeithiol â phensiynwyr; gweithio mewn partneriaeth; a symleiddio a lleihau'r ailadrodd mewn prosesau. Roedd y Llywodraeth wedi gosod targed i dalu Credyd Pensiwn i 3 miliwn o gartrefi erbyn 2006 a 3.2 miliwn erbyn 2008. Fodd bynnag, ni chyflawnodd yr Adran Gwaith a Phensiynau darged 2006 ac nid oedd yn disgwyl cyflawni targed 2008. Daeth yr adroddiad i'r casgliadau canlynol: Roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cynyddu nifer y bobl a oedd yn hawlio Credydau Pensiwn, ond nid oedd targed Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus yr Adran Gwaith a Phensiynau'n mynd i'r afael â'i nod

Dogfen	Crynodeb
	ehangach o roi i bensiynwyr ddull cyfannol o hawlio'r budd-daliadau yr oedd ganddynt yr hawl i'w cael. • Nid oedd y Gwasanaeth Pensiwn yn cydgysylltu ei ddull gweithredu ddigon gyda'r prif sefydliadau iechyd a thai, er bod ganddo'r un nod cyffredin o gynyddu lles pobl hŷn. • Roedd y gwaith o baru a rhannu data wedi gwella, ond nid oedd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ddigon o wybodaeth am amgylchiadau unigol pensiynwyr i fedru nodi eu holl hawliau budd-daliadau, a dim ond gwybodaeth am bobl o fewn y system fudd-daliadau oedd ganddi. • Roedd nifer y rhai a oedd yn defnyddio'r HB a'r CTB wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, er bod y Gwasanaeth Pensiwn yn gwirio hawl pensiynwyr i fudd-daliadau'n llawn. Awgrymodd yr adroddiad mai sut roedd ALLau yn rheoli budd-daliadau a darparu cyngor oedd yn debygol o fod yn gyfrifol am yr amrywiaeth mewn defnydd rhwng un ardal â'r llall. • Mater arall oedd yr anawsterau o fesur cyfraddau defnyddio oherwydd cymhlethdod yr asesiad o gymhwysedd i fudd-daliadau anabledd. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi comisiynu ymchwil ar ddichonoldeb mesur y defnydd o'r Lwfans Gweini ac archwilio'r rhesymau pam nad yw pobl yn ei hawlio. Awgrymwyd y dylai canfyddiadau'r adroddiad hwn gael eu defnyddio i osod targed ar gyfer y lefel defnyddio, gan nad oes gan yr Adran Gwaith a Phensiynau unrhyw dargedau ar gyfer defnyddio. • Er gwaetha'r ffaith ei bod hi'n symlach hawlio budd-daliadau pensiynwyr bellach, mae yna nifer o gyfnodau'n parhau lle mae angen i'r cwsmeriaid ddeall y cysylltiadau cymhleth rhwng budd-daliadau anabledd a'r rhai sy'n seiliedig ar incwm. Awgrymwyd y dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau ganiatáu i gwsmeriaid hawlio budd-daliadau cysylltiedig trwy un taliad sengl. • Nododd yr adroddiad fod pensiynwyr hŷn, pensiynwyr o leiafrifoedd ethnig ac o ardaloedd mwy cefnog yn llai

Dogfen	Crynodeb
	tebygol o hawlio Credyd Pensiwn, yn ogystal â phensiynwyr mewn ardaloedd gwledig. Er bod yna nifer o ddulliau gweithredu gwahanol i annog defnydd, ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd ar gael o beth sy'n gweithio orau. Trwy rannu arferion da ac annog arferion arloesol, gellir cynyddu'r defnydd, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae llai o ddefnydd. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai'r adroddiad pwyllgor hwn yn awgrymu bod angen i ALLau fabwysiadu dull gweithredu cyfannol sy'n seiliedig ar waith partner, ac mae yna le o hyd i ALLau wella rhai o'r rhwystrau gweinyddol. Mae hefyd yn awgrymu y gallai ALLau elwa o dargedu categorïau arbennig o bobl fel pensiynwyr hŷn, pensiynwyr o leiafrifoedd ethnig ac o ardaloedd mwy cefnog a phensiynwyr mewn ardaloedd gwledig sy'n llai tebygol o hawlio budd-daliadau ychwanegol. Yn olaf, mae'n bwysig bod ALLau yng Nghymru'n rhannu arferion gorau ac yn annog arferion arloesol er mwyn uchafu'r defnydd.</i>
Cymdeithas Llywodraeth Leol: A benefit to eight million houses: what CTB does and how to improve it, 2007	Mae'r ddogfen hon yn awgrymu rhai newidiadau i'r CTB er mwyn ei gwneud hi'n decach a chynyddu'r cyfraddau defnyddio. Cynigiodd yr adroddiad gyfres o naw egwyddor i ddiwygio'r CTB. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â diwygio cynllun y CTB ac mae hyn y tu allan i bwerau'r ALLau. Fodd bynnag, roedd tair ohonynt yn ymwneud â hyrwyddo'r defnydd gan ALLau. Y tair egwyddor oedd: • Mae angen i ALLau ganfod ffyrdd o helpu pobl i weld eu hunain fel pobl a allai fanteisio ar CTB. • Mae angen i ALLau adnabod, ac ymateb i'r ffaith fod tri chwarter o bobl â hawl nad ydynt yn dderbynyddion o'r CTB yn berchen-feddianwyr. • Gallai ALLau gynnig gwiriad budd-daliadau i bob cartref pan fydd aelod cyntaf y cartref yn cyrraedd 60 oed, yn

Dogfen	Crynodeb
	ogystal ag ar adegau eraill pwysig o’u bywydau. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai’r adroddiad hwn yn awgrymu bod angen i ALLau hyrwyddo’r cymhwysedd i dderbyn budd-daliadau, targedu perchen-feddianwyr ar adegau penodol yn eu bywydau, er enghraifft, ar adeg profedigaeth neu pan yn symud o oedran gwaith i oedran pensiwn, neu wrth golli swydd ac ati.</i>
Ymchwilio’r Farchnad a’r Gymdeithas: Research on Access to Benefits (2007)	Roedd yr adroddiad hwn, a gomisiynwyd gan Access to Benefits (A2B) yn ceisio darparu dealltwriaeth well o’r amrywiaeth o agweddau sydd gan bobl hŷn tuag at hawlio budd-daliadau a chanfod ffyrdd eraill o gyrraedd pobl hŷn. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda phobl hŷn mewn amrywiaeth o leoliadau daearyddol yng Ngogledd Iwerddon ac ymgynghorwyd hefyd â chynrychiolwyr o Weithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon, yr Asiantaeth Casglu Trethi ac ymddiriedolaethau ysbyty lleol a chynghor lleol. Dyma rai o’r rhwystrau a ganfuwyd yn yr ymchwil hwn: • Diffyg ymwybyddiaeth o fudd-daliadau. • Cymryd yn ganiataol nad oeddynt yn gymwys. • Credu bod natur y broses ymgeisio’n gymhleth/rhy bersonol. • Ofn colli budd-daliadau. • Yr hawl i fudd-daliadau’n cael ei gyfathrebu’n wael. • Stigma sy’n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau. • Balchder. • Ofn y byddai gwneud cais am fudd-dal yn golygu bod budd-daliadau eraill yn dod i ben. • Sgiliau cyfrifiadurol gwael.

Dogfen	Crynodeb
	Roedd yr awgrymiadau i gynyddu'r defnydd o fudd-daliadau'n cynnwys: • Ymweliadau personol gan gynghorwyr. • Llythyron a oedd yn rhoi'r argraff gref y gallent fod yn gymwys. • Cymorth neu anogaeth gan sefydliadau trydydd parti. • Llinell gymorth gyfrinachol i benderfynu a oedd rhywun yn gymwys ai peidio. • Ffurflenni cais a ddosbarthwyd i'r cyhoedd eisoes. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai'r adroddiad hwn yn awgrymu bod angen i ALLau fabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol, gwella'r broses weinyddol a gweithio trwy ganolwyr dibynadwy.</i>
Llywodraeth Cynulliad Cymru: Budd-dal y dreth gyngor a'r budd-dal tai: Rhwystrau i hawlio yng Nghymru (2008)	Yn ogystal â darparu arian ar gyfer defnyddio budd-daliadau, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru weithgor i ymchwilio i'r rhwystrau i ddefnyddio CTB yng Nghymru ac i amlygu a hyrwyddo arferion gorau, ar sail profiadau'r ALLau sydd wedi llwyddo i gynyddu'r defnydd o CTB. Amlygodd canfyddiadau'r ymchwil annibynnol hwn nifer o rwystrau ac argymhellion, gan gynnwys: • Y ffurflen gais a dogfennau gofynnol - roedd yna amrywiaeth eang rhwng arddull, cynllun a hyd y ffurflen gais, gyda ffurflenni cais hyd at 40 tudalen o hyd. Roedd ffurflenni eraill yn defnyddio ysgrifen llai o faint na'r hyn a argymhellir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. • Roedd maint ac amrywiaeth y wybodaeth ofynnol yn achosi problemau, yn arbennig gan nad oedd weithiau rhyw lawer o ganllawiau ar pam yr oedd angen y wybodaeth a ble y gellid ei chael.

Dogfen	Crynodeb
	Argymhellodd yr adroddiad y dylai pob awdurdod yng Nghymru adolygu ei ffurflenni hawlio'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben a heb eu dylunio mewn modd a allai lesteirio hawlwyrs posibl. • Yr amserlen ar gyfer dosbarthu'r ffurflen gais - canfu'r ymchwil fod dros hanner yr awdurdodau'n cymryd mwy na deng niwrnod i gadarnhau hawl ar ôl iddynt dderbyn y cais. Argymhellodd yr adroddiad y dylai pob ALI adolygu ei systemau ymgeisio ar frys fel y gallai pob cais gael ei gofnodi ar ddiwrnod ei dderbyn a bod ffurflenni cais yn cael eu dosbarthu'n syth. • Rhwystrau llythrennedd, iaith a chyfathrebu – roedd yna broblemau o ran symud o un fan i'r llall ar wefannau'r ALLau ac roedd yna amrywiaeth eang o ran cynnwys y gwefannau. Yn ogystal â hyn, er bod nifer o ALLau wedi'i gwneud hi'n bosibl i lawrlwytho ffurflenni cais o'u gwefannau, ychydig iawn o nodiadau canllaw oedd ar gael. Argymhellodd yr adroddiad y dylai pob awdurdod adolygu ei wefan er mwyn sicrhau bod modd symud o'i hamgylch yn hawdd, ei bod yn hawdd i'w defnyddio ac yn gyfoes. • Profiad cyffredinol y cwsmer – nododd yr ymchwil ddiffyg cysylltiad personol â chwsmeriaid. Yn ogystal â hyn, roedd y diffyg 'perchenogaeth' o'r asesiad ymgeisio a'r syniad y byddai nifer o aseswyr yn gallu gweld gwybodaeth breifat a phersonol tu hwnt yn gofidio rhai ymgeiswyr. Argymhellodd yr adroddiad y dylai ALLau sicrhau bod staff hyfforddedig ar gael bob amser gydol y broses hawlio. Nododd yr ymchwil hefyd amrywiaeth o rwystrau i ddefnyddio budd-daliadau a chyflwynwyd cyfres o awgrymiadau ar sut i'w goresgyn, ond cydnabu na fyddai pob un o'r rhain yn briodol i bob ALI. Roedd y rhain yn cynnwys: – Trothwy cynilion - angen ymateb strategol. – Stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau. Roedd awgrymiadau'n cynnwys hyrwyddo "hawl" yn hytrach na "budd-dal".

Dogfen	Crynodeb
	– Rhwystrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys hyrwyddo gwasanaethau wyneb-yn-wyneb, marchnata, defnyddio cyfrifyddion parod ac ati. – Ofn colli budd-daliadau cyfredol a phrofiad negyddol blaenorol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys defnyddio datganiadau i'r wasg a thynnu sylw at astudiaethau achos hawlwyr llwyddiannus. – Ddim yn gyfarwydd ag iaith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys gofyn i ALLau adolygu ac egluro termau dryslyd. – Anallu i rannu gwybodaeth ag adrannau eraill o'r llywodraeth – angen ymateb strategol – Mynediad, h.y. i bobl sy'n gaeth i'r tŷ, y rhai sy'n gweithio'n llawn amser ac ati. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys ymweliadau cartref a gwasanaethau y tu allan i oriau. – Ofn cysylltiadau'n cael eu gwneud ag asiantaethau eraill, e.e. rhannu gwybodaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys sefydlu partneriaethau gyda chanolwyr dibynadwy, e.e. Age Concern. – Y gost bosibl o ddarparu gwybodaeth gefnogol, e.e. copïau o gyfriflenni banc. Canfuwyd sawl ffactor allweddol gan y gweithgor hefyd y tybiwyd eu bod yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus cynlluniau gweithredu'r ALLau ar ddefnyddio budd-daliadau. Y ffactorau hyn oedd: • Pwysigrwydd cael cymorth a chefnogaeth Aelodau Cabinet a Thimau Rheoli Uwch yr awdurdodau lleol. • Agwedd ac ymrwymiad staff. • Uno ac eraill, yn fewnol ac yn allanol, i gyflawni targedau, e.e. gyda phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf o fewn yr ALI, gydag awdurdodau cyfagos neu drwy weithio gyda sefydliadau partner fel y Gwasanaeth Pensiwn.

Dogfen	Crynodeb
	Gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai'r adroddiad hwn yn awgrymu bod angen i ALLau wella'u prosesau gweinyddol a'u deunyddiau cyfathrebu/marchnata, mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol a phersonol, gweithio mewn partneriaeth ag eraill a thrwy ganolwyr dibynadwy yn ogystal â sicrhau cymorth gan reolwyr uwch ac ymrwymiad staff trwy, er enghraifft, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth.</i>
Access to Benefits for Older People: Summary of findings of workshops (2008)	Trefnodd <i>Access to Benefits</i> (A2B) gyfres o weithdai seiliedig ar thema gyda phobl hŷn a gweithwyr datblygu cymunedol yng Ngogledd Iwerddon er mwyn ceisio cysylltu â phobl hŷn a'r bobl a oedd yn gweithio gyda nhw a dysgu mwy am sut y gellid mynd i'r afael â'r rhwystrau i hawlio budd-daliadau. Roedd y canfyddiadau'n cynnwys: - Roedd pob grŵp o ymatebwyr yn gallu adnabod y Credyd Pensiwn a'r <i>Smartpass</i> fel budd-daliadau a oedd ar gael i bobl dros 60 oed. Roedd y mwyafrif yn gallu enwi'r Lwfans Byw i'r Anabl, y Budd-dal Tai, Taliad Tanwydd Gaeaf a'r Drwydded Deledu am ddim. - O ran y rhwystrau i ddefnyddio cyfrifiaduron, roedd y materion a nodwyd yn cynnwys rhwystrau fel cost offer cyfrifiadurol, band-eang a chysiau, mynediad i gyfrifiaduron, iechyd a rhwystrau technolegol. - Credai nifer o'r grwpiau bod y broses yn ei gwneud hi'n rhy gymhleth i hawlio budd-daliadau. Nid oedd eraill am gwblhau ffurflenni yr ystyrient yn bersonol neu'n amharchus, tra bod rhai grwpiau wedi nodi nad oedd ganddynt unrhyw un i'w helpu i lenwi'r ffurflenni. - Defnyddio grwpiau gwirfoddol a chymunedol oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o gael gwybodaeth i bobl hŷn, gan gynnwys sefydliadau mwy o faint yn ogystal â grwpiau cymunedol lleol.

Dogfen	Crynodeb
	<i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai'r adroddiad hwn yn awgrymu bod yna fudd mewn codi ymwybyddiaeth o argaeledd neu/a chymhwysedd HB a CTB, gwella'r broses weinyddol a sicrhau bod yna gymorth penodol ar gael, yn ogystal â gweithio gyda'r sector gwirfoddol.</i>
Access to Benefits: Take-Up Study: Rate Relief and Disabled Person's Allowance (2008)	Roedd y papur hwn yn archwilio'r materion a oedd yn effeithio ar ddefnydd isel o'r Budd-dal Tai, Rhyddhad Ardrethi a'r Lwfans i Bobl Anabl a gwnaeth argymhellion ar sut y gellid gynyddu eu defnydd. Roedd y materion a oedd yn ymwneud â defnydd isel yn cynnwys: • Hyd a chymhlethdod ffurflenni cais. • Materion hygyrchedd. • Camsyniadau ynghylch anghymhwysedd. • Cyndynrwydd i rannu gwybodaeth bersonol. • Profiadau gwael yn y gorffennol wrth wneud cais am fudd-daliadau. Roedd yr argymhellion ar sut y gellid cynyddu'r defnydd yn cynnwys: • Dylai taflenni cael eu hadolygu a'u gwneud yn fwy eglur. • Sefydlu llinell gymorth ddienw am ddim. • Hysbysebu a darparu ymweliadau cartref. • Defnyddio galluogwyr lleol.

Dogfen	Crynodeb
	• Symleiddio ffurflenni. • Darparu budd-daliadau'n awtomatig. • Ffurflenni a ddosbarthwyd i'r cyhoedd eisoes. • Darparu pecynnau gwybodaeth i'r rhai sy'n ymddeol. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai'r adroddiad hwn yn awgrymu bod yna fudd mewn gwella'r broses weinyddol a sicrhau bod yna gymorth penodol ar gael, yn ogystal â gweithio trwy'r sector gwirfoddol a thargedu pobl ar adegau penodol yn eu bywydau.</i>
Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin: Tackling Pensioner Poverty (2009)	Bu'r Pwyllgor yn edrych ar y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Gwasanaeth Pensiwn i leihau lefel tlodi ymhlith pensiynwyr. Canfuwyd fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymdrechu'n galed i annog pensiynwyr i hawlio'r Credyd Pensiwn ac yna'u hatgyfeirio i fudd-daliadau eraill, ond nododd y gallai annog pobl i hawlio'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor cyn dechrau gwneud cais am y Credyd Pensiwn fod yn fwy effeithiol. Nododd y Pwyllgor bod cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i annog pobl i hawlio'r Credyd Pensiwn, ond ei fod bellach yn gweld ei ymdrechion yn arwain at lai o geisiadau ac mai ychydig iawn o gynnydd pellach sy'n cael ei wneud i wella'r defnydd. Nododd fod pensiynwyr sy'n berchen ar eu cartrefi'n llai tebygol o fod yn byw mewn tlodi na'r rhai nad oedd yn berchen eu cartrefi, ond nad oedd nifer o'r rhai a oedd â hawl yn manteisio ar fudd-daliadau prawf modd.

Dogfen	Crynodeb
	Awgrymodd y Pwyllgor bod angen i'r Adran ganfod maint y broblem a deall y rhesymau dros hyn cyn y gallai fynd i'r afael â'r mater yn effeithiol. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol y gallai canolbwyntio ar wella'r defnydd o'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor gael cryn effaith ar nifer y pensiynwyr a oedd yn byw mewn tlodi ac awgrymwyd bod angen i ALLau wneud mwy i gynyddu'r defnydd o'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor, a gweithio'n agosach ag Asiantaethau'r Adran. Roedd argymhellion eraill a gyflwynwyd yn cynnwys cymell ALLau i wella'r defnydd o'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor, gyda'r Adran yn gosod targedau ar gyfer naill ai defnydd o'r budd-daliadau hyn, neu'r nifer o geisiadau newydd a gynhyrchir. Argymhellodd hefyd y dylai fod yna un llinell ffôn ar gyfer y Credyd Pensiwn, y Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai'r adroddiad hwn yn awgrymu bod yna fudd mewn gofyn i ALLau dargedu perchen-feddianwyr, gosod targedau defnyddio a gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i hasiantaethau.</i>
Y Comisiwn Archwilio Defnyddio Budd-daliadau	Cynhaliodd y Comisiwn Archwilio gyfres o archwiliadau budd-daliadau peilot ar draws nifer o ALLau yn Lloegr. Nododd y Comisiwn bedwar maes o arferion gwerth eu nodi, sef: Adnabod a thargedu hawlwyr posibl, gan nodi bod defnyddio ffynonellau data'n ddoeth wedi galluogi i ALLau adnabod cwsmeriaid posibl yn fwy effeithiol. Nododd fod Newham yn edrych ar ffyrdd o rannu data rhwng

Dogfen	Crynodeb
	adrannau. • Marchnata a hyrwyddo gwasanaethau budd-daliadau, gan awgrymu bod gwaith hyrwyddo wedi'i deilwra i gyd-fynd â phroffil y gymuned leol yn gallu helpu i gynyddu llwyddiant ymgyrchoedd defnyddio. Nododd yr angen i fesur a deall yr effaith y mae ymgyrchoedd defnyddio'n ei chael ar ardaloedd lleol i'w helpu i gynyddu'r llwyddiant a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â gwaith hyrwyddo llai effeithiol. • Adolygu diwyg y llenyddiaeth er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd i'w darllen, yn darparu cyngor clir gydag enghreifftiau o ganllawiau ac yn nodi'r dulliau cysylltu gwahanol. • Gweithio gyda phartneriaid i wella'r cyfraddau defnyddio. Awgrymodd y gallai gweithio mewn partneriaeth helpu i ennyn dealltwriaeth o anghenion lleol ac i deilwra gwasanaethau'n briodol. Darparodd y Comisiwn ddarluniau bychan o weithgareddau defnyddio budd-daliadau nifer o ALLau, gan nodi'r gweithgareddau arloesol a oedd yn cynnwys, er enghraifft, gweithio gyda Chychwyn Cadarn, ysgolion lleol a mynychu gweithdai diswyddo gyda busnesau a effeithiwyd. Fodd bynnag, nododd y Comisiwn hefyd enghreifftiau o gynlluniau nad oedd wedi'u datblygu ddigon, nad oedd yn ddigon manwl a lle nad oedd ganddynt drefniadau digonol i werthuso effaith y camau gweithredu i wella'r defnydd a lle nad oedd defnyddio budd-daliadau wedi'i nodi fel blaenoriaeth mewn cynlluniau busnes lleol. <i>Perthnasedd i Gymru</i> <i>Byddai'r adroddiad hwn yn awgrymu bod yna fudd i ALLau ddefnyddio dull gweithredu wedi'i dargedu, gan archwilio opsiynau rhannu data, teilwra cyhoeddusrwydd at anghenion lleol, gwella'r broses weinyddol a mabwysiadu dull o</i>

Dogfen	Crynodeb
	<i>weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill perthnasol. Mae hefyd yn awgrymu bod angen i ALLau gael cynlluniau gweithredu manwl a chynnwys mesurau i asesu effaith eu gweithgareddau a rhaid i gynlluniau defnyddio gael eu cefnogi ar lefel strategol o fewn cyngorau.</i>

Atodiad 2 - Manylion Ychwanegol ar Ddefnyddio

Tabl 14: Yn cydberthyniad rhwng Derbynyddion HB o'r boblogaeth dros 15 oed a Ffactorau Economaidd-Gymdeithasol

	Rhanbarthau Prydain		Awdurdodau Lleol Cymru	
	Awst-07	Ebr-10	Awst-07	Ebr-10
R-sgwaredig				
Cyfradd diweithdra hawlwyd	65%	55%	74%	77%
GVA'r gweithle (£mil prisiau 2005) y pen	30%	32%	0%	0%
Cyflogau preswyl	43%	46%	2%	1%
Prisiau tai	68%	65%	71%	65%
Canran LSOAs yn y 10% mwyaf difreintiedig(2008)	-	-	72%	67%
Canran LSOAs yn y 50% mwyaf difreintiedig (2008)	-	-	78%	77%
% Cyfanswm y boblogaeth sydd wedi ymddeol ²³	0%	15%	23%	27%
% Cyfanswm y gyflogaeth gynhyrchu (1991)	3%	2%	40%	40%
Cyfernod Cydberthyniad				
Cyfradd diweithdra hawlwyd	0.8	0.7	0.9	0.9
GVA'r gweithle (£mil prisiau 2005) y pen	-0.5	-0.6	0.0	0.0
Cyflogau preswyl	-0.7	-0.7	-0.1	-0.1
Prisiau Tai	-0.8	-0.8	-0.8	-0.8
Canran LSOAs yn y 10% mwyaf difreintiedig (2008)	0.0	0.0	0.8	0.8
Canran LSOAs yn y 50% mwyaf difreintiedig (2008)	0.0	0.0	0.9	0.9
% Cyfanswm y boblogaeth sydd wedi ymddeol	-0.1	-0.4	-0.5	-0.5
% Cyfanswm y gyflogaeth gynhyrchu (1991)	-0.2	-0.1	0.6	0.6

Ffynhonnell: ONS, ASHE, DCLG, Stats Cymru, Oxford Economics

Noder: Nid oes data rhanbarthol ar gyfer LSOAs yn yr ardaloedd sydd yn y 10% mwyaf difreintiedig gan fod data amddifadedd yn cael ei gynhyrchu ar wahân ar gyfer gweinyddiaethau datganoledig a, hyd y gwyddom ni, ni ellir ei gymharu

²³Nid yw'n gwbl amlwg pam fod y gwerth R-sgwaredig yn 0% ar gyfer y boblogaeth wedi ymddeol yn Awst 2007.

Nodyn 1 – R-sgwaredig: Mae R-Sgwaredig yn fesuriad ystadegol o gyfrannedd amrywiad mewn un newidyn (yn yr achos hwn, budd-dal tai yn ôl y boblogaeth dros 15 oed) mewn perthynas ag un neu fwy o newidynnau eraill. Mae gwerthoedd R-sgwaredig sy'n nes at 1 neu 100% yn dangos cysylltiad cryfach. Nodwch fodd bynnag nad yw canlyniadau R-sgwaredig yn dangos achosiaeth, e.e. mae newidiadau yn newidyn gyriant X / yn 'achosi' newid yn newidyn Y .

Nodyn 2 – Cydberthyniad: Mae canlyniadau cyfernod cydberthyniad yn gysylltiedig â chanlyniadau R- sgwâr, ac eithrio eu bod yn wahanol o ran gwahaniaethu ar gyfer cyfeiriad y cysylltiad. Mae gwerthoedd cydberthyniad yn amrywio rhwng -1 a +1. Mae cydberthyniad positif perffaith (cyfernod cydberthyniad o +1) yn awgrymu bod newidiadau cymharol mewn un newidyn yn cyd-fynd â newid union yr un fath yn y newidyn arall ac yn yr un cyfeiriad, e.e. cynnydd o 1% mewn diweithdra yn gysylltiedig â chynnydd o 1% mewn cyfraddau derbyn budd-daliadau. Os yw'r cyfernod cydberthyniad yn 0, mae'n debyg nad oes gan y newidynnau gydberthyniad na chysylltiad (yn debyg i werth R-sgwaredig o 0%).

Nodyn 3 – T-stat: Mae'r t-stat yn brawf ystadegol i amcangyfrif cryfder y berthynas rhwng newidynnau h.y. a yw'r berthynas yn ystadegol bwysig.

Nodyn 4 – gwerth-p: Mewn profion ystadegol sylweddol, isa'n byd yw'r gwerth-p, pwysica'n byd yw'r berthynas, o ran arwyddocâd ystadegol. Yn aml mae rhywun yn derbyn y ddamcaniaeth amgen, (h.y. yn gwrthod y ddamcaniaeth nwl o ddim perthynas bwysig) os yw'r gwerth-p yn is na 0.05 neu 0.01.

Tabl 15: Model Croestoriad o Dderbynyddion HB o'r boblogaeth dros 15 oed ar draws Awdurdodau Lleol Cymru (Ebrill 2010)

	Cyfernod	t-stat	gwerth-p
Cyson	60	3.1	0.007
Cyfradd diweithdra hawlwyrr (Ebrill 2010)	624	2.6	0.019
Canran LSOAs yn y 50% mwyaf difreintiedig (2008)	53	3.0	0.007
% Cyfanswm y boblogaeth sydd wedi ymddeol (2010)	-82	-1.2	0.233
R-sgwaredig wedi'i addasu	84%	-	-

Ffynhonnell: Oxford Economics

Tabl 16: Y cydberthyniad rhwng Derbynyddion CTB o'r boblogaeth dros 18 oed a Ffactorau Economaidd-Gymdeithasol

	Rhanbarthau Prydain		Awdurdodau Lleol Cymru	
	Awst-07	Ebr-10	Awst-07	Ebr-10
R-squaredig				
Cyfradd diweithdra hawlwyrr	78%	81%	74%	71%
GVA'r gweithle (£mil prisiau 2005) y pen	50%	54%	4%	5%
Cyflogau preswyl	58%	63%	6%	3%
Prisiau tai	79%	79%	87%	79%
Canran LSOAs yn y 10% mwyaf difreintiedig (2008)	-	-	75%	70%
Canran LSOAs yn y 50% mwyaf difreintiedig (2008)	-	-	92%	91%
% Cyfanswm y boblogaeth sydd wedi ymddeol	0%	12%	13%	15%
% Cyfanswm y gyflogaeth gynhyrchu (1991)	0%	9%	43%	44%
Cyfernod Cydberthyniad				
Cyfradd diweithdra hawlwyrr	0.9	0.9	0.9	0.8
GVA'r gweithlu (£mil prisiau 2005) y pen	-0.7	-0.7	-0.2	-0.2
Cyflogau preswyl	-0.8	-0.8	-0.3	-0.2
Prisiau tai	-0.9	-0.9	-0.9	-0.9
Canran LSOAs yn y 10% mwyaf difreintiedig (2008)	0.0	0.0	0.9	0.8
Canran LSOAs yn y 50% mwyaf difreintiedig (2008)	0.0	0.0	1.0	1.0
% Cyfanswm y boblogaeth sydd wedi ymddeol	-0.1	-0.3	-0.4	-0.4
% Cyfanswm y gyflogaeth gynhyrchu (1991)	0.0	0.3	0.7	0.7

Ffynhonnell: ONS, ASHE, DCLG, Stats Cymru, Oxford Economics

Tabl 17: Model Croestoriad o dderbynyddion CTB o'r boblogaeth dros 18 ar draws Awdurdodau Lleol Cymru (Ebrill 2010)

	Cyfernod	t-stat	gwerth-p
Cyson	81	3.5	0.004
Cyfradd diweithdra hawl wyr (Ebrill 2010)	340	1.5	0.131
Prisiau tai (Q1 2010)	0.0	-1.2	0.289
Canran LSOAs yn y 50% mwyaf difreintiedig (2008)	98	3.8	0.001
R-sgwaredig wedi'i addasu	91%	-	-

Ffynhonnell: Oxford Economics

Atodiad 3 – Dosbarthu Arian

Awdurdod Lleol	2006/2007		2008/2009		2009/2010		2010/2011	
	% Dyraniad	£	% Dyraniad	£	% Dyraniad	£	% Dyraniad	£
Ynys Môn	2.44%	36,592.00	2.40%	24,000.00	2.37%	23,700.00	2.36%	23,600.00
Blaenau Gwent	2.50%	37,498.00	2.52%	25,200.00	2.44%	24,400.00	2.49%	24,900.00
Pen-y-bont ar Ogwr	4.30%	64,525.00	4.37%	43,700.00	4.43%	44,300.00	4.44%	44,400.00
Caerffili	6.03%	90,440.00	6.02%	60,200.00	6.05%	60,500.00	6.07%	60,700.00
Caerdydd	9.88%	148,215.00	9.98%	9,800.00	10.10%	101,000.00	10.16%	101,600.00
Sir Gaerfyrddin	6.10%	91,452.00	6.12%	61,200.00	6.19%	61,900.00	6.16%	61,600.00
Ceredigion	2.53%	38,000.00	2.54%	25,400.00	2.51%	25,100.00	2.50%	25,000.00
Conwy	3.84%	57,608.00	3.78%	37,800.00	3.77%	37,700.00	3.74%	37,400.00
Sir Ddinbych	3.35%	50,216.00	3.37%	33,700.00	3.38%	33,800.00	3.37%	33,800.00
Sir y Fflint	4.76%	71,457.00	4.75%	47,500.00	4.77%	47,700.00	4.75%	47,500.00
Gwynedd	4.32%	64,738.00	4.27%	42,700.00	4.24%	42,400.00	4.19%	41,900.00
Merthyr Tudful	2.01%	30,119.00	2.01%	20,100.00	1.99%	19,900.00	2.02%	20,200.00
Sir Fynwy	2.72%	40,745.00	2.71%	27,100.00	2.73%	27,300.00	2.70%	27,000.00
Castell-nedd Port Talbot	4.77%	71,542.00	4.75%	47,500.00	4.73%	47,300.00	4.74%	47,400.00
Casnewydd	4.80%	71,956.00	4.80%	48,000.00	4.79%	47,900.00	4.82%	48,200.00
Sir Benfro	4.15%	62,191.00	4.13%	41,300.00	4.14%	41,400.00	4.10%	41,000.00
Powys	4.68%	70,176.00	4.64%	46,400.00	4.56%	45,600.00	4.54%	45,400.00
Rhondda Cynon Taf	8.21%	123,175.00	8.17%	81,700.00	8.08%	80,800.00	8.14%	81,400.00
Abertawe	7.47%	112,073.00	7.50%	75,000.00	7.48%	74,800.00	7.45%	74,500.00
Bro Morgannwg	3.92%	58,789.00	3.95%	39,500.00	4.02%	40,200.00	4.01%	40,100.00
Torfaen	3.18%	47,664.00	3.17%	31,700.00	3.14%	31,400.00	3.12%	31,200.00
Wrecsam	4.06%	60,829.00	4.05%	40,500.00	4.09%	40,900.00	4.12%	41,200.00
Cymru	100.00%	1,500,000	100.00%	1,000,000.00	100.00%	1,000,000.00	99.99%	1,000,000.00

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru